**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# Y CYNGOR

# THE COUNCIL

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1.00pm, DYDD IAU, 19 MEDI, 2013**

**1.00pm, THURSDAY, 19 SEPTEMBER, 2013**

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**
**Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD/DISTRIBUTED 12/09/13)

**Harry Thomas**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

12 Medi / September 2013

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 19 MEDI 2013**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **19 MEDI 2013 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 19 SEPTEMBER 2013**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **19 SEPTEMBER 2013 in SIAMBR DAFYDD ORWIG, COUNCIL OFFICES, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,

Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol/Independent – Ystafell Gwyrfai
Llais Gwynedd – Ystafell Llyfni
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Peris (ar ôl 11.30am / after 11.30am)
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mai, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 12.

**8(A) CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET ADNODDAU**

Derbyn cyflwyniad llafar gan yr Aelod Cabinet Adnoddau.

**8(B) SICRHAU GWASANAETHAU CYNALIADWY MEWN CYFNOD ANODD**

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (copi ynghlwm).

**9. YMATEB I YMGYNGHORIAD Y COMISIWN AR LYWODRAETHU A DARPARU GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**10. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2012/13**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella (copi ynghlwm).

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol a Phennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden (copi ynghlwm).

## 12. SIARTER DATBLYGU AELODAU

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm).

## 13. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (copi ynghlwm).

## 14. RHYBUDDION O GYNNIG

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Reol Gweithdrefn 17, bydd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**"A wnaiff Cyngor Gwynedd gefnogi'r angen am Brifysgol Feddygol ar gyfer Meddygon yng Ngogledd Cymru er mwyn datrys y prinder Meddygon yng Ngwynedd ac ardaloedd eraill o Ogledd Cymru?**

**Gofynnaf i Gyngor Gwynedd ddwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru, y Gweinidog Iechyd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gefnogi'r Brifysgol Feddygol oherwydd y byddai yna fanteision ychwanegol o gadw ein pobl ifanc broffesiynol yn yr ardal a byddai o gymorth i greu swyddi a hefyd o gymorth i ddarparu Meddygon Cymraeg eu hiaith mewn ardaloedd fel Gwynedd."**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

# Y CYNGOR 02/05/13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Huw Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dewi Owen (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, T.G. Ellis, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John B. Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron Jones, Anne Ll. Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric M. Jones, John W. Jones, Linda W. Jones, Sion W. Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, W. Tudor Owen, Peter Read, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John W. Williams, Owain Williams, R.H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J. Wright, Eurig Wyn

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones, Dafydd Lewis a Dilwyn Williams (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), (Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Darren Griffith (Rheolwr Cynllunio Strategol), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Busnes) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Stephen Churchman, David Gwynfor Edwards, Llywarch Bowen Jones, Nigel Pickavance, Gareth Thomas

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Tom Ellis.

Dilynwyd y weddi gydag anerchiad gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths, Cadeirydd 2012/13.

**1. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Huw Edwards yn gadeirydd am 2013/14.

Llofnododd y Cynghorydd Huw Edwards ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2013/14.

**2. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dewi Owen yn is-gadeirydd am 2013/14.

Llofnododd y Cynghorydd Dewi Owen ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2013/14.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2013 fel rhai cywir.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(i) Anfonwyd i'r aelodau, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglyn â'r eitem "Cyflogau Aelodau".

Eglurwyd bod gan bob aelod dan y Côd Ymddygiad, fuddiant personol posibl yn yr eitem hon, ond nid yw'n fuddiant sy'n rhagfarnu. Dylid datgan y buddiant drwy lofnodi'r ffurflen briodol ond bydd hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth a'r pleidleisio.

ii) Datganodd y cyfan o'r aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fuddiant personol yn yr eitem "Cyflogau Aelodau" oherwydd eu bod fel aelodau o'r Cyngor yn derbyn cyflog.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

**5. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

i) Cydymdeimlwyd â'r canlynol -

Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones ar farwolaeth ei hewythr yn ddiweddar.

Teulu'r cyn-gynghorydd Leslie Edwards, Abermaw – Cadeirydd olaf hen Gyngor Sir Gwynedd, a fu farw'n ddiweddar

Teulu'r cyn-gynghorydd Ifor Lewis, Morfa Bychan, a fu farw'n ddiweddar.

Rhai o staff y Cyngor a gollodd anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

ii) Dymuno'r gorau -

I ieuenctid y sir a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Benfro, diwedd y mis hwn.

I'r Cynghorydd W. Roy Owen ar ei dymor yn Faer Caernarfon.

iii) Anfonwyd copi o Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd i bob aelod gyda rhaglen y Cyngor a thynnwyd sylw gan y Cadeirydd at eu pwysigrwydd, y cyfrifoldeb sydd ar bob aelod i sicrhau

eu bod yn cymryd diogelu o ddifrif a'r angen iddynt i gyd fynychu hyfforddiant ar y pwnc.

**6. CYNLLUN STRATEGOL DRAFFT Y CYNGOR AR GYFER 2013 - 2017**

(a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Nododd nad yw'r cynllun yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol yn unig ond ei fod hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am roddi 80% o'r cyllid, hefyd â blaenoriaethau a dyheadau ac y dylid eu gweu i mewn i'r dyheadau a'r uchelgais lleol. Tynnodd sylw at enghreifftiau yn y ddogfen e.e. safonau addysg lle mae dyhead lleol i wella'r safonau ond hefyd, gosododd y Gweinidog Addysg her sef y disgwylir i bob Cyngor yng Nghymru godi safonau 5% y flwyddyn am y dair blynedd nesaf. Cyfeiriodd at y Mesur newydd yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol.

'Roedd yn ddiolchgar am fewnbwn yr aelodau a'r cyhoedd ar y cynllun.

Cyfeiriodd at y ffaith ei bod yn amhosibl cael un dogfen sy'n adlewyrchu blaenoriaethau pawb oherwydd barn gwahanol. Tynnodd sylw hefyd at y wasgfa ariannol a'r brif her tros y blynyddoedd nesaf yw cynnal y gwasanaethau ac fe ymgorfforwyd Strategaeth Ffordd Gwynedd a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2013 o fewn y cynllun ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Nododd ei bod yn ddogfen fyw ac y gellir ychwanegu ati ond ei bod yn gosod blaenoriaethau cyffredin y Cyngor ac y byddai'r Cabinet yn gyfrifol am fanylder y cynlluniau.

Nododd Arweinydd y Cyngor wrth fabwysiadu'r Cynllun Strategol blwyddyn ar gyfer 2012/13, cytunwyd bod y Cyngor am fabwysiadu Cynllun Strategol ar gyfer gweddill oes y Cyngor, o 2013 i 2017. Mae'n ofynnol i bob Cyngor baratoi Cynllun Gwella blynyddol sy'n amlinellu "amcanion gwella'r" Cyngor am y flwyddyn ac mae'r Cynllun Strategol yn gwneud hynny ac mae'r cynllun, yn ogystal â nodi'r canlyniadau tymor hwy y mae'r Cyngor yn ceisio ei wireddu, yn nodi felly yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2013/14 yn benodol. Bydd adolygiad blynyddol o'r cynllun yn sicrhau hynny yng nghyd-destun y canlyniadau tymor hwy mae'r Cyngor am weithio tuag atynt ym mhob maes.

Un pwyslais pendant wrth ei ddatblygu yw bod yn rhaid bod yn effro i gyfleon a risgiau newydd allai godi a hefyd gwirio bod yr hyn yr ymrwymwyd iddo yn gwneud y gwahaniaeth a fwriadwyd. Os nad yw hynny'n digwydd, bydd yn rhaid bod yn barod i atal gweithgaredd er mwyn ailgyfeirio gwaith ac adnoddau. Yn benodol hefyd, bwriedir chwilio am gyfleon buan i fod yn fwy pendant am rai o'r meysydd lle mae cynigion datblygol yn unig ar hyn o bryd. Y nod yw bod yn fwy eglur mor fuan â phosibl am yr hyn y bwriedir ei wireddu yn y gwahanol feysydd a symud ymlaen felly i gyflawni canlyniadau clir a phwrpasol i drigolion.

Nododd mai ystyriaeth amlwg wrth fabwysiadu cynllun o'r fath yw'r adnoddau sydd ei angen ar gyfer ei weithredu. Cyfeiriodd at y

Strategaeth Ariannol am oes y cynllun sy'n nodi y gwnaed darpariaeth yn y strategaeth i gyfarfod â gofynion adnoddau'r cynllun. Ystyriodd y Tîm Rheoli Corfforaethol y gofynion adnoddau tebygol sydd ynghlwm â'r ymrwymiadau yn y cynllun ac yn cynnig y sicrwydd bod darpariaeth ddigonol ar gyfer y gofynion hynny yn y strategaeth. Yn amodol ar i'r Cyngor gymeradwyo'r cynllun, tros yr wythnosau nesaf, fe fydd herio caled ar y gofynion adnoddau unigol i wirio'r ceisiadau am gynlluniau unigol cyn eu rhyddhau ar gyfer eu gweithredu ond ni fydd hynny'n rwystr i wireddu'r ymrwymiadau a wneir yn y cynllun.

Wrth lunio'r cynllun, gwnaed tipyn o waith i ymgysylltu ac ymgynghori ynglyn â'r cynllun ac 'roedd yr ymgysylltu cychwynnol gyda thrigolion ynglyn â'r hyn y dylid mynd i'r afael ag ef yn y cynllun yn bur llwyddiannus. Fodd bynnag, 'roedd yr ymgynghori ar y cynigion yn siomedig o ran y niferoedd a gymerodd ran ac mae gwersi yma y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu hystyried wrth ddatblygu'r flaenoriaeth yn y cynllun i wella trefniadau ymgysylltu'r Cyngor. Yn fuan wrth lunio cynigion ar gyfer y blaenoriaethau, ystyriwyd materion cydraddoldeb a chynaladwyedd a bydd y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau fel y gellir sicrhau'r Cyngor llawn o unrhyw faterion o'r fath y dylai fod yn ymwybodol ohonynt wrth ystyried mabwysiadu'r cynllun.

Ystyriwyd y cynllun drafft gan y Cabinet ar 30 Ebrill 2013 pryd y penderfynwyd argymell i'r Cyngor ei fabwysiadu.

(b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Mewn perthynas â Proffil o Wynedd a'r Cyngor, 'roedd aelod o'r farn bod angen cynnwys rhagor o fanylion yn y proffil e.e. cynnwys braslun o wahanol wasanaethau mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni, adeiladwaith y Cyngor a chyfeiriad at wefan y Cyngor.

ii) Cynigiodd aelod welliant parthed Maes Plant a Phobl Ifanc sef " O ystyried y canllawiau i awdurdodau lleol ar asesu a sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd a'r ffaith bod yna ofynion statudol ar y Cyngor i fabwysiadu'r polisiau hyn, mae cwblhau asesiad o'r canllawiau statudol yn nodi y dylai'r asesiad o ddigonolrwydd cyfleon chwarae fod yn ran o'r asesiad o anghenion lleol ac y dylid integreiddio'r cynllun gweithredu i gynnwys cynigion ar gyfer sicrhau cyfleon chwarae digonol i mewn i'r broses o gynllunio, gweithredu ac adolygu'r cynllun integredig sengl ar bob cam o'r cylch cynllunio.

Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach y gwnaed asesiad eisoes o ddigonolrwydd chwarae ac fe'i anfonwyd at Lywodraeth Cymru ac fe adnabuwyd gwahanol anghenion.

Hysbysodd y Prif Weithredwr bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at gynllun arall sef cynllun integredig sengl gyda partneriaethau. Cyfeiriodd at gyflwyniad a wnaed gan swyddogion i'r Cabinet ar yr asesiad ac y byddai'n bosibl trosglwyddo'r wybodaeth i'r aelod er dangos y cynllun gweithredu a'r asesiad a wnaed.

Cyferiodd aelod arall iddo ddeall y gwnaed asesiad ar gost oddeutu £20,000. 'Roedd o'r farn mai nawr yw'r amser i integreiddio materion i'r cynllun strategol.

Nododd Arweinydd y Cyngor nad oes anghytundeb parthed y mater hwn ond a oes angen ei gynnwys yn y cynllun strategol. Cyfeiriodd at y ffaith bod ymateb y Cabinet ar yr asesiad digonolrwydd chwarae wedi ei anfon i Lywodraeth Cymru ac felly rhoddwyd ystyriaeth i'r mater.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

iii) 'Roedd aelod yn croesawu'r cynllun strategol ond datganodd bryder am yr ymgynghori ar y cynllun ac 'roedd yn bwysig cysylltu â'r trydydd sector.

iv) 'Roedd aelod o'r farn y byddai peidio â sefydlu carchar yng Ngwynedd yn drasiedi gan y byddai'n fodd o greu rhagor o swyddi. Nododd bod 14% o bobl ifanc Gwynedd yn gadael y sir i chwilio am waith.

Mewn ymateb, hysbysodd Arweinydd y Cyngor, yn anffodus collwyd y cyfle i sefydlu carchar ar hen safle Ferodo, Caernarfon ond erbyn hyn gosododd y Weinyddiaeth Cyfiawnder feini prawf parthed sefydlu carchardai newydd ac nid yw safle Ferodo yn cyfarfod â'r meini prawf hynny. Nododd, os oes aelodau â gwybodaeth am safleoedd eraill addas o fewn Gwynedd yna byddai'n hoffi derbyn gwybodaeth amdanynt.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2013 – 2017.**

## 7. DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD

a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Nododd bod gwaith ar y gweill dan arweiniad y gymdeithas sy'n cynrychioli Swyddogion Monitro yng Nghymru, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, i lunio cyfansoddiad safonol ar gyfer cynghorau unedol Cymru. Yr ysgogiad ar gyfer hynny oedd y ffaith bod pob Cyngor yng Nghymru bellach gyda threfn gweithrediaeth (Arweinydd a Chabinet), a bod amrywiaethau sylweddol yn amlygu eu hunain rhwng y gofynion cyfreithiol ar gynghorau Cymru o'u cymharu â rhai Lloegr yn sgîl deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru.

Nododd y disgwylir i'r cyfansoddiad safonol fod yn barod yn ystod y misoedd nesaf. Bydd yn parhau i ganiatau amrywiaethau lleol o gyngor i gyngor, ond y gobaith yw y byddai modd cael gwell cysondeb ar ddehongliadau o'r cyfansoddiad ar draws Cymru ac y byddai ffurf y ddogfen gyfansoddiadol yn haws i'w deall. Cyflwynir y cyfansoddiad

safonol newydd i'r Cyngor maes o law i'w fabwysiadu, Yn y cyfamser, mae rhai diwygiadau angen eu gwneud i'r cyfansoddiad presennol fel a ganlyn –

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Iaith
Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Iaith yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Cynllun Iaith y Cyngor ac yn gyfrifol am ymateb i'r safonau iaith pan y'u cyhoeddir. Yn y cyfarfod ar 16 Ebrill 2013, argymhellodd y pwyllgor y dylid ychwanegu'r cymal canlynol at y cylch gorchwyl ........ *"Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y sir gan wneud argymhelliad i'r Cabinet yn ôl yr angen".*

Nododd mai dymuniad y pwyllgor fyddai cael y cyfrifoldeb llawn am unrhyw strategaeth i hyrwyddo'r iaith o fewn y sir yn lle'r Cabinet, ond nid yw hyn yn gyfreithiol posibl dan y ddeddfwriaeth bresennol. Trafododd aelodau'r Cabinet ddymuniad y Pwyllgor Iaith ac iddynt hwythau yn eu tro gynnig bod unrhyw strategaeth a ddatblygir i hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w mabwysiadu. Argymhellodd felly bod *"strategaeth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y Sir"* yn cael ei ychwanegu at y rhestr o gynlluniau sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn.

Rheolau Gweithdrefn y Cyngor
Ar hyn o bryd, mae Rheol Gweithdrefn 22(4) yn nodi y bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy ddangos dwylo. Gan fod y modd gan y Cyngor i bleidleisio yn electroneg yn Siambr Dafydd Orwig, argymhellodd ddiddymu'r rheol hon. Bydd hynny yn ei gadael yn agored i Gadeirydd unrhyw gyfarfod benderfynu ar y dull mwyaf priodol o bleidleisio.

Ymddiriedolaethau
Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr i nifer o elusennau neu ymddiriedolaethau lleol ac fe weinyddir llawer ohonynt drwy ysgolion, ac eraill naill ai gan yr Adran Addysg neu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Argymhellodd y dylid ffurfioli hyn drwy gynnwys yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion bod yr ymddiriedolaethau i'w gweinyddu gan y Pennaeth Adran perthnasol mewn ymgynghoriad â'r aelod neu aelodau lleol.

Adroddiadau'r Ombwdsmon
Os yw'r Ombwdsmon yn ystyried bod y Cyngor wedi camweinyddu, gallai gyhoeddi adroddiad cyhoeddus yn cynnig argymhellion. Nid yw rhoddi ystyriaeth i adroddiad o'r fath yn fater y gallai'r Cabinet ymdrin ag ef. Gan bod y Pwyllgor Archwilio â'r dasg o ystyried trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gyffredinol, argymhellodd mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r corff priodol i ystyried adroddiadau o'r math hwn ac y dylid ychwanegu'r cymal canlynol at gylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw ...... *"y pŵer i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 19 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005".*

Dirprwyo i Swyddogion

Yn dilyn diddymu swydd Pennaeth Adran Darparu a Hamdden, rhannwyd swyddogaethau'r adran rhwng y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden, y Pennaeth Addysg, y Pennaeth Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Argymhellodd ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

(b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Mewn perthynas â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor ac yn benodol y drefn newydd o bleidleisio'n electroneg yn Siambr Dafydd Orwig, awgrymodd aelod y dylid profi'r system ar ddechrau pob cyfarfod er sicrhau bod y cardiau'n gweithio.

ii) Parthed cylch gorchwyl y Pwyllgor Iaith, cynigiodd aelod welliant sef gan bod yr iaith Gymraeg yn fater sy'n ganolog ac yn gorfforaethol i'r Cyngor y dylai materion iaith gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn yn hytrach na'r Cabinet.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro bod rhai materion, yn dilyn y drefn newydd, yn gyfrifoldeb i'r Cabinet. Nododd mai dymuniad y Pwyllgor Iaith fyddai i faterion iaith beidio â bod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet ond yn hytrach yn gyfrifoldeb i'r pwyllgor a bod y pwyllgor wedyn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor. Dan y trefniadau cyfreithiol presennol nid yw'n bosibl i'r Cyngor dynnu'r cyfrifoldeb hwn oddi ar y Cabinet. Mae'n bosibl i'r Cyngor benderfynu ar y strategaeth derfynol ac y byddai modd i'r Pwyllgor Iaith wneud argymhellion i'r Cyngor yn ogystal ag i'r Cabinet. Nododd hefyd y penderfynodd y Pwyllgor Iaith y dylid ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am newidiadau gael eu cyflwyno i'r ddeddf mewn perthynas â throsglwyddo holl gyfrifoldeb am faterion iaith o'r Cabinet i'r Cyngor, a disgwylir am yr ymateb.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

iii) Datganodd aelod bryder bod y Pennaeth Gofal Cwsmer yn cael cyfrifoldebau ychwanegol drwy ychwanegu'r gwasanaethau glanhau a gofalwyr at ei llwyth gwaith presennol.

**PENDERFYNWYD gwneud y diwygiadau canlynol i'r Cyfansoddiad –**
**i) Ychwanegu *"Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y Sir gan wneud argymhelliad i'r Cabinet yn ôl yr angen"* at gylch gorchwyl y Pwyllgor Iaith yn rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**
**ii) Ychwanegu *"Strategaeth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y Sir"* at y rhestr o gynlluniau neu strategaethau sydd i'w penderfynu gan y Cyngor llawn yn Erthygl 3 o'r Cyfansoddiad.**
**iii) Diddymu rheol gweithdrefn 22(4) (Pleidleisio trwy ddangos dwylo).**
**iv) Ychwanegu'r cymal *"Mewn ymgynghoriad â'r aelod(au) lleol lle'n berthnasol, gweinyddu unrhyw elusen neu ymddiriedolaeth sy'n ymwneud***

***â swyddogaethau'r adran"* at y cynllun dirprwyo i swyddogion yn rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**
**v) Ychwanegu *"Y pŵer i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) dan Adran 19 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005"* at gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**
**vi) Diddymu adran 5 "Pennaeth Darparu a Hamdden" o'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn rhan 3 o'r Cyfansoddiad ac ychwanegu'r swyddogaethau canlynol i gyfrifoldebau'r swyddogion perthnasol –**

- **3.1 Pennaeth Addysg - Arlwyo**
  **Glanhau Ysgolion**
- **8.1 Pennaeth Gofal Cwsmer - Glanhau**
  **Gofalwyr**
- **9.1 Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Glanhau toiledau cyhoeddus**
- **16.1 Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden -**
  **Gofal Cartref**
  **Gwasanaethau Preswyl a Dydd**
  **Canolfannau Hamdden**
  **Datblygu Chwaraeon**
- **16.6 Gweithredu fel y "person cyfrifol" at ddibenion Deddf Safonau Gofal 2000.**

## 8. PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH I AELODAU

a) Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro y mabwysiadodd y Cyngor y protocol cyfredol ar Roddion a Lletygarwch ym Mehefin 2004. Ers 2004, cyflwynwyd Côd Ymddygiad newydd ynghyd â chanllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn ei gwneud yn briodol i adolygu cynnwys y protocol. Fel rhan o'i waith o hyrwyddo safonau ymddygiad uchel o fewn y Cyngor, edrychodd y Pwyllgor Safonau ar y protocol gan gynnig rhai diwygiadau iddo. Mae'r prif newidiadau i ffurf y protocol yn hytrach na'r cynnwys. Erbyn hyn mae'n cynnwys cyfeiriad at y Côd Ymddygiad a'r canllawiau ynghyd ag egwyddorion cyffredinol ddylai fod o gymorth i aelodau.

Tynnodd sylw'r aelodau at yr angen i gofrestru unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch sydd werth mwy na £25 boed yn cael ei dderbyn neu ei wrthod. Bydd y Pwyllgor Safonau o hyn ymlaen yn derbyn adroddiad blynyddol ar gynnwys y gofrestr fel rhan o'i waith monitro safonau o fewn y Cyngor.

b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Nododd aelod ei bod yn pwysig y mabwysiedir protocol cyffelyb ar gyfer swyddogion yn ogystal.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro bod protocol cyffelyb yn bodoli ar gyfer swyddogion a'i fod yn ran o'r cyfansoddiad.

ii) Mewn perthynas â'r angen i gofrestru unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch sydd werth mwy na £25, cynigiodd aelod welliant sef y dylid gostwng y swm i £10.
Nododd aelod arall y trafodwyd y mater gan y Pwyllgor Safonau ac yn gyffredinol fe godir y swm o £25 gan gynghorau ar draws Cymru.

Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant sef y dylid cofrestru unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch sydd werth mwy na £10.

**O blaid: (19)** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Lesley Day, Huw Edwards, Gweno Glyn, Simon Glyn, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John B. Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Aeron Jones, Sion W. Jones, Dilwyn Lloyd, Dewi Owen, Peter Read, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams, Robert J. Wright

**Yn erbyn: (40)** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Eddie Dogan, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Jean Forsyth, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, John W. Jones, Linda W. Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, June Marshall, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, W. Tudor Owen, Caerwyn Roberts, John P. Roberts, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Gethin G. Williams, Hefin Williams, John W. Williams, R.H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Eurig Wyn

**Atal pleidlais: (3)** Y Cynghorwyr Gwen Griffith, Chris Hughes, Angela Russell

**Heb bleidleisio: (6)** Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Aled Ll. Evans, Brian Jones, Eric M. Jones, Dafydd Meurig, Elfed Williams

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch diwygiedig a'i gynnwys yn ran o'r cyfansoddiad.**

**9. CEFNOGAETH I AELODAU**

a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Cynghorydd Lesley Day, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan roddi diweddariad am y gefnogaeth sydd ar gael a'r datblygiadau a wireddwyd ac sydd ar y gweill.

Cyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol -
i) Bod 70 o'r 75 aelod erbyn hyn wedi derbyn i-pad ac o hyn ymlaen fe anfonir rhaglenni a.y. yn electroneg iddynt oddigerth am y rhai sydd heb i-pad a'r rhai sy'n dymuno parhau i gael copiau papur.
ii) Os ceir problemau gyda'r i-pad, yna dylid cysylltu gydag Adain Technoleg Gwybodaeth y Cyngor.

iii) Anfonwyd llythyr at yr aelodau'n cynnig hyfforddiant pellach ar yr i-pad.
iv) Y cyhoeddwyd y bwletin aelodau electroneg cyntaf yn Ebrill 2013.
v) Y moderneiddiwyd Siambr Dafydd Orwig drwy osod offer sain a chyfieithu newydd a system bleidleisio electroneg a disgwylir y gellir gweithredu gwe-ddarlledu yn y dyfodol agos.
vi) Bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi y gallai aelodau lunio adroddiadau blynyddol. Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gynnal peilot o'r drefn am eleni er mwyn dysgu gwersi o'r fformat gorau i'w ddefnyddio, a galluogi'r Cyngor i sefydlu'r gefnogaeth briodol ar gyfer yr aelodau etholedig sy'n dymuno cynhyrchu adroddiadau i'r dyfodol. Cyhoeddir yr adroddiadau o'r peilot ar safle we'r Cyngor erbyn diwedd Mehefin 2013.
vii) Y cynhaliwyd ymchwiliadau craffu i edrych ar effaith polisiau ar lawr gwlad.
viii) Y dechreuwyd ar y drefn o gael aelod o'r Cabinet i adrodd ar elfen o'i waith yng nghyfarfod y Cyngor.

b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Datganodd aelod bryder bod y Porth Gwybodaeth wedi ei atal am gyfnod.

ii) Nododd aelod nad oedd yn hoffi'r enw "Cynulliad Ardal".

iii) Tynnodd aelod sylw at y ffaith yr addaswyd ystafell o fewn Swyddfeydd y Cyngor yn ystafell ar gyfer aelodau'r Cabinet. Gofynnodd pwy a awdurdododd yr addasiad hwn a faint oedd y gost.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr pan sefydlwyd y Cabinet 'roedd yna ddewis ynglyn â darparu swyddfeydd ar gyfer yr aelodau. Nododd bod nifer o gynghorau'n darparu swyddfa ar wahân ar gyfer pob aelod o'r Cabinet, ond er mwyn arbed arian, addaswyd un ystafell yn unig ar eu cyfer.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 10. CYFLOGAU AELODAU

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Nododd ar gyfer 2012/13 a'r blynyddoedd dilynol bod cyflogau a threuliau cynghorwyr i'w talu yn unol â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a ddaeth i rym yn dilyn etholiadau Mai 2012. Adolygwyd y gofynion yn ystod 2012/13, ond nid oedd newid i'r cyflogau na threuliau a nodwyd ar gyfer 2013/14, sy'n sefyll fel a
ganlyn –
Cynghorydd cyffredin £13,175 (Cyflog sylfaenol)
Arweinydd y Cyngor £47,500 (Uwch Gyflog)
Dirprwy Arweinydd y Cyngor £33,460 (Uwch Gyflog)

Aelod Cabinet £28,780 (Uwch Gyflog)
Cadeirydd Pwyllgor £21,910 (Uwch Gyflog)
Arweinydd Grŵp Gwleidyddol £16,920 (Uwch Gyflog)
Cadeirydd y Cyngor £21,375 (Cyflog Dinesig)
Is-gadeirydd y Cyngor £16,625 (Cyflog Dinesig)

Nid oes hawl gan y Cyngor i newid y symiau hyn. Mae hawl gan aelodau unigol i hepgor y cyfan neu ran o'u cyflog pe dymunent.

Mae pum dosbarth o aelodau sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog sef Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet, Cadeirydd Pwyllgor ac Arweinydd Grŵp Gwleidyddol. Cyfyngir nifer yr uwch gyflogau y gellir eu talu i 18 yng Ngwynedd. Penderfynwyd mewn tri cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddyrannu'r uwch gyflogau fel a ganlyn –
Arweinydd y Cyngor a 9 aelod Cabinet ( gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd)
Cadeiryddion y tri Pwyllgor Craffu
Cadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio, Cynllunio, Trwyddedu ac Apelau Cyflogaeth
Arweinydd y Grŵp mwyaf tu allan i'r Cabinet

Nododd, yn unol â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, nid oes newidiadau yn 2013/14 ag eithrio'r canlynol –
a) Rhaid bellach neilltuo un o'r uwch gyflogau i arweinydd y grŵp mwyaf tu allan i'r Cabinet, yn amodol bod gan y grŵp hwnnw o leiaf 10% o holl aelodau'r Cyngor. 'Roedd y Cyngor yn rhagweld y gofyn hwn wrth benderfynu yn Rhagfyr 2012, ac felly mae'r Cyngor eisoes wedi ymateb i'r gofyn hwn.
b) Gall awdurdodau unigol benderfynu ar yr uchafswm dyddiau y gellir talu i aelod cyfetholedig ac mai'r uchafswm yn 2012/13 oedd cyfanswm o 10 diwrnod ac y dylid parhau i gadw at yr uchafswm o 10 diwrnod yn unol â chanllawiau 2012/13.
c) Yn unol â'r hyn a rag-nododd y panel yn 2011/12, mae'r hawl gan aelodau etholedig i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o 2013/14 ymlaen.

Nid oes newidiadau pellach yn deillio gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**PENDERFYNWYD dyrannu uwch gyflog i'r swyddi canlynol ar gyfer 2013/14, fel yn 2012/13 –**
**Arweinydd y Cyngor**
**Dirprwy Arweinydd y Cyngor**
**Aelodau'r Cabinet**
**Cadeiryddion y tri Pwyllgor Craffu**
**Cadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio, Cynllunio, Trwyddedu ac Apelau Cyflogaeth**
**Arweinydd y Grŵp mwyaf tu allan i'r Cabinet**

## 11. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

i) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

a) Adroddwyd –
Yn dilyn etholiadau 2012/13, gyda'r etholiad olaf a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2012, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn -
Plaid Cymru 37
Annibynnol 18
Llais Gwynedd 14
Llafur 4
Democratiaid Rhyddfrydol 2
**Cyfanswm 75**

b) Ar y pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 parthed dyrannu seddau.

c) Y cynhaliwyd cyfarfod o Grŵp Busnes y Cyngor ar 24 Ebrill 2013 i drafod y mater ac oherwydd na fu newid yn y cydbwysedd gwleidyddol ers yr etholiad olaf ar 14 Mehefin 2012, argymhellir cadw at y dyraniad cyfredol fel ag a fu yn 2012/13.

ch) Yn unol â gofynion Adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu'n yn y cadeiryddiaethau hynny a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau. Yr unig bwyllgorau mae eu cadeiriau i'w dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol yw'r Pwyllgorau Craffu canlynol -
Pwyllgor Craffu Corfforaethol – Llais Gwynedd
Pwyllgor Craffu Cymunedau – Annibynnol
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau – Plaid Cymru

d) Ni chaiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod yn aelod o grŵp gwleidyddol a gynrychiolir ar y weithrediaeth ac mai'r Cyngor Llawn sydd i benodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac ni allai benodi aelod o grŵp gwleidyddol a gynrychiolir ar y weithrediaeth.

dd) Gan nad oes newid i'r cydbwysedd gwleidyddol, argymhellir bod y dyraniad o gadeiryddiaethau, i gyd-fynd â'r rheolau statudol, yn aros yn gyson gyda'r dyraniad a fu yn 2012/13.

e) Nad oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i'r is-gadeiryddiaethau nac i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau oddigerth na chaiff aelod o'r weithrediaeth gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu. Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hynny yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy'n cyfyngu tymor cadeirydd i ddwy flynedd.

ii) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

a) Nododd aelod bod y tri pwyllgor craffu â chyfrifoldebau tra gwahanol i'w gilydd. Cyfeiriodd yn benodol at y gwaith sydd gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i graffu dau o brif wasanaethau'r Cyngor sef Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol o'i gymharu â llai o wasanaethau sydd gan y ddau bwyllgor craffu arall. 'Roedd o'r farn y dylai

cadeiryddiaethau'r pwyllgorau hyn newid o un garfan i'r llall, bob dwy flynedd, ar drefn rota, er mwyn tegwch. Cynigiodd hyn fel gwelliant.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro yr etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd y gwahanol bwyllgorau'n flynyddol ac mai'r drefn a weithredir ers blynyddoedd bellach yw bod cadeirydd pwyllgor yn y swydd am gyfnod o ddwy flynedd. Gan mai blwyddyn yn unig sydd ers i'r cadeiryddion presennol fod yn y swydd, 'roedd o'r farn y dylid trafod y mater yr adeg yma y flwyddyn nesaf pan fydd eu cyfnod o ddwy flynedd yn dod i ben.

Yn dilyn yr ymateb, 'roedd yr aelod o'r farn y dylid derbyn hyn mewn egwyddor heddiw a chynigiodd hyn hefyd fel rhan o'r gwelliant.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant.

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

**PENDERFYNWYD**
**i) Mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod fel yr hyn a fabwysiadwyd hefyd ar gyfer 2012/13 -**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Cymunedau | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 5 | 3 | 1 | |
| Archwilio | 9 | 4 | 4 | 1 | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 4 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 3 | | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | 1 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y seddau | 76 | 37 | 29 | 8 | 4 | 154 |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pensiynau** | **3** | **2** | **1** | | **1** |
| **CYSAG** | **3** | **2** | **2** | | |
| **Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol** | **6** | **2** | **2** | **1** | |
| **Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig** | **4** | **2** | **1** | | |
| **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** | **4 (3 sedd ac un eilydd)** | **2** | **1** | **1** | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **96** | **47** | **36** | **10** | **5** | **194** |

**ii) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**
**iii) Mabwysiadu dyraniad cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn unol â dyraniad 2012/13 fel a ganlyn -**
**Pwyllgor Craffu Corfforaethol – Llais Gwynedd**
**Pwyllgor Craffu Cymunedau – Annibynnol**
**Pwyllgor Craffu Gwasanaethau – Plaid Cymru**

**12. CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Adroddwyd bod angen ethol Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2013/14.

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Lesley Day yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2013/14.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.30p.m.

______________________
**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Gorffennaf 2013

| | |
|---|---|
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng Peredur Jenkins** |
| **Pwnc:** | **Sicrhau gwasanaethau cynaliadwy mewn cyfnod anodd** |
| **Swyddog cyswllt:** | **Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf, ac yn wyneb y newidiadau sylfaenol yma, y dylid ail ymweld â'r Cynllun Asedau i weld a oes cyfleoedd yn y fan honno i leihau galwadau ariannol ar y Cyngor ac ein bod hefyd yn ail ymweld â'r Cynllun Strategol ei hun er mwyn adnabod pa gynlluniau sydd yn hollol angenrheidiol eu cyflawni a pha rai y gellir eu hail ystyried.

---

**Barn yr aelod lleol**
Ddim yn fater lleol

---

**Cyflwyniad**

1. Ym mis Chwefror fe luniodd y Cyngor ei strategaeth ariannol am y pedair blynedd i ddod.

2. Byrdwn y strategaeth honno oedd bod y darlun ariannol ar gyfer y sector gyhoeddus am fod yn un heriol gyda grant llywodraeth leol yn gostwng yn 2015/16 a 2016/17 fyddai'n golygu ein bod angen cynllunio ar gyfer arbedion o £25m dros y cyfnod 2013/14 - 2016/17.

3. Gyda'r cyd-destun yma yn gefndir, er gwaethaf y tafluniadau tywyll, 'roedd y Cyngor yn benderfynol o sicrhau ein bod yn parhau i sicrhau'r canlyniadau priodol ar gyfer bobl Gwynedd ac ym mis Mai fe gymeradwyodd y Cyngor Gynllun Strategol oedd yn rhoi cig ar esgyrn y weledigaeth sydd gennym o gefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd.

4. Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o flaenoriaethau er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno.

5. Erbyn hyn 'rydym wedi gweld newid sylweddol yn yr hinsawdd ariannol ac mae angen i'r cabinet fod yn ymwybodol o'r newidiadau yma gan ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd i ddygymod a'r sefyllfa.

**Newidiadau diweddar**

6. Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r Canghellor wedi cyhoeddi ei adolygiad gwariant ac yn sgil hyn mae Gweinidogion o fewn Llywodraeth Cymru hefyd wedi awgrymu newid cyfeiriad wrth ystyried blaenoriaethau gwariant o fewn Llywodraeth Cymru.

7. Yr hyn a ddaeth yn amlwg yn y gyllideb a gyhoeddwyd gan y Canghellor ym mis Ebrill oedd nad yw'r economi yn tyfu fel y rhagwelwyd ganddynt ac o'r herwydd byddai'n rhaid parhau gyda thoriadau am gyfnod hirach na fu disgwyl a bydd y toriadau hynny hefyd yn ddyfnach.

8. Mae'r adolygiad gwariant diweddar wedi rhoddi manylion i ni o beth fydd cyfran Cymru o'r arbedion hynny ar gyfer 2014/15 a 2015/16.

9. Ar ben hyn, mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes Llywodraeth Cymru wedi nodi y dylai llywodraeth leol gynllunio ar sail "gostyngiadau cyllidol fel y bu i awdurdodau Lloegr dderbyn" am y cyfnod i ddod.

10. O gymryd hyn ar ei ystyr llythrennol byddai'n golygu gostyngiad grant o tua 4% y flwyddyn ar gyfartaledd sydd lawer is na'r hyn yr ydym wedi bod yn cynllunio ar ei gyfer.


11. Ni wyddom pam fod angen gostyngiadau o'r maint yma yn 2014/15 na 2015/16 gan nad yw'r setliad y mae'r Llywodraeth am dderbyn gan Lywodraeth San Steffan yn awgrymu fod angen gostyngiadau o'r fath ond yn amlwg, os ydynt yn dymuno rhoi elfen o warchodaeth i wasanaethau iechyd dyweder, yna bydd yn rhaid i wasanaethau fel llywodraeth leol dderbyn llai.

12. Ni fyddwn yn gwybod union oblygiadau hyn oll hyd nes y byddwn yn derbyn setliad llywodraeth leol ym mis Tachwedd eleni, ond gellir bod yn eithaf cadarn fod y sefyllfa am fod yn waeth na'r hyn y bu i ni gynllunio ar ei gyfer.

13. Nodaf ar y dudalen nesaf graff sy'n nodi beth fyddai maint yr arbedion y gallasem fod eu hangen ar sail –

    a) ein strategaeth bresennol;
    b) sefyllfa lle byddai Llywodraeth Cymru yn gwarchod iechyd drwy roddi cynnydd yn cyfateb i chwyddiant iddynt; a
    c) sefyllfa lle byddem yn derbyn gostyngiadau sy'n cyfateb i'r cyfartaledd hanesyddol a welwyd yn Lloegr.

**Tafluniadau o lefelau arbedion posibl ar gyfer Cyngor Gwynedd 2013/14-2016/17**



14. Ar ei waethaf, erbyn diwedd 2016/17 mae'r graff uchod yn awgrymu y gallasem fod angen tynnu rhwng £34m a £43m o'r gyllideb dros y cyfnod.

15. Rhaid bod yn fyw i'r ffaith hefyd nad yw'r tafluniad yma yn cynnwys 2017/18, ond gwyddom eisoes y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth barhau gyda'u rhaglen arbedion ar lefel sy'n debyg i lefel arbedion ar gyfer 16/17.

16. O gofio ein bod yn gwario £165m ar Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Digartrefedd, Budd-daliadau a phraeseptau gyda dim ond £71m ar yr **holl** wasanaethau eraill (sydd hefyd yn cynnwys rhai elfennau statudol) gellir gweld beth fyddai effaith arbedion o'r maint yma ar wasanaethau os nad ydym yn gallu darganfod cyfleoedd i drawsnewid, yn enwedig o fewn Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.

17. Oni bai ein bod yn gwneud hynny byddwn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yn rhaid i ni wynebu toriadau a hynny ar raddfa llawer dyfnach nag yr oeddem yn ei ragweld.

18. Wedi dweud hynny, rhaid bod yn fyw i'r weledigaeth sy'n cael ei gosod allan yn y Cynllun Strategol, a thra bod angen ystyried maint yr uchelgais efallai yng nghyd-destun y darlun newydd yma, mae'r dyhead o fod yn cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd llawn mor berthnasol ag y bu erioed.

19. Rhaid bod yn fyw hefyd i'r sialens fydd yn dod i'n rhan drwy law'r galwadau cynyddol sydd arnom – rhai oherwydd natur demograffi'r sir ac eraill oherwydd disgwyliadau asiantaethau allanol i'r Cyngor. Bydd gallu'r Cyngor i reoli'r galwadau yma yn amrywio ond un peth sy'n sicr fe fydd yna rai lle na fydd modd eu hanwybyddu.

**Sut ydan ni am ddygymod ?**

20. Mae gan y Cyngor gyfundrefnau yn eu lle er mwyn adnabod cyfleoedd ar gyfer darganfod arbedion effeithlonrwydd pellach a rheoli galw ac er bod y targedau y bu i ni osod i ni ein hunain ar gyfer y meysydd yma yn heriol ofnadwy, rhaid gofyn a allwn anelu'n uwch er mwyn lleihau'r ardrawiad y byddai toriadau yn eu cael ar bobl Gwynedd.

21. Bydd yr angen i drawsffurfio gwasanaethau yn chwarae rhan allweddol os ydym am fedru cyflawni'r targedau gwreiddiol heb son am gynyddu uchelgais.

22. Mae yna ddadl hefyd y dylem edrych ar effaith ariannol ein polisïau er mwyn gweld a allwn ostwng rhywfaint pellach ar ein hanghenion gwario presennol.

23. Yn y lle cyntaf byddwn yn awgrymu ein bod yn ail ymweld â'r Cynllun Asedau i weld a oes cyfleoedd yn y fan honno i leihau galwadau gwariant a byddwn hefyd yn argymell ein bod yn ail ymweld â'r Cynllun Strategol ei hun er mwyn adnabod y cynlluniau hynny sydd yn hollol angenrheidiol eu cyflawni er mwyn gwireddu'r weledigaeth a pha rai y gellir eu hystyried eto.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

24. Mae gan Gyngor Gwynedd hanes o fod yn cynllunio ymlaen llaw er mwyn dygymod gyda'r cyfyngiadau ariannol y bu'n eu hwynebu yn y gorffennol.

25. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed yn y gorffennol gan ein bod wedi medru cymryd amser i ddod at gasgliadau rhesymegol a chynhwysol gan osgoi gorfod gweithredu'n fyrbwyll.

26. Drwy barhau i wneud hynny, gallwn geisio sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer bobl Gwynedd, er gwaethaf sialensau'r hinsawdd ariannol bresennol.

27. Fel rhan o'r cynllunio yma rhaid ystyried pob dim sy'n creu baich ariannol arnom gan gynnwys effaith ariannol ein polisiau presennol.

**Camau nesaf ac amserlen**

28. Os bydd y Cabinet yn cytuno i'r argymhelliad, dylid hefyd rhagrybuddio'r Cyngor o'r newid yn yr hinsawdd ariannol ac am yr angen i ail ymweld â'r cynlluniau a nodir uchod (gan mai Cynlluniau'r Cyngor ydynt) a dylid gwneud hynny yn ei gyfarfod ym mis Medi.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'n hysbys eisoes bod y Cyngor hwn wedi bod yn wynebu her ariannol sylweddol ers 2006/07. Fodd bynnag, fel mae'r adroddiad yn dangos bydd yr her honno yn dwysau yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Bellach, mae'r byd wedi newid go iawn ac mae hynny'n galw am ail-aesiad go iawn o ymrwymiadau y mae'r Cyngor wedi ei wneud a hefyd o ran y pwysau a fydd yn codi o doriadau sydd bellach yn annorfod. Rwy'n cefnogi'r argymhellion

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Fel dywedai rhan 12 o'r adroddiad, bydd ffigyrau'r setliad ddim yn hysbys cyn Hydref ond disgwylir i'r sefyllfa fod dipyn gwaeth na'r ffigyrau mynegol blaenorol, ac yn ystod y ddeufis diwethaf derbyniwyd sawl datganiad cryf gan y Gweinidog dros Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru, fel bod rhaid i awdurdodau lleol "*ymgysylltu ar unwaith i gynllunio'n ariannol a chynllunio gwasanaethau yn bendant a radical er mwyn adlinio gwasanaethau cyhoeddus yn gyflym i'r lefel is o adnoddau fydd ar gael*" yn 2014/15 a thu hwnt, tra'n "*fwy hir-dymor, bydd raid i'r lefelau sylweddol is o adnoddau yrru newidiadau trawsffurfio dwys.*" Yn sgil y rhybuddion, rwyf wedi trafod ymateb posibl y Cyngor gyda'r Cyfarwyddwr a'r Aelodau Cabinet perthnasol ac rwy'n cytuno byddai'n ddarbodus i'r Cyngor baratoi yn ystwyth ac ail ymweld â'r Cynllun Asedau a'r Cynllun Strategol.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 19, Medi, 2013 |
| Pwnc | Ymateb i Ymgynghoriad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| Pwrpas yr Adroddiad | Cyflwyno'r ymateb i sylw'r Cyngor am drafodaeth |
| Awdur | Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor. |

1. Yn gynharach eleni cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ei fod yn sefydlu Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhoddwyd briff i'r Comisiwn i edrych yn ofalus, yn onest ac yn wrthrychol ar y modd y mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu yng Nghymru, a sut y gellir gwella ar hyn. Maent yn edrych yn arbennig ar drefniadau llywodraethu y gwasanaethau cyhoeddus, h.y. sut y cant eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad, a sut y gellir eu darparu yn y modd mwyaf effeithiol i'r cyhoedd.

2. Gosodwyd amserlen dyn i'r Comisiwn, gan ofyn iddo adrodd yn ôl erbyn diwedd Rhagfyr eleni.

3. Fel rhan o'i waith mae'r Comisiwn wedi galw am dystiolaeth gan y rhai sydd yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Gofynnodd i sefydliadau ymateb i'r alwad am dystiolaeth erbyn 31, Awst er mwyn i'r Comisiwn gael cyfle i archwilio'r dystiolaeth a chanolbwyntio ar y prif themâu. Fodd bynnag, dywedodd hefyd os nad oedd yn bosibl ateb erbyn 31, Awst y byddai yn fodlon derbyn tystiolaeth hyd at ddiwedd mis Medi, ond gan nodi y byddai unrhyw ymateb sy'n cyrraedd ar ôl diwedd Awst o bosib yn cael llai o ddylanwad ar waith y Comisiwn.

4. Oherwydd yr amserlen dyn hon, ac er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cael y dylanwad mwyaf ar waith y Comisiwn, deuthum i'r casgliad mai'r peth gorau i wneud oedd llunio ymateb cryno yn seiliedig ar yr egwyddorion y dylai'r Comisiwn eu hystyried wrth ddod i benderfyniad a chyhoeddi yr ymateb hwn ar ffurf Taflen Benderfyniad gan ei gylchredeg i holl aelodau'r Cyngor.

5. Serch hynny, mae dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yng Ngwynedd yn arbennig, yn fater o bwys mawr i bobl Gwynedd, a chredaf ei fod yn fater sydd yn haeddu sylw gan yr holl aelodau mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn. 'Rwyf felly yn cyflwyno yr ymateb a anfonais i'r Comisiwn i sylw'r Cyngor am drafodaeth (Atodiad 1). Gan fod y Comisiwn wedi nodi y byddent yn fodlon derbyn tystiolaeth hyd at ddiwedd Medi, byddaf mewn sefyllfa i anfon unrhyw sylwadau ychwanegol atynt yn dilyn y drafodaeth yn y Cyngor.

6. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi holiadur y gellir ei ddefnyddio wrth ymateb i'w galwad am dystiolaeth. Mae hwnnw yn holiadur manwl iawn yn cynnwys nifer o wahanol themâu. Rhag cymylu'r negeseuon, ac wedi trafod gydag aelodau eraill y Cabinet, deuthum i'r farn y byddai'n well cyflwyno tystiolaeth ar sail yr egwyddorion yr wyf yn ei gredu ddylai lywio gwaith y Comisiwn yn hytrach na manylder y ddarpariaeth ar hyn o bryd. Dyna pam mae'r ymateb atodol yn edrych ar y sail dystiolaethol o’r hyn sydd wedi newid ers sefydlu'r trefniadau llywodraethu presennol, yr hyn sydd yn debyg o newid yn y dyfodol, ac yn sgil hynny, beth erbyn heddiw ydi’r nodweddion allweddol fyddai'n caniatáu trefniadau llywodraethu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus fyddai yn arwain at y canlyniad gorau i bobl leol. Yn olaf, mae sylwadau ar y model llywodraethu fyddai'n addas ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus i'r dyfodol.

7. Ddiwedd Awst fe wnaeth y Comisiwn ryddhau adroddiad cynnydd yn egluro beth yw'r prif bwyntiau sydd wedi eu cyflwyno iddo fel tystiolaeth hyd yma. Atodaf yr adroddiad cynnydd fel cyd-destun ar gyfer y drafodaeth yn y Cyngor (Atodiad 2).

8. 'Rwy’n cyflwyno yr ymateb i sylw'r Cyngor llawn er mwyn cael trafodaeth ehangach ar ei gynnwys ac i ganiatáu i mi ddod i gasgliad a oes angen anfon unrhyw dystiolaeth ychwanegol i'r Comisiwn ar ran y Cyngor.

# YMATEB CYNGOR GWYNEDD I YMGYNGHORIAD Y COMISIWN AR LYWODRAETHU A DARPARU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## *Rhagair*

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn i'w gynorthwyo gyda'i waith o edrych ar y modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu llywodraethu. 'Rydym yn cydnabod fod y maes yn un eang a'r amserlen yn dynn. 'Rydym felly am ganolbwyntio ein tystiolaeth ar olrhain yr hyn sydd wedi newid ers sefydlu'r trefniadau presennol, a'r newidiadau pellach sydd ar y gorwel, ac yn seiliedig ar hynny edrych ar yr hyn sydd, yn ein tyb ni, yn nodweddion hanfodol ar gyfer trefniadau llywodraethu cynaliadwy i wasanaethau cyhoeddus fyddai'n rhoi'r canlyniad gorau i bobl leol. Yn olaf, o gymryd y nodweddion hanfodol, rydym yn cynnig rhai egwyddorion y credwn ddylai fod yn sail i unrhyw fodelau llywodraethu newydd.

Gobeithiwn y bydd y sylwadau hyn, ac yn arbennig yr egwyddorion a gynigir, o gymorth i'r Comisiwn wrth lunio'i adroddiad a gofynnwn iddo roi sylw teilwng iddynt.

## 1. *Beth sydd wedi newid ers 1996?*

1.1 Sefydlwyd y drefn bresennol o lywodraeth leol yng Nghymru yn Ebrill 1996. Ers hynny bu sawl newid o bwys sy'n effeithio ar addasrwydd y trefniadau i'r dyfodol.

1.2 Yn 1999 sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a datganolwyd grym iddo o San Steffan gan greu haen ychwanegol o lywodraeth hefo atebolrwydd democrataidd. Ers hynny mae rhagor o bwerau wedi eu datganoli i'r Cynulliad ac mae Llywodraeth Cymru bellach yn penderfynu ar faterion gweithredol lefel uchel ac yn datblygu polisi yn y meysydd datganoledig. Rhydd hyn gyfle i rai swyddogaethau gael eu llywodraethu a/neu eu darparu ar lefel genedlaethol.

1.3 Ad-drefnwyd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn 2009 a sefydlwyd un Bwrdd Iechyd Lleol i ogledd Cymru, i ddisodli'r 6 bwrdd iechyd blaenorol oedd yn cyd-fynd â ffiniau'r siroedd. Felly mae'r gwasanaeth iechyd (fel yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub) ar sail ranbarthol. Mae rhyngweithio agos rhwng y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol wrth ddarparu gofal.

1.4 Gwelwyd newidiadau demograffeg yn ystod y cyfnod. Mae poblogaeth Gwynedd yn tyfu ac yn heneiddio a graddfa twf y boblogaeth 65 oed a hyn ar gynnydd. Gwelwyd mewnfudo i Wynedd gan bobl 50 oed a drosodd sy'n cyfrannu at roi poblogaeth gymharol hŷn yn y sir hon. Mae'r boblogaeth erbyn hyn yn fwy symudol nag oedd 20 mlynedd yn ôl.

1.5 Dros y blynyddoedd diwethaf cafwyd nifer o adroddiadau gan archwilwyr (Estyn, CSSIW, SAC) sy'n tystiolaethu nad yw darpariaeth gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau disgwyliedig yn gyson. O ganlyniad cafwyd ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru yng Nghyngor Sir Ynys Môn ac mewn gwasanaethau penodol mewn nifer o gynghorau eraill. Mae'r un tueddiad i'w weld yn y sector iechyd. Un o'r casgliadau o'r dystiolaeth hon ydi nad yw'r cyfundrefnau presennol yn addas i bwrpas ac nad ydynt felly yn rhoi'r canlyniad gorau i bobl leol.

1.6 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hefyd sefydlwyd nifer o drefniadau cyd-weithio rhwng cynghorau ac asiantaethau eraill e.e. consortiwm cludiant gogledd Cymru (TAITH), trefniant cydweithio gwella ysgolion (Gwe), Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru. Mae rhai o'r rhain yn cael eu llywodraethu gan gyd-bwyllgorau, eraill yn drefniadau mwy llac. Effaith y cyd-weithio yma ydi i wahanu atebolrwydd democrataidd oddi wrth y grym i wneud penderfyniadau. O'r herwydd mae sefydliadau yn araf i symud tuag at drefniadau cydweithio gan nad ydynt yn caniatáu digon o eglurder ynglŷn â rolau, pwerau a chyfrifoldebau.

1.7 Mae'r hinsawdd ariannol wedi newid yn sylweddol a bellach mae disgwyl i wasanaethau cyhoeddus gael eu darparu ar lai o adnoddau. Yn achos Cyngor Gwynedd amcangyfrifir y bu raid darganfod arbedion gwerth dros £30 miliwn ers 2007/8 i gwrdd a'r diffyg rhwng yr arian a geir gan Lywodraeth Cymru a'r galw cynyddol ar wasanaethau. Mae hyn gyfystyr â 15% o gyllideb 2007/8.

## 2. *Pa newidiadau pellach sydd ar y gorwel?*

2.1 Rhagwelir mwy o gyni ariannol dros y blynyddoedd nesaf. Rydym eisoes wedi derbyn negeseuon clir oddi wrth y Gweinidog Llywodraeth Leol dylid paratoi ar gyfer toriadau grant "ar lefel yr hyn a welwyd yn Lloegr". O gymryd hyn ar ei ystyr llythrennol fe fyddai hyn yn golygu gostyngiad o 4% y flwyddyn yn yr arian y byddai'r Cyngor yn ei dderbyn tra bod chwyddiant a galw am wasanaethau yn parhau i gynyddu.

2.2 Daeth dulliau cyfathrebu newydd – trwy gyfryngau cymdeithasol, gwefannau ayb – yn fwy poblogaidd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf a disgwylir i hynny barhau – yn enwedig ymysg y boblogaeth iau. Un o sgil effeithiau hyn ydi llai o bwyslais ar gymdeithas ddaearyddol a mwy o bwyslais ar gymdeithas wedi ei seilio ar fuddiannau cyffredin. Caiff hyn ei gyplysu hefo mwy o barodrwydd i deithio ymhellach ac i gael mynediad at wasanaethau yn electroneg yn hytrach na ffisegol.

2.3 Oherwydd y chwyldro mewn technoleg mae’r newid yn cyflymu. Fe all hynny arwain at ansefydlogrwydd oni bai bod y trefniadau newydd yn cael eu cynllunio i fod yn hyblyg ac i allu ymateb yn gyflym i newidiadau.

**3. *Beth yw nodweddion allweddol trefniadau cynaliadwy sy'n rhoi'r canlyniad gorau i bobl leol?***

3.1 **Dylai’r trefniadau fod yn ddigon hyblyg i wrthsefyll newid**. Gyda chyflymder newidiadau yn y byd cyhoeddus bydd gofyn dylunio trefniadau newydd fel eu bod yn hyfyw am gyfnod ystyrlon. Mae hyn yn galw am symleiddio’r trefniadau presennol ac integreiddio meysydd gwasanaeth sy’n gyffredin. Byddai’n golygu llai o sefydliadau (gan fod ffiniau sefydliadol yn arwain at greu rhwystrau) a mwy o drefnu o gwmpas buddiannau cyffredin.

3.2 **Dylai’r trefniadau adlewyrchu tueddiadau’r cymunedau iau.** Os yw’r trefniadau am fod yn hyfyw i’r dyfodol bydd angen iddynt gyfarch y ffordd mae’r genhedlaeth ifanc yn byw, gweithio a chymdeithasu. Gallai hynny olygu llai o ganolbwyntio ar ffiniau daearyddol traddodiadol cymunedau a mwy o ganolbwyntio ar ddod â diddordebau cyffredin at ei gilydd gyda mynediad trwy dechnoleg.

3.3 **Dylai’r trefniadau adlewyrchu hunaniaeth y boblogaeth.** Mae hunaniaeth yn cwmpasu’r elfennau sy’n caniatáu adnabod carfannau penodol ymysg y boblogaeth. Mae’n cynnwys diwylliant, iaith, cefndir, amgylchedd (cymeriad gwledig/trefol), a diddordebau. Dylid hefyd roi sylw i faterion economaidd o ran lleoliad a mynediad i waith a diwydiant. Bydd modd adnabod hunaniaeth i grwpiau o gymunedau yn ogystal ag i ardaloedd ehangach.

3.4 **Dylai’r trefniadau fod yn eglur am atebolrwydd democrataidd lleol.** Hyn rydd sicrwydd i’r dinesydd pwy i’w ddal i gyfrif am bob agwedd o wasanaethau cyhoeddus. Mae llawer o’r cynlluniau cydweithio presennol yn gadael yr atebolrwydd statudol gydag un corff (yr awdurdod lleol) tra’n rhoi’r hawliau gweithredol i gorff arall (y bwrdd cydweithio). Effaith y gwahanu yma ydi glastwreiddio’r drefn ddemocrataidd a’r atebolrwydd lleol. Mae hefyd yn pellhau’r dinesydd oddi wrth y trefniadau trwy wanhau ei ddylanwad arnynt.

3.5 **Dylai’r trefniadau fod yn addas i’r pwrpas, heb ragfarn o baid ffurf.** Dylid rhoi sylw yn gyntaf i’r swyddogaethau a diben y trefniadau a llunio’r ffurf i gyfarch hynny. Un agwedd ar gael trefniadau addas ydi sicrhau mas critigol ar gyfer darparu gwasanaethau a sicrhau hyfywdra economaidd y corff. Agwedd arall ydi sicrhau’r atebolrwydd a dealltwriaeth leol. Bydd trefniadau addas yn cydbwyso’r gwanhaol agweddau.

3.6 **Dylai'r trefniadau ganolbwyntio ar anghenion y cwsmer.** Y nod bob amser yw cyflawni'r gorau i'r dinesydd. Os felly, dylai'r trefniadau fod nid yn unig yn addas o safbwynt llywodraethu ond hefyd yn cynnig gwasanaethau hygyrch (boed yn ddaearyddol neu'n electroneg), yn wasanaethau hawdd i'w deall ac heb haenau o fiwrocratiaeth yn perthyn iddynt. Dylid eu dylunio hefo gofynion y cwsmer yn flaenllaw, nid gofynion y sefydliad.

3.7 **Dylai'r trefniadau roi lle dyledus i'r trydydd sector.** Dylid cydnabod pwysigrwydd y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau i'r cwsmer. Gellid symleiddio'r berthynas rhwng gwasanaethau cyhoeddus a darpariaeth y trydydd sector a chymryd y cyfle i ddarparu arweiniad clir i'r trydydd sector ynglŷn â gofynion yr ardal.

## 4 *Pa fodel llywodraethu fyddai'n addas ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus?*

4.1 **Sail y trefniadau fydd cydnabod bod gwahanol haenau o gyrff llywodraethu.** Yn benodol rhagwelwn bod rôl benodol ond gwahanol, i gyrff cenedlaethol, rhanbarthol, isranbarthol a lleol. Mae corff cenedlaethol yn diffinio'i hun fel corff sy'n gwasanaethu Cymru gyfan. Nid oes diffiniadau mor eglur i'r dair haen arall. Mae lle felly i'w diffinio trwy roi sylw i'r nodweddion allweddol a grybwyllir yn rhan 3 uchod. Yr hyn sy'n bwysig ydi fod y cyrff ar y gwahanol haenau yn addas i bwrpas ac yn canolbwyntio ar eu rôl. Trwy ddefnyddio'r nodweddion allweddol gellid ystyried y byddai corff lleol, er enghraifft, angen bod ar sail fwy na'r cynghorau cymuned presennol ond efallai'n llai na'r cynghorau sir (e.e. trefniant sy'n cynnwys grwpiau o'r cynghorau cymuned presennol.) Gellid defnyddio'r un rhesymeg ar gyfer yr haenau eraill.

4.2 **Gosodir strategaethau lefel uchel a throsolwg ar yr haenau uchaf sy'n sicrhau atebolrwydd.** Golyga hyn y pellaf yn byd ydi'r corff oddi wrth y dinesydd yn nhermau atebolrwydd democrataidd y lleiaf o ymwneud uniongyrchol fydd ganddo hefo'r dinesydd. Ar y sail yma byddai angen newid pwyslais Llywodraeth Cymru (corff ar haen genedlaethol) i ganolbwyntio ar osod cyfeiriad strategol yn unig. Mae rhai strategaethau lle mae'n fwy addas i'w gosod ar lefel is er mwyn sicrhau'r atebolrwydd democrataidd lleol. Rhag dyblygu trefniadau llywodraethu y tebygrwydd ydi na fyddai'n briodol datganoli cyfeiriad strategol i'r haenau isaf.

4.3 **Gosodir darpariaeth gwasanaeth ar y lefel isaf sy'n caniatáu cynaladwyedd.** Y ddarpariaeth ydi'r pwynt cyswllt uniongyrchol hefo'r cwsmer a byddai ei gosod ar yr haenau isaf yn ymateb i'r angen i'r trefniadau fod yn ateb gofynion y cwsmer a chaniatáu iddynt ddylanwadu arnynt. Byddai hynny hefyd yn caniatáu i wasanaethau sydd â natur leol iddynt gael eu darparu ar lefel mwy

lleol. Serch hynny mae angen i’r trefniadau gwrdd â’r nodwedd o sicrhau mas critigol. Gallai model o’r math hwn olygu mewn rhai meysydd bod comisiynu a darparu gwasanaethau yn cael eu gwahanu.

4.4 **Bydd gwasanaethau cyhoeddus wedi eu hintegreiddio.** Rhagwelir trefniadau sydd yn anelu i symleiddio’r toreth o wahanol gyrff ac asiantaethau sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd. Yn hytrach na llunio trefniadau o gwmpas y math o gorff neu sefydliad sy’n bodoli a phwerau a hawliau’r cyrff rheini, mae cyfle i lunio trefniadau o safbwynt yn effaith ar y dinesydd. Gallai hyn olygu integreiddio gwasanaethau tebyg i’w gilydd (e.e. gofal) er mwyn lleihau dryswch a chreu eglurder yn y man cyflawni.

4.5 **Ceir cyfle i ymestyn mewnbwn democrataidd i ragor o wasanaethau cyhoeddus.** Wrth ddatblygu model o wasanaethau cyhoeddus sy’n seiliedig ar gyrff ar wahanol haenau yn cymryd y cyfrifoldeb am roi cyfeiriad strategol, comisiynu a darparu gwasanaeth, mae modd uchafu’r atebolrwydd democrataidd. Gallai model o’r math gyfarch anghenion llywodraethu a darparu rhai gwasanaethau sy’n draddodiadol wedi bod oddi allan i drefniadau democrataidd llywodraeth leol neu ganolog.

4.6 **Bydd y model llywodraethu yn atebol, yn ddealladwy ac yn gorff cydnabyddedig.** Er mwyn cwrdd â'r nodwedd allweddol o gael eglurder am yr atebolrwydd democrataidd lleol mae angen i'r model fod ar sail cyrff sy'n gydnabyddedig yn gyfreithiol, hefo aelodaeth etholedig, ac hefo grym i weithredu. Byddant yn gyrff y gellir eu dal yn atebol – yn gyfreithiol ac yn ddemocrataidd. Byddant yn gyrff gyda chyfrifoldebau, dyletswyddau, hawliau a phwerau clir. Ni fyddai unrhyw fodel nad yw'n cyfarch y gofynion sylfaenol hyn yn debyg o fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Dyfed Edwards
Arweinydd y Cyngor
Awst 2013

**ATODIAD 2.**

# Cyfarfod 4, 5 a chynnydd adroddiad

### Dros y tair wythnos ddiwethaf mae'r Comisiwn wedi cynnal nifer o gyfarfodydd i glywed tystiolaeth lafar gan sefydliadau ac unigolion.

Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol o'r Comisiwn yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus, yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru ac yn Wrecsam, Caerdydd, Cyffordd Llandudno a'r Drenewydd.

Yn ystod y cyfnod hwn mae'r Comisiwn wedi clywed tystiolaeth gan: Comisiynydd Plant Cymru; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Comisiynydd y Gymraeg; sawl prif weithredwr awdurdod lleol; cadeiryddion a phrif weithredwyr y Gwasanaeth Iechyd; Comisiwn Bevan; y Gwasanaeth Ambiwlans; yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus; Academi Cymru; prif gwnstabliaid yr Heddlu; Gofal Canser Macmillan; Hafal; Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; y Ffederasiwn Busnesau Bach; Anheddau Cyf; Youth Cymru; Sefydliad y Merched; sawl cynghorydd tref, cymuned a sir o bob rhan o Gymru; cynrychiolwyr y trydydd sector; ac aelodau o'r cyhoedd.

Bu'r sesiynau hyn i gyd yn fuddiol iawn. Mae'r Comisiwn wedi cymryd tystiolaeth a chasglu gwybodaeth o dan bob un o'i chwe thema (sef perfformiad; graddfa a gallu; cymhlethdod; diwylliant ac arweiniad; llywodraethu, darparu a chraffu; a swyddogaeth Llywodraeth Cymru). Bydd y Comisiwn yn derbyn tystiolaeth tan ganol mis Medi a a byddai'n gwerthfawrogi cael barn cymaint o bobl â phosibl.

Isod ceir crynodeb o rai o'r materion allweddol sy'n dod i'r amlwg drwy'r dystiolaeth a glywodd y Comisiwn. Dylid nodi'r canlynol:

- dim ond y pwyntiau a wneir yn aml yw'r rhain, nid yr holl bwyntiau a godwyd
- nid yw'r Comisiwn eto wedi dod i unrhyw gasgliadau ynghylch y materion hyn
- nid yw'r pwyntiau o anghenraid wedi eu hysgrifennu o safbwynt cytbwys
- mae'r Comisiwn yn dal i wrando ar dystiolaeth ac felly bydd rhagor o bwyntiau'n cael eu codi

## Perfformiad

- Er bod barn y cyhoedd am wasanaethau yng Nghymru yn weddol gadarnhaol, ac er gwaethaf ymdrechion gweithlu ymroddedig y sector cyhoeddus, mae mesurau perfformiad a chymariaethau rhyngwladol yn dangos bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn aml yn methu â darparu gwasanaeth effeithiol i ddefnyddwyr.

- Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth wedi tynnu sylw at y perfformiad anghyson, a gwael yn aml, ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae tueddiadau demograffig a mesurau darbodaeth yn debygol o gynyddu'r pwysau ar wasanaethau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.
- Mae'r ffordd y cyflwynir data perfformiad yn ei gwneud yn anodd i'r cyhoedd ddeall perfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Mae data'n aml yn dechnegol ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith gymhleth, mae tomen o ddangosyddion sy'n arwain at ddryswch, ac effeithir ar gymariaethau ystyrlon â'r Deyrnas Unedig a gwledydd eraill gan ansawdd y data a gesglir.
- Mae pwyslais ar dargedau, sy'n gallu bod yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau. Mae awydd cyffredinol i symud at ddull seiliedig ar ‘ganlyniadau’.
- Mae Rheoli Perfformiad yn anghyson, a dylai fod yn fwy tryloyw, trefnus a chyson.

# Graddfa a Gallu

- Er bod rhai sefydliadau bychain yn gwneud yn dda, a rhai sefydliadau mawr yn gwneud yn wael, mae llawer o bobl wedi nodi cysylltiadau rhwng maint sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a'u gallu i ddarparu gwasanaethau sy'n gyson o ansawdd rhagorol – yn arbennig yn ystod adegau o newid. Gall hyn fod oherwydd diffyg dyfnder a lled gallu mewn sefydliadau bychain ac felly pa mor gydnerth ydynt (er enghraifft, gorddibyniaeth ar un neu ddau o unigolion allweddol).
- Mae gan Gymru nifer fawr o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus a gall hynny arwain at ddryswch ac anghysonder wrth ddarparu gwasanaethau.
- Nid pawb sy’n cytuno mai newid strwythurol yw'r ateb.
- Mae sefydliadau mwy yn elwa ar ddarbodion maint ond gallant ddioddef o ddiffyg cysylltiad â phobl leol; mae'n rhaid ystyried y cydbwysedd hwnnw.
- Cydnabyddir yn aml fod arweiniad, diwylliant a gwerthoedd yn ffactorau pwysicach na maint sefydliad (gweler arweiniad a diwylliant) ond mae cysylltiadau rhwng y ddeubeth, er enghraifft gall sefydliadau llai ei chael yn anodd denu a chadw arweinwyr o'r radd flaenaf.

# Cymhlethdod

- Oherwydd bod y maes darparu gwasanaethau cyhoeddus dan ei sang, gall hyn beri dyblygu a chymhlethdod.
- Ychydig o effaith a gafodd cydweithredu gwirfoddol rhwng sefydliadau; yn wir mewn rhai achosion mae wedi creu trafferthion ychwanegol fel glastwreiddio atebolrwydd a dyblygu gweithgareddau. Ymddengys fod cefnogaeth i ddull mwy argymhellol o bennu trefniadau cydweithredol a phartneriaethau.

- Mae rhai uwch-arweinwyr wedi nodi er bod gweithio mewn partneriaeth yn bwysig, y gall dynnu sylw sefydliadau oddi wrth gyflawni eu priod gyfrifoldeb, sef bod mor effeithlon ac effeithiol wrth weithredu ag y bo modd.
- Ystyrir bod cyffinioldeb yn bwysig a hynny o ran darparu gwasanaethau yn ogystal â rheoli perthynas.
- Mae gweithio ‘mewn blychau’ ar draws pob sector yn rhwystr parhaus. Dylai fod pwyslais ar gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.
- Bu darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn un enghraifft gyffredin o ddarparu gwasanaethau cymhleth. Mae peth tystiolaeth wedi ffafrio integreiddio pellach rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn gwella gwasanaethau i'r defnyddiwr.

# Llywodraethu, Darparu a Chraffu

- Mae fframweithiau atebolrwydd a llywodraethu yn gymhleth ac anghyson ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae angen dileu’r amwysedd o ran atebolrwydd.
- Cydnabuwyd bod ansawdd craffu yn gwahaniaethu a bod modelau craffu'n amrywio ar draws sefydliadau. Mewn rhai achosion mae craffu trawsbynciol wedi helpu i oresgyn gweithio mewn blychau ac wedi arwain at welliannau. Nid oes darlun clir ychwaith o'r arweiniad sydd ar gael ynglŷn â chraffu.
- Mae peth tystiolaeth wedi tynnu sylw at yr angen am fwy o gyfraniad gan ddefnyddwyr gwasanaethau/dinasyddion at y gwaith o graffu, er y cydnabyddir bod heriau ynghlwm ag annog y cyfrannu hwn.
- Dylid ystyried modelau darparu eraill, ac awgrymwyd cyd-gynhyrchu, mentrau cydweithredol a chwmnïau cydfuddiannol fel dewisiadau posibl ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Nid yw'r arferion gorau'n cael eu cymhwyso, eu rhannu, eu dynodi na'u cloriannu'n gyson.

# Diwylliant ac Arweiniad

- Ystyrir mai arweiniad, sef arweiniad strategol a gweithredol ar bob lefel o'r sefydliad, yw'r allwedd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn llwyddiannus.
- Cydnabuwyd yn gyffredinol y gellid gwella'r arweiniad yng Nghymru.
- Bychan yw'r gronfa o arweinwyr o safon dda yng Nghymru ac nid yw'n cyfateb i'r nifer o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Mae angen canolbwyntio ar adnabod a datblygu arweinwyr a rheolwyr y dyfodol ar bob lefel.

- Mae angen bod â llwybr gyrfa cydnabyddedig yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dylai staff allu symud o un rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus i ran arall er mwyn gwella sgiliau arwain a chwalu gweithio mewn blychau.
- Yn ddiwylliannol, bu peth tystiolaeth fod sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn brin o uchelgais a gweledigaeth; maent yn bodloni ar berfformiad sy'n ddigonol o gymharu â sefydliadau cyfatebol, yn hytrach nag ymdrechu i ragori yn erbyn meincnodau rhyngwladol.
- Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn amharod i fod yn arloesol, a lle bo arloesi'n bodoli, dim ond mewn cilfachau bychain y'i gwelir. Mae angen gweledigaeth glir ar sefydliadau, gydag amcanion cysylltiedig ac unigolion sydd â'r gallu i ddarparu gwasanaethau'n lleol yn y ffordd orau i ddiwallu anghenion.
- Byddai croeso i gyfres o werthoedd sector cyhoeddus cyson ar draws pob sector.

# Swyddogaeth Llywodraeth Cymru

- Mae swyddogaeth Llywodraeth Cymru wedi aeddfedu ers datganoli ac mae angen ei hystyried yng nghyd-destun llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru gyfan.
- Roedd yn amlwg iawn bod rhanddeiliaid yn teimlo bod gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth hanfodol a chanolog o ran rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r sector cyfan. Yn eu hymatebion hyd yma, mae rhanddeiliaid wedi nodi bod mwy i'w wneud yn y maes hwn yn y dyfodol ac y byddent yn croesawu hynny. Mae yna heriau o ran sicrhau bod blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru yn gwbl amlwg drwy'r gadwyn gyfan o ddarparwyr, a hefyd o ran sicrhau bod amcanion neu ganlyniadau mesuradwy yn cael eu defnyddio mewn modd cyson.
- Mae rhanddeiliaid wedi nodi bod angen i Lywodraeth Cymru bennu'r agenda strategol, gan roi rhyddid i'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau fwrw ymlaen â'r darparu. Maent hefyd wedi nodi'r  angen i bennu canlyniadau a sefydlu arferion da.
- Mewn gwlad fechan a chlos fel Cymru, roeddent yn teimlo hefyd y byddai'n fuddiol cael mwy o gysylltiad ag eraill wrth ddatblygu polisïau a meddwl yn gydgysylltiedig. Byddent yn croesawu hynny, a theimlent y byddai'n bosibl ei gyflawni. Mynegwyd y farn nad oedd Llywodraeth Cymru bob amser, efallai, yn defnyddio'r dulliau a'r mecanweithiau mwyaf priodol sydd ar gael iddi. Yn arbennig, gallai fod cyfle i wneud llai o ddefnydd o grantiau fel offeryn polisi, a thrwy hynny ganolbwyntio mwy ar allbwn nag ar fewnbwn.

## CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 19 Medi 2013 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2012/13 |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo’r ddogfen yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2012/13, a’i fabwysiadu. |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu’r adroddiad |

### 1.0 CEFNDIR

1.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano. Rydym wedi cyfarch hyn drwy gyhoeddi Cynllun Strategol y Cyngor 2012/13. Cyflwynir Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2012/13 yma.

1.2 Mae’r broses o fod yn atebol dros berfformiad yn digwydd mewn dau gam:

Cam 1 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella, gan gynnwys cyfres o amcanion gwella (ein Cynllun Strategol).

Cam 2 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi asesiad o berfformiad yng nghyswllt eu cynlluniau a’u hamcanion gwella (Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2012/13).

1.3 Gofynnir i awdurdodau gyhoeddi’r asesiad o’u perfformiad o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ganlynol.

1.4 Yn unol â’r gofynion, mae angen i’r Cyngor sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor.

## 2.0 Y CYNNWYS

Mae'r adroddiad yn darparu manylion am berfformiad y Cyngor yn erbyn yr hyn roedd yn bwriadu ei gyflawni am y flwyddyn, sef yr amcanion gwella. Mae hefyd yn cynnwys manylion ynghylch sut y gwnaeth y Cyngor fesur ei gynnydd yn erbyn yr hyn roedd wedi dweud yr oedd am ei wneud, sef y mesuryddion perfformiad. Mae'r adroddiad yn cwmpasu perfformiad 2012/13.

2.1 Mae'r adroddiad yn dangos fesul maes:

- Pam fod angen gweithredu
- Beth oedd y ffactorau perthnasol
- Sut ydan ni'n cymharu ag eraill
- Beth sydd wedi gweithio
- Pwy oedd ein partneriaid
- Pwy sydd wedi elwa

2.2 Yn ychwanegol, ceir asesiad manwl fesul prosiect o'r hyn sydd wedi ei gyflawni, a pha wahaniaeth rydym wedi'i wneud.

2.3 Mae'r atodiadau yn cynnwys manylion am gynnydd yn erbyn mesuryddion perfformiad allweddol y Cyngor a'r Mesuryddion Strategol Cenedlaethol (NSIs).

2.4 Ystyriwyd yr adroddiad gan y Fforwm Craffu yn ei gyfarfod ar 31 Gorffennaf, a gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2013. Adroddir yn llafar i'r cyfarfod ar unrhyw faterion a fydd yn codi o gyfarfod y Cabinet.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2012/13, a'i fabwysiadu.

# Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd

2012/13

www.gwynedd.gov.uk/perfformiad

## MYNEGAI


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Gwerthoedd y Cygnor | 03 |
| Rhagair Arweinydd y Cyngor | 04 |
| Prif Ddigwyddiadau 2012/13 | 05 |
| Trosolwg Perfformiad | 06 |
| Barn Trigolion Gwynedd | 11 |
| Prosiectau Cynllun Strategol y Cyngor (fesul Maes) | |
| Gofal | 12 |
| Economi | 19 |
| Plant a Phobl Ifanc | 33 |
| Amgylchedd ac Isadeiladedd | 45 |
| Trawsffurfio | 61 |
| Arbedion | 65 |
| Gwella Iechyd | 70 |
| Iaith | 74 |
| Cynllun Datblygu Lleol | 78 |
| Cydweithio | 84 |
| Rhestr Termau | 86 |
| **Atodiadau:** | |
| Mesuryddion Allweddol - Atodiad 1 | 90 |
| Dangosyddion Statudol - Atodiad 2 | 102 |


**I gael copi o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille, ar dâp sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Hawis Jones ar 01286 679661**

### Rhestr Termau

Ceir esboniad/diffiniad llawn o unrhyw eiriau a ddynodir gydag * yn y rhestr termau, sydd ar dudalen 82.

### Am wybodaeth pellach, cysylltwch â:


Hawis Jones
Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 ISH

Ffôn: 01286 679661
perfformiad@gwynedd.gov.uk


Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

## Nôd y Cyngor

### 'Y GORAU AR GYFER POBL GWYNEDD HEDDIW AC YFORY'

Yn 2010, adolygwyd Gwerthoedd y Cyngor a cafwyd llu o awgrymiadau gan staff, aelodau a gan drigolion y Sir. Wedi llawer o waith dadansoddi a thrafod, mabwysiadwyd 5 gwerth ar gyfer Cyngor Gwynedd wedi ei seilio ar yr egwyddor ganolog

## Gwerthoedd y Cyngor

### PARCH
Parchu ein pobl, ein hiaith a'n hamgylchedd

### POSITIF
Llwyddwn trwy fod yn bositif

### GWERTH AM ARIAN
Gwneud y gorau gydag adnoddau Gwynedd

### GWASANAETHU
Gwasanaethau o'r ansawdd gorau i'n cwsmeriaid

### GWEITHIO FEL TÎM
Cydweithio i gyflawni dros Wynedd

## Rhagair Arweinydd y Cyngor



Fel gweddill Cymru mae Gwynedd mewn cyfnod o gyni ariannol ar y naill law a galw cynyddol am ein gwasanaethau ar y llaw arall. Mae'n hanfodol felly ein bod fel Cyngor yn gweithredu mewn ffordd effeithiol sydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd. Mae'r Cyngor, a'r Aelodau Cabinet sydd â chyfrifoldeb am feysydd penodol yn benderfynol o barhau gyda'r uchelgais hwn, er gwaetha'r wasgfa.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod wedi gwneud cynnydd da iawn yn nifer o feysydd o'r economi i anghenion gofal trigolion y sir.  Cawn ddarlun cliriach o'r sefyllfa yn gyffredinol maes o law ond parhau fydd y pwyslais i sicrhau bod ein holl weithgareddau yn creu gwir wahaniaeth er gwell i bobl y sir.

I'r perwyl hwnnw, dwi'n falch o adrodd ein bod wedi cwblhau'r gwaith o gynllunio strategaeth y Cyngor am y pedair blynedd nesaf. Mae manylion llawn ein cynlluniau i'w gweld yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd am 2013-17.

Yng nghanol y cyfnod anodd hwn i'r sector cyhoeddus, mae angen i ni weithredu mewn ffordd greadigol a hyblyg gan fod yn barod i fentro er mwyn parhau'n hyderus ar ein siwrne o greu Gwynedd well i'r dyfodol.

# Prif ddigwyddiadau 2012/13

**Ebrill 2012**
Awel y Coleg



**Mai 2012**
Ysgol yr Hendre yn



**Mehefin 2012**
Lansio cardiau tybaco




**Gorffennaf 2012**
Cist Gymunedol



**Awst 2012**
Canlyniadau TGAU



**Medi 2012**
Llyfrgelloedd Gwynedd



**Hydref 2012**
Canolfan Tennis Arfon



**Tachwedd 2012**
Tywydd Garw



**Rhagfyr 2012**
Cynllun adfywio Blaenau



**Ionawr 2012**
Trefniadaeth Ysgolion



**Chwefror 2012**
Cefnogi prynwyr
tro cyntaf



**Mawrth 2013**
Trafnidiaeth cyhoeddus
Meirionnydd



## Trosolwg Perfformiad

Mae'r tabl hwn yn dangos llwyddiant ffrydiau gwaith Prosiectau Strategol y Cyngor sydd yn cyfrannu at wella'r canlyniadau i bobl Gwynedd.

| Rhaglen Strategol | Ffrydiau Gwaith sydd wedi cyflawni buddion y flwyddyn Gwyrdd | Ffrydiau gwaith sydd wedi gwneud cynnydd derbyniol Ambr | Ffrydiau gwaith sydd heb gyflawni buddion y flwyddyn. Coch | Canran Llwyddiannus (G) | Canran Derbyniol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal | 10 | 4 | 1 | 67% | 27% |
| Economi | 22 | 7 | 3 | 69% | 21% |
| Plant a Phobl Ifanc | 11 | 4 | 1 | 69% | 25% |
| Amgylchedd ac Isadeiledd | 12 | 7 | 2 | 57% | 33% |
| Trawsffurfio | 17 | 7 | 6 | 57% | 22% |
| Arbedion | 7 | 5 | 1 | 54% | 38% |
| Prosiect Strategol – Gwella Iechyd | 16 | 4 | 3 | 70% | 17% |
| Prosiect Strategol – Maes Iaith | 2 | 1 | 0 | 67% | 33% |
| Prosiect Strategol – Cynllun Datblygu Lleol | 1 | 0 | 0 | 100% | 0% |
| Cyfanswm | 98 | 39 | 17 | 64% | 25% |

## Mesuryddion Allweddol y Cyngor 2012/13

Mae’r tabl hwn yn dangos faint o’n mesuryddion perfformiad sydd wedi gwella, aros yr un fath, neu waethygu. Mae’r mesuryddion perfformiad allweddol hyn yn adlewyrchu perfformiad ein gwasanaethau craidd.

| | Nifer Mesuryddion | ↑ | ⇔ | ↓ | Dim modd cymharu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **53** | **22** | **2** | **8** | **21** |

## Dangosyddion Statudol 2012/13

Mae’r tabl hwn yn dangos faint o ddangosyddion perfformiad statudol Llywodraeth Cymru sydd wedi gwella, aros yr un fath, neu waethygu yng Ngwynedd.

| | Nifer Dangosyddion | ↑ | ⇔ | ↓ | Dim modd cymharu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **30** | **14** | **2** | **9** | **5** |

## Perfformiad Dangosyddion 2012/13 yn erbyn Cyfartaledd Cymru

Mae’r tabl hwn yn dangos sut mae Gwynedd yn perfformio yn erbyn gweddill Cymru.

| | Nifer Dangosyddion | ↑ | ⇔ | ↓ | Dim modd cymharu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **83** | **34** | **0** | **17** | **32** |

## Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd

Yn dilyn ethol Cyngor newydd fis Mai 2012, penderfynwyd mabwysiadu Cynllun Strategol am flwyddyn 2012/13.  Byddai'r flwyddyn hefyd yn cael ei defnyddio er mwyn cyfarfod â'r her o gynllunio ar gyfer Cynllun Strategol newydd a fyddai'n para gweddill oes y Cyngor, sef o 2013-17.

Roedd Cynllun Strategol Gwynedd 2012/13 (sef y Cynllun Gwella) yn cydnabod:

- Ein bod yn gweithio o fewn hinsawdd ariannol anodd lle mae angen darparu mwy o wasanaethau am lai o arian.
- Os ydym am wella bywydau trigolion Gwynedd, ein bod angen trawsnewid gwasanaethau a darparu gwasanaethau mewn ffordd newydd.
- Bod angen parhau i wella'r gwasanaethau dydd i ddydd i drigolion Gwynedd.

Roedd y Cynllun yn cynnwys yr hyn roedd y Cyngor yn bwriadu ei gyflawni am y flwyddyn, sef yr amcanion gwella. Roedd hefyd yn cynnwys manylion ynghylch sut y byddai'r Cyngor yn mesur ei gynnydd yn erbyn yr hyn roedd wedi dweud yr oedd am ei wneud.

Wrth adrodd ar ein perfformiad yn erbyn y Cynllun Strategol ar ddiwedd y flwyddyn, rydym yn gallu adrodd fod 64% o ffrydiau gwaith y Cyngor wedi cyflawni'n llwyddiannus, gyda 25% pellach yn gwneud cynnydd derbyniol. Mae hyn yn gwneud cyfanswm o 89%, sydd yn cymharu gydag 85% yn 2011/12.

O'r 53 mesurydd sy'n mesur ein cynnydd gyda'n gwasanaethau craidd, mae 23 wedi gwella mewn perfformiad, 7 wedi aros yn yr unfan, a 2 wedi dirywio mewn perfformiad.  Nid oes modd cymharu'r 21 sy'n weddill.

Mae nifer o ffrydiau gwaith y Cynllun Strategol wedi canolbwyntio ar weithgareddau er mwyn arwain at gyflawni.  Mae llawer o waith ac ymdrech wedi ei roi i'r gweithgareddau, ond nid yw hynny bob amser yn dangos pa wahaniaeth rydym wedi ei wneud i fywydau trigolion Gwynedd.

Yn y maes **Gofal** rydym wedi bod yn gweithio tuag at **bobl a phlant bregus yn derbyn cefnogeth i fyw bywyd bodlon.**

Rydym yn gallu adrodd fod 67% o ffrydiau gwaith y maes yma wedi cyflawni'n llwyddiannus, gyda 27% pellach yn gwneud cynnydd derbyniol.




- Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd yn 2,535 cilomedr sgwâr o faint. Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru.
- Mae 65% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg - a'r Gymraeg hefyd yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor.
- Ers 2001, mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu 4.3% (5,031 o bobl).  Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd o 5.5% yng Nghymru.
- Yn 2012/13, roedd holl Wariant Refeniw  y Cyngor yn £361.5 miliwn.
- Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn atyniad gwerthfawr i ddenu twristiaeth.  Yn 2011, daeth oddeutu 7.2 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £916 miliwn mewn refeniw.

Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o bobl hŷn sy'n gallu parhau i fyw bywyd annibynnol. Bellach, mae 1,280 o bobl yn derbyn pecyn teleofal* sylfaenol, ac 88 yn derbyn becyn teleofal arbenigol. Rydym hefyd wedi cynyddu nifer Tai Gofal Ychwanegol i 30 gyda datblygiad Awel y Coleg yn y Bala.

Yn maes yr **Economi** rydym wedi bod yn gweithio tuag at:

- **Ffyniant Economaidd – economi Gwynedd yn ffynnu**
- **Gwneud yn siwr fod cyfleoedd teg gan bawb i fod yn rhan o'r byd gwaith, gyda phwyslais ar bobl ifanc dan 25 oed a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau**
- **Gwneud yn siwr fod Gwynedd yn lle cyffrous i fyw ynddo, gyda chymunedau cryf a bywiog**

Rydym yn gallu adrodd fod 69% o ffrydiau gwaith yr Economi wedi cyflawni'n llwyddiannus, gyda 21% pellach yn gwneud cynnydd derbyniol.

Mae llawer o waith wedi digwydd yn y maes yma er mwyn cefnogi busnesau i ddatblygu yng Ngwynedd a datblygu is-adeiledd digidol Gwynedd. Mae tystiolaeth drwy Arolwg Busnes Gwynedd fod mwy o bobl yn meddwl fod Gwynedd yn rhywle lle mae pethau yn digwydd.



*Cabinet Y Cyngor – (Chwith i dde) Y Cynghorwyr - Brian Jones, Gareth Roberts, Paul Thomas, Ioan Thomas, Sian Gwenllian, Dyfed Edwards, R H Wyn Williams, John Wynn Jones, Peredur Jenkins, John Wyn Williams*

Oherwydd newidiadau allanol sylweddol, mae adroddiadau sawl ffrwd gwaith yn y maes yma yn sôn am bwyllo er mwyn gwneud yn siwr ein bod yn canolbwyntio'n gwaith yn y mannau cywir. I'r dyfodol, bydd angen gwneud yn siwr fod gwaith Cyngor yn y maes yma yn canolbwyntio ar wneud pethau sydd yn cael effaith er gwell ar fywydau pobl Gwynedd, ac yn cael effaith a fydd yn parhau.

Yn y maes **Plant a Phobl Ifanc** rydym wedi bod yn gweithio tuag at **well profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd.**

Rydym yn gallu adrodd fod 69% o ffrydiau gwaith yn y maes yma wedi cyflawni'n llwyddiannus a 25% pellach yn gwneud cynnydd derbyniol.

Mae sawl prosiect trawsnewidiol ym maes plant a phobl ifanc, er enghraifft Trawsnewid Addysg Gynradd ac Uwchradd yn ogystal ag Addysg a Hyfforddiant Ôl-16.

Er ei bod yn fuan eto i ddangos tystiolaeth o ba wahaniaeth rydym yn ei wneud i fywydau unigolion, mae rhieni yn barod yn gwerthfawrogi cael un cyswllt i gefnogi teulu.  Mae pobl ifanc hefyd wedi adrodd eu bod wedi gweld cynnydd yn eu cymhelliant, annibyniaeth a pharch at eraill drwy gynllun Pontio.

Yn maes yr **Amgylchedd ac Isadeiledd** rydym wedi bod yn gweithio tuag at gael:

- **Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaladwy**
- **Cyflenwad o dai addas yn y Sir**
- **Cysylltiadau hwylus a defnyddiol**

Rydym yn gallu adrodd fod 57% o ffrydiau gwaith yn y maes yma wedi cyflawni'n llwyddiannus a 33% pellach yn gwneud cynnydd derbyniol.

Mae arbedion ariannol sydd wedi eu gwneud i leihau costau ynni yn golygu fod unigolion yn arbed arian, a bod sefydliadau yn osgoi toriadau neu yn gallu rhyddhau cyllid i'w fuddsoddi mewn llefydd eraill.  Mae hefyd yn cyfrannu tuag at amgylchedd gynaladwy.

Mae tystiolaeth hefyd fod cynnydd o 22% yng nghanran y bobl mewn ardaloedd sydd dan risg llifogydd sydd yn gwybod am berygl llifogydd.  Mae hyn yn golygu y gallant gynllunio'n well at lifogydd posib.

Mae'r Cyngor yn parhau i **drawsffurfio** ei wasanaethau er mwyn gwneud yn siwr ein bod yn gwneud popeth y gallwn er mwyn rhoi'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd.  Gwasanaeth sy'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog.  Bydd y gwaith hwn yn cynyddu dros gyfnod y Cynllun Strategol newydd.

Mae tystiolaeth fod y traddodiad cryf yng Ngwynedd o gynllunio ariannol gofalus yn parhau.  Mae'r Cyngor wedi cyflawni gwerth £5.5m (86%) o **arbedion** effeithlonrwydd sydd wedi osgoi toriadau mewn meysydd eraill.

Mae'r Cyngor gyda'i bartneriaid wedi parhau gyda'i waith ym meysydd **iechyd** a'r **iaith** ac yn gwneud yn siwr ein bod targedu ein gwaith ar y pethau hynny sy'n gwneud y mwyaf o wahaniaeth i drigolion Gwynedd, er enghraifft atal ysmygu (iechyd), a phlant yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol (iaith).


Bydd Cynllun Strategol newydd Gwynedd yn parhau i weithio er mwyn **cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd.**


Mae'r Cyngor yn awyddus i glywed eich barn ar yr adroddiad hwn ac yn croesawu eich sylwadau dros y ffôn, neu drwy ysgrifen, neu drwy gyfryngau cymdeithasol.

## Barn Trigolion Gwynedd

Nifer sy'n datgan eu bod yn fodlon ynghylch y ffordd mae'r Cyngor yn rhedeg pethau


"Hoffwn weld y Cyngor yn ailgylchu mwy, dylai'r trigolion allu ailgylchu pob math o blastig. Dylai Cyngor Gwynedd dderbyn pob plastig yn y safle ailgylchu" - Sylwadau o holiadur Panel Trigolion.





Nifer sy'n datgan eu bod yn cytuno bod Cyngor Gwynedd yn cynnig gwerth am arian





"Mae angen taclo'r broblem gyda budreddi cŵn ac ail-arwynebu ffyrdd angen ychydig o sylw" – Sylwadau o holiadur Panel Trigolion.

Nifer sy'n datgan yr hoffent mwy o lais mewn penderfyniadau sydd yn effeithio eu hardal leol




"Trafnidiaeth yn mynd i fod yn broblem ofnadwy. Rhywun heb gar yn mynd i ddioddef. Angen amseru y trên a bysus yn well! Angen gwella trafnidiaeth!" – Sylwadau o holiadur Panel Trigolion.

# Gofal

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Gofal yn 2012/13 oedd:

*Cyfrannu at amddiffyn y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau gan sicrhau ystod eang o wasanaethau iddynt sydd yn hyrwyddo eu hanibynniaeth ac yn eu cynnwys wrth gydgynllunio, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau*

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

*Pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon*



# **Gofal –** *Pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon.*

## Cyflwyniad

Dyma un o'r meysydd pwysicaf a mwyaf arwyddocaol o holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'n faes lle y mae'r Cyngor yn cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau i'r unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau. Mae angen gwasanaethau addas nawr ac i'r dyfodol oherwydd bod:

- Anghenion yn newid.
- Poblogaeth yn heneiddio.
- Maint y galw yn cynyddu.
- Angen darparu gwasanaeth gyda llai o arian.
- Ymateb i'r hyn mae pobl ei eisiau.
- Ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl.

## Ffactorau perthnasol

- Mae gwariant y Cyngor ar wasanaethau gofal yn cynrychioli 24.5% o wariant y Cyngor.
- 21% o boblogaeth y sir yn 65 oed a throsodd.
- Mae'r Cyngor yn cefnogi oddeutu 2,900 o glientiaid dros 65 oed o fewn y gymuned neu mewn cartrefi gofal.
- Mae'r Gwasanaeth Plant yn derbyn oddeutu 2,000 o gyfeiriadau y flwyddyn.
- Daeth dros 20 gofalwr ifanc newydd yn wybyddus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn y flwyddyn.

## Pam fod angen gweithredu?

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn brif faes sy'n effeithio ar ganran uchel o drigolion Gwynedd.

Mae ein ffordd o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd yn draddodiadol ac angen ei foderneiddio.

Mae darparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig gydag Iechyd yn gwella'r profiad i'r defnyddiwr a hefyd yn dod ag arbedion.

Mae un ymhob pump o bobl rhwng 50 a 59 yn darparu gofal di-dâl. Felly bydd mwy o bwysau ar y gwasanaeth i gynnig cefnogaeth i'r gofalwyr hyn.

**"Mae annibyniaeth yn hynod bwysig- rydan ni eisiau cadw ein hannibyniaeth"**

## Sut 'rydan ni'n cymharu ag eraill?

Mae gwariant Gwynedd ar wasanaethau Plant yn £677.92 fesul uned gymharol sy'n uwch na chyfartaledd siroedd tebyg yng Nghymru sydd yn £525.61 fesul uned gymharol. Mae hyn yn gyfystyr â £3.5 miliwn ychwanegol yng nghyllideb Gwynedd o'i gymharu â siroedd eraill.

Mae gwariant Gwynedd ar wasanaethau Pobl Hŷn (65oed a drosodd) yn £882.98 fesul uned gymharol sy'n uwch na chyfartaledd siroedd tebyg yng Nghymru sydd yn £796.83 fesul uned gymharol. Mae hyn yn gyfystyr â £2.2 miliwn ychwanegol yng nghyllideb Gwynedd o'i gymharu â siroedd eraill.

## Beth sydd wedi gweithio?

Roedd tri phrosiect mawr ar waith yn y maes Gofal yn ystod 2012/13.

Cyflawnwyd y canlyniadau yn 67% o ffrydiau gwaith y prosiectau hynny, gyda 27% wedi gwneud cynnydd derbyniol. Mae'r manylion llawnach ar y prosiectau hynny yn y tudalennau sydd yn dilyn.

Mae'r gwaith o drawsffurfio yn waith tymor hirach. Hyd yma rydym wedi dechrau cyfrannu at y newid yma, er engraifft hybu teleofal*, galluogi a datblygu unedau Tai Gofal Ychwanegol*. Mae cyfradd ein gwlau preswyl gwag wedi lleihau dros y tair blynedd.

## Partneriaid

Mae cydweithio gyda phartneriaid yn allweddol yn y maes Gofal. Mae'r Cyngor mewn cyswllt rheolaidd a chyson gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a mudiadau Trydydd Sector o fewn y sir er ceisio cyd-gynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau allweddol yn y maes.

"Rwyf yn diolch i'r Gwasanaeth am y gwaith ardderchog y maent wedi ei wneud dros y flwyddyn diwethaf. Mae'r Gwasanaeth yn datblygu ac yn symud ymlaen mewn amser heriol iawn."



**Y Cynghorydd R H Wyn Williams**

## Pwy sydd wedi elwa?

- Llwyddwyd i gynyddu'r nifer sy'n derbyn pecyn galluogi* i 119.
- Cyfanswm o 1,280 yn derbyn pecynnau teleofal sylfaenol*.
- Llwyddwyd i gynyddu'r nifer o becynnau teleofal arbenigol* a ddarperir o'r newydd i 88.
- Llwyddwyd i gynyddu'r nifer o unedau Tai Gofal Ychwanegol i 30.
- Llwyddwyd i leihau'r nifer o welyau preswyl y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i 437.
- Y nifer sy'n derbyn cefnogaeth anffurfiol o fewn y gymuned o'r newydd yn 1,338.
- Eleni, roedd yn cymryd 298 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl*. Mae hyn yn golygu ein bod wedi methu yr uchelgais – 280 diwrnod. Fodd bynnag, roedd y perfformiad yma yn well na pherfformiad gweddill Cymru lle mae'n cymryd 325 diwrnod ar gyfartaledd i ddarparu'r grant.

## Unrhyw wybodaeth arall

Yn ogystal â gweithio ar y prosiectau eu hunain, yn ystod y flwyddyn, bu'r Cyngor yn cynnal asesiad o anghenion gofal ar draws y sir, gan ddechrau drwy wneud gwaith manwl iawn yn ardal Porthmadog.

**Gofal –** Pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon



# Trawsffurfio Gwasanaethau Anabledd Dysgu

## Cefndir

Mae angen sicrhau y gellir cefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth yn ogystal â gofalu amdanynt os bydd eu hanghenion yn dwysau.

Mae angen sicrhau bod:

- Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn y gymuned.
- Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis o lety addas i'w hanghenion.
- Oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol â'u hanghenion.

## Beth gafodd ei gyflawni?

- Gwasanaeth Dydd: Siâp y ddarpariaeth Gwasanaeth Dydd newydd wedi ei gytuno.
- Taliadau Uniongyrchol*: Cynllun gweithredu wedi ei gymeradwyo ac yn cael ei weithredu.
- Galluogi*: Gwaith hybu annibyniaeth yn cael ei gynnig i bob defnyddiwr gwasanaeth mewn cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Teleofal: 37 pecyn teleofal arbenigol yn cael eu darparu yn y maes anableddau dysgu.
- Llety: Trigolion  Pant yr Eithin wedi eu lleoli mewn llety addas a phriodol i'w hanghenion a chynllun gwaith datblygiad newydd Pant yr Eithin wedi ei gwblhau. Tir Pant yr Eithin eto i'w drosglwyddo i Gymdeithas Tai Eryri ar gyfer datblygiad newydd.

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Rydym wedi cyfrannu at gynnal annibyniaeth a diogelwch defnyddwyr gwasanaeth. Bellach mae 37 pecyn teleofal arbenigol yn cael eu darparu yn y maes anabledd dysgu.

# **Gofal –** Pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon



## Prosiect Trawsffurfio Gwasanaethau Pobl Hŷn

### Cefndir

Mae angen sicrhau y gellir cefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth yn ogystal â gofalu amdanynt os bydd eu hanghenion yn dwysau.

Mae angen canolbwyntio fwy fwy ar atal problemau yn ogystal â chefnogi'r mwyaf bregus.

Mae angen sicrhau bod:

- Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn y gymuned.
- Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis o lety addas i'w hanghenion.
- Oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol â'u hanghenion.

### Pa wahaniaeth ydan ni wedi'i wneud?

- Mae mwy o drigolion Gwynedd yn defnyddio Teleofal i gynnal eu hanibyniaeth a'u cadw'n fwy diogel.
- Mae'r Uned Gofal Byr yn galluogi pobl i gymryd yr amser maent ei angen i gryfhau a datblygu eu sgiliau annibyniaeth cyn dychwelyd adref.
- Mae Galluogi* yn y cartref yn hybu annibyniaeth ac yn datblygu sgiliau a hyder i'n defnyddwyr.
- Mae'r Uned Tai Gofal Ychwanegol* yn Y Bala yn rhoi dewis llety addas ychwanegol i drigolion Gwynedd.

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Trwy'r Cynllun Galluogi* bu i bobl fregus gael cynnig darpariaeth galluogi i'w cynorthwyo i adfer neu gynnal sgiliau byw ac annibyniaeth. Fel rhan o'r Cynllun yma datblygwyd Uned 6 gwely i ddarparu gofal adfer tymor byr.
- Gofal Dydd a Chefnogaeth Anffurfiol*: Datblygwyd mwy o gefnogaeth ddydd ffurfiol ac anffurfiol i bobl hŷn
- Tai Gwarchod*: Datblygwyd modelau gofal i uchafu'r defnydd o dai gwarchod fel dewis llety
- Addasiadau*: Cyflymwyd y broses o ddarparu addasiadau i ddefnyddwyr
- Teleofal*: Ni lwyddwyd i wireddu'r uchelgais penodol o ran y nifer o becynnau teleofal a ddarparwyd yn 2012-13, ond fe sefydlwyd Bwrdd Prosiect a penodwyd Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Teleofal fel ymateb, a chynyddodd y perfformiad dros y flwyddyn. Ni chyrhaeddwyd y targedau arbedion, a bydd hyn yn cael sylw yng Nghynllun Strategol 2013-17.
- Preswyl a Nyrsio: Caewyd Cartref Bron y Graig, Y Bala, yn dilyn datblygiad Tai Gofal Ychwanegol Awel y Coleg. Agorwyd darpariaeth arbenigol dementia newydd ym Mangor. Ni lwyddwyd i sefydlu Uned o welyau ysbaid arbenigol o fewn yr amserlen, a chaiff ei gwblhau yn 2013/14. Mae eglurder ar siap darpariaeth breswyl a nyrsio yn Ne Meirionydd eto i'w gytuno gyda'r Bwrdd Iechyd.
- Tai Gofal Ychwanegol*: Agorwyd adeilad Awel y Coleg gyda 30 Uned yn Y Bala, yn ogystal â dechrau ar y gwaith adeiladu ym Mangor. Gwaith asesu anghenion wedi ei wneud ond nid oes eto eglurder ar siap y ddarpariaeth ym Mhorthmadog.



## **Gofal –** Pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon

# Prosiect Cefnogaeth Integredig i'r Teulu

## Cefndir

Mae datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plentyn yn fwy tebygol o gael ei effeithio os oes gan deuluoedd broblemau dyrys.

Mae angen cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd drwy roi'r grym iddynt gymryd camau pendant i wella eu bywydau.

Mae'r prosiect Cefnogaeth Integredig i'r Teulu yn ymateb i ofynion gan Lywodraeth Cymru i sefydlu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

Gweithio gyda'n gilydd i sefydlu'r gwasanaeth a darparu cefnogaeth/gwasanaethau i deuluoedd.

## Beth gafodd ei gyflawni?

- Bwrdd Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd wedi ei sefydlu a Wrecsam yn arwain yn rhanbarthol.
- Bwrdd Cysgodol Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd wedi ei sefydlu yng Ngwynedd a Môn, gyda Môn yn arwain ar ran y ddau Gyngor.
- Tîm prosiect yn ei le ar draws y ddwy Sir i baratoi at weithredu o fewn y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae'n rhy gynnar i ddangos pa wahaniaeth fydd y gwaith yn ei wneud i fywydau teuluoedd yng Ngwynedd.

## Dangosyddion Maes

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais |
|---|---|---|---|---|---|
| DGO001 | Nifer o becynnau teleofal arbenigol a ddarperir | - | 62 | 88 | 90+ Cynnydd o 30 yn flynyddol |
| DGO002/OED02 | Nifer o becynnau teleofal sylfaenol a ddarperir | 870 | 1,224 | 1280 | 1010 Cynnydd o 5% yn flynyddol |
| DGO003 | Nifer o oriau o ofal cartref mewn wythnos (ar gyfartaledd) | - | 10,400.06 | 10,532.93 | I'w Gadarnhau |
| DGO004A | Nifer sy'n derbyn pecyn o alluogi | 200 | 342 | 529 | 390 Cynnydd o 25% yn flynyddol |
| DGO005 | Nifer sy'n derbyn cefnogaeth anffurfiol o fewn y gymuned | - | 695 | 1338 | 1080 o bobl ychwanegol yn derbyn cefnogaeth anffurfiol |
| DGO006 | Nifer y nosweithiau ysbaid gaiff eu darparu | - | 2,263 | 2339 | Cynnydd o 5% yn flynyddol |
| DGO007 | Nifer o unedau TGY ar gael yng Ngwynedd | 0 | 0 | 30 | 139 |
| DGO008a | Cyfanswm y nifer o unigolion sydd wedi bod mewn gwelyau preswyl yn ystod y flwyddyn | 678 | 614 | 636 | 599 |
| DGO008b | Nifer y gwelyau preswyl mewn defnydd ar 31 Mawrth | 468 | 418 | 437 | - |
| DGO009a | Cyfanswm y nifer o unigolion sydd wedi bod mewn gwelyau nyrsio yn ystod y flwyddyn | 283 | 272 | 298 | 310 |
| DGO009b | Nifer y gwelyau nyrsio mewn defnydd ar 31 Mawrth | 207 (ar sail 2008/09) | 183 | 188 | - |
| PSR/002 | Hyd gweithredu addasiadau | 400 | 283 | 298 | 320 |
| SCC/010 | Canran y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 49.13% | 39.10% | 30.00% | Lleihad |

# Economi

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Economi yn 2012/13 oedd:

*Bydd Gwynedd y dyfodol yn ffynnu – yn ardal fentrus a byrlymus yn economaidd a chymdeithasol, gyda'r Gymraeg yn ganolog i'w ffyniant, a gyda phobl o bob oed yn medru gafael yn y cyfleon newydd ac yn dewis aros yn yr ardal i fyw a gweithio.*

*Wrth wireddu hyn fe fyddwn yn talu sylw penodol i bobl heb waith, i bobl ifanc, i'r ardaloedd llai ffyniannus ac i ddatblygu gweithlu dwyieithog, fel bo pobl Gwynedd yn cael y cyfle gorau i fyw a gweithio yn yr ardal.*

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniadau canlynol fel amcanion gwella yr ydym am weithio tuag atynt dros gyfnod o rai blynyddoedd:

*Ffyniant Economaidd – Bydd economi Gwynedd yn ffynnu*

*Cyfleoedd teg i bawb fod yn rhan o'r byd gwaith, gyda phwyslais ar bobl ifanc dan 25 oed a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau*

*Bydd Gwynedd yn lle cyffrous i fyw, gyda chymunedau byrlymus.*



## Yr Economi – *Ffyniant Economaidd: bydd economi Gwynedd yn ffynnu;*
*Bydd cyfleon teg i bawb fod yn rhan o'r byd gwaith, gyda phwyslais ar bobl ifanc dan 25oed a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau;*
*Bydd Gwynedd yn lle cyffrous i fyw efo cymunedau byrlymus.*

## Cyflwyniad

Mae gwendidau sylfaenol a hanesyddol wedi effeithio ar ffyniant a bywiogrwydd y sir, ac yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys:

- Diffyg swyddi ar gyfer y rhai sy'n chwilio am waith ac yn enwedig mewn rhai ardaloedd.
- Sail gyfyng yr economi a dibyniaeth ar nifer fechan o sectorau.
- Pryder ynglŷn â hyfywiaeth busnesau, eu maint a'u goroesiad.
- Graddau anweithgarwch economaidd yn y sir a nifer pobl ifanc dan 25 oed yn ddi-waith.
- Incymau a chyflogau isel.
- Tlodi a'r gyfradd plant mewn teuluoedd di-waith.
- Lleihad ym mhoblogaeth oed gwaith y sir, a phryder am nifer y rhai 20-34 oed sy'n allfudo o Wynedd.

Cydnabu'r Cyngor yr angen i weithredu dros sawl blwyddyn i drawsnewid y sefyllfa, a nodir yr ymyraethau yn y tudalennau sy'n dilyn.

## Pam fod angen gweithredu?

Rydym mewn cyfnod o ddirwasgiad estynedig, cyfnod sydd wedi profi cwtogi yn y sector gyhoeddus, gyda chyfnod pellach o doriadadau llym ar y gorwel.


Heb ymyraethau i gefnogi hyfywiaeth sector breifat y sir, gwelwyd peryg dirfawr i gynaladwyedd economi a chymunedau Gwynedd wrth i swyddi gael eu colli, a'r duedd allfudo barhau.

## Ffactorau perthnasol

- Cyn cychwyn gweithredu (Mehefin 2010), roedd 0.20 swydd wag ar gyfer pob person oedd yn mynd ati i chwilio am waith – gyda'r sefyllfa diffyg swyddi ar ei gwaethaf ym Meirionnydd. Gwelwyd gwelliant yn 2011, ac eto i 0.28 yn 2012.
- 12,840 o fusnesau o fewn y sir yn cyflogi 43,000, gyda 94% ohonynt yn fusnesau bychan a meicro .
- 38.1% o'r rhai mewn gwaith yn y sir yn cael eu cyflogi yn y sector gyhoeddus; 13.6% yn y sector llety a bwyd, a 13.7% sector mânwerthu – prin iawn oedd sectorau eraill o fewn y sir yn enwedig y rhai proffesiynol gwyddonol a thechnolegeol (2.7% yn unig), sef sectorau gyda chyflogau uwch.
- Cyflog wythnosol rhai rhannau o Wynedd ymysg yr isaf ym Mhrydain – a gwelwyd gostyngiad cyson yn incwm aelwydydd rhwng 2009 a 2012 yn adlewyrchu hefyd sefyllfa Cymru a'r Deyrnas Gyfunol.
- Yn 2011 roedd 66.7% o bobl oed gwaith y sir mewn gwaith, a 560 o bobl ifanc dan 25oed yn chwilio am waith, sef bron i un rhan o dair y ceiswyr Lwfans Gwaith yn y sir.
- Ffigyrau 2010/11 yn dangos fod 14.7% o rai rhwng 20-34 oed (sef oed magu teulu) wedi allfudo o'r sir, ac yn gynnydd ar ffigwr 2009/10

## Sut 'rydan ni'n cymharu ag eraill?

Gan nad oes Dangosyddion Perfformiad Allweddol gan Awdurdodau Lleol ar gyfer maes yr economi, mae'r Cyngor wedi sefydlu ystod o ddangosyddion er mwyn adnabod a chadw llygad ar y prif ffactorau perthnasol i'n economi ni yma. Isod nodir un o'r rhain, sef y duedd o ran cyflogau cymharol.



## Beth sydd wedi gweithio?

- Comisiynu sesiynau a gweithdai tendro ar gyfer busnesau'r sir o gwmpas cynlluniau cyfalaf mawr a'u cadwyni cyflenwi.
- Llwyddiant yn sicrhau fod y sir yn derbyn sylw cyntaf Llywodraeth Cymru wrth ddarparu band-eang tra-cyflym y genhedlaeth nesaf.
- Y gwaith cychwynnol gyda'r Brifysgol i greu budd i'r economi leol o arloesedd ac ymchwil.
- Cynllun *Potensial** a'r cyfleoedd roddwyd i bobl ifanc mewn peryg o beidio bod mewn gwaith, addysg na hyfforddiant (NEET).
- Y gwaith wnaed i ddenu digwyddiadau proffil uchel a rhyngwladol i'r sir; y gwaith i ddenu a chefnogi gwirfoddolwyr, ac i arfogi trefnwyr digwyddiadau mwy lleol gyda'r sgiliau cywir ar gyfer gweithredu yn y sector digwyddiadau a'r buddsoddiad a gafodd ei ddenu i'r Economi leol.

Roedd naw prosiect ar waith yn maes yr Economi yn ystod y flwyddyn.

Cafodd y canlyniadau eu cyflawni yn 69% o ffrydiau gwaith y prosiectau hynny, gyda 21% yn gwneud cynnydd derbyniol. Mae'r manylion llawnach ar y prosiectau hynny yn y tudalennau sydd yn dilyn.

"Mae cynlluniau maes yr Economi yn dechrau gwneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd"



**Y Cynghorydd John Wynn Jones**

## Pwy sydd wedi elwa?

- Busnesau Gwynedd a'r economi leol o ennill cytundebau cyfalaf gwerth £27.12m trwy brosiectau'r Cynllun.
- Trigolion a gweithlu Gwynedd o'r 41 swydd grewyd a'r 172 o swyddi ddiogelwyd trwy'r Cynllun Strategol yn 2012/13.
- Trigolion gwahanol rannau'r sir a gysylltwyd efo gwasanaethau a'r byd digidol trwy'r ddarpariaeth di-wifr newydd mewn 40 lleoliad o fewn adeiladau cyhoeddus y Cyngor (2,552 o bobl wedi manteisio mewn mis, a sawl gwaith).
- 679 o bobl ifanc mewn peryg o beidio bod mewn gwaith, addysg na hyfforddiant (NEET) a gafodd eu cefnogi trwy'r Cynllun.
- Y gwahaniaeth i fywydau 218 o oedolion pell oddi wrth y farchnad lafur trwy'r profiadau, cyfleon a'r help llaw roddwyd.
- Yr economi leol a chymunedau'r sir o chwistrelliad ariannol o £4.99m a'r bywiogrwydd cymunedol o'r digwyddiadau Strategol a gafodd eu cynnal.

## Partneriaid

Gweithiwyd e.e. gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol eraill, Prifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Coleg Menai, Gyrfa Cymru, Cynghorau Sgiliau, Canolfan Byd Gwaith, Ynys Ynni, Cynllun Môn-Menai, Cymunedau ar-lein, Cymunedau 2.0, a rhwydweithiau busnes, fforymau sector ac asiantaethau cefnogi.

## Unrhyw wybodaeth arall

Ni lwyddwyd i wireddu popeth y bwriadwyd ei gyflawni yn ystod y flwyddyn, yn arbennig datblygu gweithgareddau pellach o fewn meysydd hyfforddi a chysylltu pobl efo gwaith. Ar yr un pryd, oherwydd newid ar y gorwel yn y cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol, manteisiwyd ar y llithriad amser i bwyllo er mwyn sicrhau fod gennym y cynlluniau cywir ar gyfer y maes yma i'r dyfodol, a'u gosod ar dir cadarn.

# Maes yr Economi – *Ffyniant Economaidd: bydd economi Gwynedd yn ffynnu*

## Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon isel

### Cefndir

Mae Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel yn ymateb i'r canlynol:

- Diffyg ffyniant economaiddd a cholli swyddi da.
- Dim digon o amrywiaeth o ran y sectorau gwaith, yn enwedig y rhai sy'n talu'n dda.
- Dim digon o swyddi ar gyfer y rhai sy'n chwilio am waith ar hyn o bryd, nac i ymateb i golli gwaith pellach.
- Cyfle cyflogaeth a chaffael Ynys Ynni/Wylfa B i'r economi leol, a photensial posib cynlluniau ynni adnewyddol amgen.

Gan gydnabod y byddai'r prosiect yn un tymor hirach na'r tair blynedd, cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Cryfhau cyswllt Ynys Ynni* gyda busnesau Gwynedd a hyrwyddo cyfleon tendro.
- Adnabod a hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau'r sir o ddatblygiad ynni carbon isel ac amgen yn y rhanbarth.
- Sicrhau cyfleon lleoli i gwmniau cyflenwi a pheirianneg y sector ar draws y gogledd-orllewin.
- Codi ymwybyddiaeth pobl oed gwaith, busnesau, ysgolion a cholegau a rhoi iddynt sgiliau y bydd eu hangen arnynt ymlaen llaw.
- Datblygu ac uchafu gwerth prif safleoedd ynni Gwynedd Werdd*.
- Cefnogi mentrau economaidd cymunedol a gwledig i sefydlu cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddol a meicro-gynhyrchu.

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Cafodd gofynion y sir eu cynnwys yn rhaglen gyfathrebu cyfleoedd gwaith a thendro Ynys Ynni*.
- Brîff i astudio cyfleoedd cadwyni cyflenwi arbenigol cynlluniau ynni carbon isel wedi ei gomisiynu, yn cynnwys adnabod y cyfleon i Wynedd, a chwmnïau yn cael eu targedu.
- Gwaith sgopio ac adnabod cyfleoedd ynni adnewyddol i'r sir wedi ei gwblhau, a'r canfyddiadau wedi eu rhannu.
- Adroddiad sgopio isadeiledd safle Trawsfynydd (Parth Menter Eryri) wedi adnabod cyflwr y safle a'r anghenion uwchraddio.
- Achos busnes llwyddiannus wedi ei gyflwyno dros leihau trethi busnes dalgylchoedd safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr, fel sail i'w sefydlu fel canolbwynt a chysylltu busnesau lleol gyda chyfleoedd cyflenwi'r safleoedd.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae'n rhy gynnar i ddangos pa wahaniaeth fydd y gwaith yn ei wneud i fywydau unigolion yng Ngwynedd.

Ymhellach, oherwydd, amserlen ansicr Wylfa B, mae amserlen y prosiect yn gorfod ymestyn, ac o hynny y gwaith adnabod effaith hefyd.

GOF ECO PLA AMG TRAWS ARB IECH IAITH CDLI

## Maes yr Economi – *Ffyniant economaidd : bydd economi Gwynedd yn ffynnu*



Cadw'r Budd yn Lleol

### Cefndir

Mae Cadw'r Budd yn Lleol yn ymateb i'r canlynol:

- Sefyllfa hyfywiaeth a ffyniant busnesau'r sir angen sylw
- Dibyniaeth busnesau'r sir ar y sector gyhoeddus am gytundebau gwaith, a bygythiad o doriadau yn y sector gyhoeddus.
- Angen mwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir, a chyfle i'r sir fanteisio ar ei chryfderau.
- Heriau gwahanol yng ngwahanol rannau o'r sir, a'r angen am sylw penodol i Feirionnydd.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Cael y budd o gynlluniau cyfalaf mawr i mewn i'r economi leol.
- Paratoi busnesau lleol ar gyfer cyfleoedd caffael o'r cynlluniau cyfalaf mawr a'u cadwyni cyflenwi
- Buddsoddi i greu'r amodau i annog a hybu twf yr economi trwy Gronfa Fenthyciadau lleol.
- Tyfu Busnesau Cynhenid trwy sefydlu rhaglen broffilio ar gyfer cwmniau, a dathlu llwyddiannau busnesau.
- Adnabod a chymryd golwg gyffredinol o ddatblygiadau mawr all ddod i Wynedd.

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Paratowyd 124 o fusnesau'r sir gyda'r sgiliau cywir ar gyfer gofynion tendro yn y maes adeiladu.
- Darparwyd pecyn ar gyfer busnesau o gwmpas datblygiadau beicio ym Meirionnydd.
- Gyda phartneriaid, sefydlwyd Fforwm y Diwydiannau Creadigol, a chlystyrau busnes o fewn y sector greadigol, gan adnabod cyfleon tendro perthnasol.
- Sefydlwyd y rhaglen ar gyfer tyfu busnesau cynhenid, gyda 43 cwmni lleol yn cael eu derbyn i ddilyn rhaglenni twf wedi eu teilwro i'w anghenion unigol.
- Cymerwyd trosolwg o fewn y Cyngor o ddatblygiadau mawr posib a allai ddod i'r sir, ac adnabuwyd y cyfleoedd tendro posib i fusnesau lleol.
- Ychydig o ddefnydd wnaed o'r Gronfa Fenthyciadau gan fusnesau, gyda chwe chais yn unig yn 2012/13 yn arwain at ddau fenthyciad, creu un swydd a diogelu 15 swydd llawn amser, ac 17 swydd rhan amser.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

- 37 o fusnesau'r sir wedi ennill cytundebau yn dilyn gweithdai tendro.
- Cytundebau gwerth £27,117,604 wedi eu hennill gan fusnesau'r sir yn dilyn y gweithdai tendro.
- 40 o swyddi wedi eu creu a 130 wedi eu diogelu o fewn y busnesau hynny.

***"Yn dilyn cefnogaeth gan Cyngor Gwynedd, bu'r cwmni yn llwyddiannus yn ennill achrediad safon amgylcheddol ISO14001 sydd o fudd mawr yn y broses tendro"***

# Maes yr Economi – *Ffyniant economaidd: bydd economi Gwynedd yn ffynnu*

## Gwynedd Ddigidol

### Cefndir

Mae Gwynedd Ddigidol yn ymateb i'r canlynol:

- Pellter Gwynedd o'r prif farchnadoedd, a'r angen i roi sylw i ffyniant busnesau ar draws y sir.
- Yr angen i drigolion gael mwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir.
- Yr angen i alluogi trigolion i fanteisio ar sectorau gwerth uchel
- Heriau gwahanol yng ngwahanol rannau o Wynedd, a'r angen i roi sylw penodol i Feirionnydd.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Canolbwyntio ar sicrhau fod y sir yn cael ei chynnwys yng ngwedd gyntaf gwaith Llywodraeth Cymru i gyflwyno bandeang tra-nerthol y genhedlaeth nesaf trwy'r wlad.
- Datblygu potensial cyfleusterau a rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu y Cyngor i gysylltu trigolion a busnesau gyda darparwyr gwasanaeth.
- Amlygu potensial y dechnoleg newydd ar gyfer gwasanaethau ar-lein ac e-fasnachu.
- Cychwyn datblygu dau begwn o safon rhyngwladol ar gyfer y sector digidol a data ar safle Parth Menter Eryri a Ferodo, gan hyrwyddo'r cyswllt traws-Iwerydd a chydweithio gyda Phrifysgolion.
- Cychwyn cysylltu arloesedd a chyfleoedd digidol gyda sectorau eraill.

**"Dwi 2451% yn gyflymach. Roeddwn i ond ar 1.45M cynt. #Hapus iawn"**

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Llwyddwyd i sicrhau bod Gwynedd wedi ei dewis yn un o'r siroedd cyntaf un i gael buddsoddiad is-adeiledd band-eang y genhedlaeth nesaf.
- Darparwyd 40 lleoliad Wi-Fi newydd o fewn adeiladau cyhoeddus y Cyngor ar draws y sir.
- Gwnaed gwaith i sgopio is-adeiledd safle hen atomfa Trawsfynydd (Parth Menter Eryri), ac astudiaeth benodol o safbwynt y sector digidol a data.
- Cymerwyd y camau cyntaf tuag at ddatblygu canolbwynt ar gyfer y diwydiannau creadigol yn y sir.
- Oherwydd i'r broses o gomisiynu cyflenwyr y bandeang tra-cyflym ar gyfer Cymru ymestyn tu hwnt i'r amserlen ddisgwyliedig, bydd y gwaith sylweddol i godi ymwybyddiaeth a hybu cyfleon e-fasnachu a chynhwysedd digidol yn llithro i 2013/14 ac ymlaen.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?




- Ymwybyddiaeth wedi cynyddu gyda 400 yn dilyn Gwynedd Ddigidol ar *Trydar*, a 1,078 wedi cymryd rhan yng nghynllun cynhwysiad digidol *IT i ti a fi*!
- Mewn un mis, 2,552 defnyddiwr unigryw wedi defnyddio'r Wi-Fi cyhoeddus newydd yn adeiladau'r Cyngor, ac ar gyfer mynediad i wasanaethau amrywiol.

# Maes yr Economi – *Ffyniant economaidd : bydd economi Gwynedd yn ffynnu*

## Trosglwyddo Arloesedd y Brifysgol i'r Economi Leol

### Cefndir

Mae Trosglwyddo Arloesedd y Brifysgol i'r Economi Leol yn ymateb i'r canlynol:

- Cyflogau isel, ymysg yr isaf ym Mhrydain, yn enwedig mewn rhannau o'r sir, gan gynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf gwledig.
- Diffyg swyddi ar gyfer y rhai sy'n chwilio am waith, ac angen mwy o swyddi ar draws y sir.
- Dim digon o amrywiaeth yn y sectorau gwaith o fewn y sir, yn enwedig y sectorau hynny sy'n rhai gwerth uchel ac yn talu'n dda.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol:

- Canolbwyntio gyda phartneriaid yn y cyfnod yma ar ddatblygu cyfleon y Sector Feddygol a thynnu mantais i'r economi leol, gan gysylltu busnesau gyda gwaith ymchwil Prifysgol Bangor.

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Trefniadau wedi eu datblygu gan y Brifysgol ar draws ei hadrannau, er mwyn medru trosglwyddo'r arloesedd yn gyfleon economaidd (sef model arloesol Rhith-gyfleuster).
- Penderfyniad wedi ei gymryd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sefydlu Cyfleuster Clinigol ar gyfer treialu arbenigol yn adeilad Ysbyty Gwynedd ym Mangor.
- Clwstwr o fusnesau lleol o fewn y sector yn cael eu cefnogi i feithrin perthynas fasnachol gyda'r Brifysgol.
- Perthynas bositif wedi ei sefydlu gyda chwmniau allanol o fewn y sector, gan godi'r ymwybyddiaeth o'r sir fel lle i sefydlu gwaith gwerth uchel.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

- Mae trafodaethau wedi digwydd efo 46 o fusnesau yn ystod y flwyddyn, ac 11 wedi adnabod y potensial o sefydlu yma;
- Bellach mae posibilrwydd o greu oddeutu 374 o swyddi dros amser petai'r diddordeb yn cael ei wireddu, gyda 3 o'r cwmniau yn paratoi cynlluniau mwy manwl ar hyn o bryd.

## Maes yr Economi – *Bydd cyfleon teg i bawb fod yn rhan o'r byd gwaith, gyda phwyslais ar bobl ifanc dan 25 oed a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau*

Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc

### Cefndir

Mae'r Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc yn ymateb i'r canlynol:

- Diweithdra ymysg pobl ifanc, a'r bygythiad tymor hir o ddadrithiad wrth i'r gystadleuaeth am lai o swyddi ddwysáu.
- Tlodi ac anactifedd economaidd.
- Tanweithdra oherwydd effaith budd-daliadau, a chosb ariannol, ar allu pobl i gymryd gwaith.
- Methiant y farchnad yn lleol i gynnal lleoliadau prentis oherwydd costau cyflogi mewn cyfnod o ddirwasgiad.
- Cyfleon Wylfa B ar gyfer cwmnïau lleol a thrigolion efo'r sgiliau cywir.
- Yr angen i sefydlu mencanwaith i lenwi'r bwlch rhwng y galw isel am brentisiaid ac anghenion sgiliau uchel y dyfodol.
- Yr angen i ehangu'r maes i gynnwys cynlluniau hyfforddiant mewn swydd, gan gynnwys y Cyngor fel cyflogwr.
- Angen graddedigion y sir am swyddi proffesiynol yn lleol.

**"Roeddwn yn ffodus iawn i gael fy newis i fod yn un o'r garfan gyntaf o brentisiaid ar gynllun Cwmni Prentis Menai, ac rwyf wedi elwa'n sylweddol o'r profiadau o weithio gyda gweithwyr profiadol eu maes yn mhŵerdy heidro Maentwrog, ar gyfnodau prysur iawn o gynnal a chadw yn Wylfa, ac yn enwedig o'r gwaith diddorol a chymleth o ddatgomisiynu yr atomfa yn Nhrawsfynydd. Diolch i'r cynllun a'r cymwysterau rwyf wedi ennill, rwyf bellach yn dechnegydd staff i gwmni Magnox yn Nhrawsfynydd gyda chyfrifoldebau ar gyfer 'Rheolaeth ac Offeryniaeth" ac mae yna alw mawr am y sgiliau yma yn y sector ynni ledled y byd."**

### Beth gafodd ei gyflawni?

- 18 Prentis o Wynedd wedi eu cyflogi o dan y Model;
- Anghenion recriwtio ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi eu cytuno gyda'r Cynghorau Sgiliau ar gyfer y sectorau adeiladu a pheirianneg;
- Mae'r maes prentisiaeth a hyfforddiant o fewn y Cyngor wedi ei fapio
- Derbyniwyd adroddiad drafft ymgynghorwyr allanol ar y bylchau a'r anghenion o ran cysylltu graddedigion y sir gyda swyddi proffesiynol lleol anodd eu llenwi;
- Cynhaliwyd peilot profiad gwaith ym maes digwyddiadau mawr i rieni ifanc ym Maes Barcer, ac hefyd rhoddwyd profiad gwaith i hawlwyr lwfansau anabledd a iechyd meddwl;
- Ni lwyddwyd i wireddu popeth o fewn y prosiect ac, oherwydd fod y cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol yn y maes sgilio a chyflogaeth yn parhau i newid, barnwyd y byddai'n fuddiol pwyllo cyn cwblhau gwaith -anghenion a photensial darparu presntisiaethau mewn sectorau eraill, ym meysydd y Cyngor fel cyflogwr, a datblygiad y cyfeiriad lleol i -ateb anghenion swyddi graddedigion y sir. Bwriedir i'r rhain dderbyn sylw yng Nghynllun Strategol 2013/14.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Cynlluniwyd hwn i fod yn brosiect dros gyfnod hirach. Mae'n rhy gynnar i ddangos pa wahaniaeth fydd y gwaith yn ei wneud i fywydau unigolion yng Ngwynedd.

## **Maes yr Economi –** *Bydd cyfleoedd teg i bawb fod yn rhan o'r byd gwaith, gyda phwyslais ar bobl ifanc dan 25 oed a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau*

## Goresgyn Rhwystrau i Waith

### Cefndir

Mae goresgyn rhwystrau i waith yn ymateb i:

- Lefelau anweithgarwch economaidd uwch yng Ngwynedd, a diweithdra pobl ifanc ar gynnydd.
- Incymau isel aelwydydd rhai rhannau o'r sir.
- Mater statudol Diwygio Lles ar y gorwel a newidiadau i ddod i fframwaith gefnogaeth budd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
- Yr angen i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a dileu rhwystrau i waith ar gyfer yr unigolion pellaf oddi wrth y farchnad lafur – sef rhieni sengl, pobl ifanc mewn peryg o beidio bod mewn gwaith, addysg na hyfforddiant (NEET), rhai gyda phroblemau iechyd meddwl, a phobl ifanc at 19 oed.

Cytunwyd i rhoi sylw penodol i'r grŵpiau pellaf oddi wrth y farchnad lafur gan;

- Leihau cyfraddau anweithgarwch yn y sir dros amser.
- Hyrwyddo sectorau gwaith penodol.
- Hwyluso symudiad unigolion ymlaen i waith neu addysg neu hyfforddiant gan leihau rhwystrau ymarferol.

**"Diolch hiwj am yr holl help a chefnogaeth….dim jest ffeindio swydd i mi ond un ddelfrydol ar hynny. ..Dwi'n meddwl bydd o dim jyst yn hwb a cham ymlaen ond yn rîl trobwynt."**

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Cefnogwyd 679 o bobl ifanc mewn peryg o fod yn NEET trwy gynllun *Potensial*, sef cynnydd sylweddol ar y targed o 271.
- Mynychodd 106 o bobl ifanc ddigwyddiad i'w cyflwyno i'r sector tŵf awyr agored trwy *Llwyddo'n Lleol* – sef dros ddwywaith y ffigwr targed.
- Derbyniodd 72 o bobl ifanc Fwrsariaeth *Llwyddo'n Lleol* gyda 75 o fentrau wedi eu sefydlu.
- Manteisiodd pobl ifanc chwech ysgol uwchradd a dau goleg addysg bellach ar y modiwlau *"Workskills"* trwy *Llwyddo'n Lleol*.
- Er bod 129 o bobl efo problemau iechyd meddwl gael eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i waith, a 12 wedi cwblhau hyfforddiant lefel1-3 Rhwydwaith Coleg Agored trwy gynllun *Taith i Waith*, ni lwyddwyd i gyrraedd targedau'r flwyddyn, oherwydd bod y Buddiolwyr amlygwyd gyda chyflyrau dwysach, a'r cymorth priodol angen ei gynnig o fannau eraill.
- Er y llwyddiant gafwyd yn y flwyddyn gyntaf gyda chynllun *Genesis*, effeithiodd trefniadau newydd rhaglen *Work Programme* San Steffan ar allu cynlluniau fel *Genesis* i recriwtio buddiolwyr. Serch hynny, symudodd 32 rhiant ymlaen i waith a 57 i addysg bellach.
- Mae Llywodraeth Cymru yn dwyn rhaglen *Genesis* i ben ar draws Cymru yn 2013/14.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Er na lwyddwyd i weithio gyda'r niferoedd uchel o fuddiolwyr a ragwelwyd, mae'r prosiect wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i unigolion sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglenni, fel y tystia sawl llythyr.



# Maes yr Economi – *Bydd Gwynedd yn lle cyffrous i fyw efo cymunedau byrlymus*



## Yma Mae Pethau yn Digwydd

### Cefndir

Mae Yma Mae Pethau yn Digwydd yn ymateb i:

- Canran poblogaeth oed gwaith y sir yn lleihau.
- Canran allfudo'r rhai 20-34 oed (sef oed magu teulu) , a'r duedd yma dros amser, yn bygwth tanseilio cynaladwyedd yr economi a chymunedau'r sir, yn enwedig rhai rhannnau ohoni megis Meirionnydd.
- Amgyffred pobl ifanc fod popeth cyffrous ac anturus yn digwydd mewn mannau eraill, a thynfa canolfannau dinesig megis Caerdydd.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol dros gyfnod o dair blynedd:

- Cefnogi gweithgareddau a digwyddiadau fyddai'n creu'r ddelwedd o bethau yn digwydd, ac yn ennyn perchnogaeth leol.
- Sicrhau fod digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol wedi eu denu neu eu sefydlu yng Ngwynedd (9 digwyddiad).
- Cefnogi ardaloedd o fewn y sir i ddatblygu digwyddiadau efo'r potensial i gyfrannu at y ddelwedd o fwrlwm (15 digwyddiad).
- Datblygu arbenigedd yr ardal ym maes trefnu a chynnal digwyddiadau, yn enwedig ymysg pobl ifanc a mentrau lleol.

**"Digwyddiad gwych….*buzz* da. Grêt gweld pres yn cael ei dynnu mewn i'r economi leol"**

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Eleni, elwodd yr ardal  o dri digwyddiad proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol, a phump digwyddiad gan yr ardaloedd.
- Cynhaliwyd pum gweithdy hyfforddi i gefnogi cyrff trefnu digwyddiadau yn yr ardal a chychwynnwyd Peilot Gwirfoddoli ar gyfer trigolion Gwynedd.
- Llwyddwyd gyda phartneriaid i gynnig profiadau i bobl ifanc fod yn rhan o drefniadau digwyddiadau, a sefydlwyd amod o fewn cytundebau cyllido digwyddiadau mawr yn mynnu eu bod yn cynnig cyfleon gwirfoddoli i bobl ifanc.
- Lluniwyd rhaglen ar gyfer datblygu gallu mentrau a busnesau lleol i fanteisio ar gyfleon cyflenwi nwyddau a gwasnaethau safonol i ddigwyddiadau mawr.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

- Ar gychwyn y prosiect roedd  14.2% o ymatebwyr Arolwg Busnes Gwynedd yn cytuno fod y sir yn fan lle mae pethau yn digwydd - hanner ffordd trwy 2012/13 roedd y ffigwr wedi codi i 19.1%;
- Roedd cynnydd tebyg yn ymwybyddiaeth busnesau o'r digwyddiadau mawr (o 33 .3% i 39%);
- Tynnwyd £4,994,155 i'r economi leol gan yr wyth digwyddiad a gefnogwyd trwy'r prosiect, gyda 137 o gwmniau o Wynedd yn derbyn gwaith neu gonsesiynau.



## Maes yr Economi – *Bydd Gwynedd yn lle cyffrous i fyw hefo cymunedau byrlymus*

# Bywiocáu a Gwella Delwedd Canol Trefi

## Cefndir

Mae Bywiocau a Gwella Delwedd Canol trefi yn ymateb i'r canlynol:

- Demograffi anghytbwys y sir, a'n bod yn colli pobl leol oed gwaith, gyda pheryg i rai ardaloedd fod heb boblogaeth ddigonol i gynnal economi a chymdeithas.
- Tanseilio pwrpas trefi fel canolfannau gwaith a gwasanaeth gan wanhau bywiogrwydd cymunedol a chyfrannu at dueddiadau allfudo o fannau ar draws y sir.
- Dirywiad canol trefi oherwydd bod:
  - Y stryd fawr bellach gyda siopau gwag ac eiddo blêr.
  - Arferion siopa trigolion wedi newid gyda chynnydd mewn teithio i ganolfanau pwrpasol ar gyrion trefi, a siopa ar-lein.
- Y dirwasgiad economaidd wedi taro'r sector mânwerthu wrth i gyllidebau pobl a'u teuluoedd grebachu.
- Bygythiad pellach yn deillio o dorri ar wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Yr angen i ddiffinio rôl trefi gwledig ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain

## Beth gafodd ei gyflawni?

- Darlun clir gennym o faint hyfyw ardal siopa o fewn canol trefi yn dilyn astudiaeth ar gapasiti mânwerthu – sail i gynllunio yn ddeallus ar gyfer dyfodol y stryd fawr a'r defnydd ohoni.
- Cafwyd treial i adnabod potensial siopau gwag trwy sefydlu *"siopau unnos" ("pop-ups")* ym Methesda, a chytunwyd i dreialu lluniau feinyl yn ffesnestri siopau yn Nefyn fel modd o roi gwedd mwy prysur a bywiog i'r canol.
- Cytunwyd ar fentrau siopau gwag gydag ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.
- Rhoddwyd sylw i olwg 29 eiddo gan sbarduno buddsoddiad sector breifat, yn cynnwys adeiladau masnachol a'u hamgylchedd yn nhref Llanberis, gan hefyd baratoi cynlluniau ar gyfer Bethesda, a chael syniadau gwella gan drefi'r Bala, Dolgellau, Harlech ac Abermaw.
- Cynhaliwyd ymgyrch farchnata trwy'r cyfryngau i hyrwyddo siopa'n lleol, gan hefyd gynnal digwyddiadau ynghanol wyth o drefi'r sir gan gynnwys Pwllheli, Blaenau Ffestiniog a Bangor.
- Er na lwyddwyd i gyrraedd y disgwyliad o roi cyngor arbenigol i 14 busnes mânwerthu yn 2012/13, fe gwblhawyd naw adolygiad busnes gan gymeradwyo saith grant a diogelu 10 o swyddi.

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae'r mannau sydd wedi derbyn sylw yn werthfawrogol, ac mae'r gwelliant i ddelwedd yr ardal siopa yn y mannau hynny yn amlwg i'w weld.

Mae'n rhy gynnar i ddangos pa wahaniaeth fydd y gwaith yn ei wneud i fywiogrwydd trefi, eu hardaloedd siopa a'r cymunedau.



## Dangosyddion Maes

### 1.2 O le ydan ni'n cychwyn, sef ein Gwaelodlin? A lle fyddwn ni wedi cyrraedd erbyn 2014?

*(Y targed rydan ni'n osod i'n hunain erbyn 2014 er mwyn cyrraedd at y newid)*

| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Data diweddaraf** |
|---|---|---|
| **Canlyniad 1** | | |
| Cymhareb **nifer swyddi gwag i hawlwyr JSA** : Gwynedd/Cymru/DG *(Cynnydd)* | Gwynedd – 0.20,<br>Cymru – 0.23,<br>PF – 0.21 (Mehefin 2010) | Gwynedd – 0.28,<br>Cymru – 0.20,<br>PF – 0.22 (Mehefin 2012) |
| Cymhareb **nifer swyddi gwag i hawlwyr JSA**: 3 Ardal Gwynedd *(Cynnydd)* | Arfon – 0.19,<br>Dwyfor – 0.42, Meirionnydd – 0.12 (Mehefin 2010) | Arfon – 0.27,<br>Dwyfor – 0.48, Meirionnydd – 0.21 (Mehefin 2012) |
| % swyddi yn ôl diwydiant yng Ngwynedd *(Cynnydd mewn amrywiaeth, gyda'r rhai isaf yn cynyddu presenoldeb)* | Gwynedd:<br>Amaethyddiaeth a physgota – 0.6%, Adeiladu – 4.5%, Bancio, cyllid, yswiriant ayb. – 8.6%, Egni a dŵr – 1.2%, Dosbarthiad, gwestai a thai bwyta – 31.2%, Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg & iechyd – 37.3%, Cynhyrchu – 7.6%, Trafnidiaeth a chyfathrebu – 3.6%, Gwasanaethau eraill – 5.3% (2008) | Mae'r 'BRES' wedi cymryd lle'r 'ABI' ers 2008 (gweler y ffigyrau isod). |

| | | |
|---|---|---|
| | Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota – 0.4%, Mwyngloddio, chwarela a gwasanaethau – 2.1%, Gweithgynhyrchu – 7.0%, Adeiladu – 4.8%, Crefftau modur – 1.2%, Cyfanwerthu – 2.2%, Manwerthu – 13.7%, Trafnidiaeth a storio – 2.7%, Gwasanaethau llety a bwyd – 13.6%, Gwybodaeth a chyfarthrebu – 1.9%, Ariannol ac yswyriant – 1.7%, Eiddo – 0.7%, Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol – 2.7%, Gweinyddu busnes a chefnogi gwasanaethau – 3.1%, Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill – 4.0%, Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd – 38.1% (2008 – BRES) | Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota – 0.3%, Mwyngloddio, chwarela a gwasanaethau – 2.6%, Gweithgynhyrchu – 6.9%, Adeiladu – 5.0%, Crefftau modur – 1.5%, Cyfanwerthu – 2.5%, Manwerthu – 12.7%, Trafnidiaeth a storio – 2.7%, Gwasanaethau llety a bwyd – 11.9%, Gwybodaeth a chyfarthrebu – 1.8%, Ariannol ac yswyriant – 1.7%, Eiddo – 1.2%, Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol – 3.1%, Gweinyddu busnes a chefnogi gwasanaethau – 2.2%, Celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill – 5.2%, Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd – 38.7% (2011 – BRES) |
| Cyflog cymharol Gwynedd (tâl llawn amser gros wythnosol) *(Cynnydd)* | Gwynedd – 81.4% o ffigwr y DU (2009) | Gwynedd – 84.7% o ffigwr y DU (2012) |
| Cynnydd mewn goroesiad busnesau - Cymhareb genedigaethau i farwolaethau busnesau: Gwynedd/Cymru/DG | Gwynedd – 1.12,<br>Cymru – 1.06,<br>DU – 1.23 (2008) | Gwynedd – 1.11<br>Cymru – 0.98<br>DU – 1.14 (2011) |
| Cofrestriadau TAW:<br>▪ Indecs Gwynedd/ Cymru/DG;<br>▪ Nifer Gwynedd<br>*(Cynnydd)* | Indecs Gwynedd 115.7, Cymru 119.8, DU 124.5 (2010) *(2005 = 100)*<br>Nifer Gwynedd – 6,250 (2010) | Indecs Gwynedd 116.8, Cymru 118.6, DU 126.3 (2012)<br>Nifer Gwynedd – 6,305 (2012) |

| | | |
|---|---|---|
| **Canlyniad 2** | | |
| Nifer Hawlwyr JSA dan 25 oed *(Lleihad)* | Gwynedd – 625, sef 30.5% o'r holl hawlwyr (Gorffennaf 2010) | Gwynedd – 620, sef 28.4% o'r holl hawlwyr (Gorffennaf 2012) |
| % o'r bobl oed gwaith sydd mewn gwaith *(Cynnydd)* | Pobl sy'n economaidd weithgar – 71.7% pobl mewn gwaith – 67.6% | Pobl sy'n economaidd weithgar – 71.3%, pobl mewn gwaith – 66.7% (2011) |
| Incwm Canolrifol aelwydydd Gwynedd a'i 3 Ardal – cymhariaeth efo Cymru a'r DG *(Cynnydd)* | Gwynedd – £24,878, Arfon – £25,305, Dwyfor – 24,792, Meirionnydd – £24,360, Cymru – £26,469, DU – £29,365 (2009) | Gwynedd - £22,369, Arfon - £23,796, Dwyfor - £21,712, Meirionnydd - £20,861, Cymru - £24,848, DU - £28,318 (2012) |
| Cyfradd plant Gwynedd mewn teuluoedd di-waith *(Lleihad)* | Gwynedd – 188 o bob 1,000 plentyn, Cymru – 256, DU – 238 (2008/09) | Gwynedd – 183 o bob 1,000 plentyn, Cymru – 259, DU – 240 (2010/11) (ar sail amcangyfrifon poblogaeth 2010, felly tebyg fod y gwir gyfradd mymryn yn is oherwydd twf mewn poblogaeth erbyn 2011) |
| **Canlyniad 3** | | |
| Poblogaeth oed gwaith (16-64) Gwynedd fel % o'r boblogaeth *(Cynnydd)* | Gwynedd – 62.2% (2009) | Gwynedd – 62.0% (2011) |
| % rhai 20-34 oed sy'n allfudo o Wynedd *(Lleihad)* | Gwynedd – 13.5% (2008/09) | Gwynedd – 14.7% (2010/11) |
| % Bodlonrwydd trigolion ardaloedd Gwynedd o ran byw yn y sir a'r ddarpariaeth gwasanaethau | | (Bydd rhywfaint o wybodaeth sylfaenol o'r Arolwg Panel Trigolion ar gael ym mis Rhagfyr) |

# Plant a Phobl Ifanc

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Plant a Phobl Ifanc yn 2012/13 oedd:

*Bydd Gwynedd yn lle sy'n rhoi'r cyfleoedd a phrofiadau gorau mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed.*

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

*Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd.*



# Plant a Phobl Ifanc - *Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd.*

## Cyflwyniad

Roedd y Cyngor yn amau nad oedd trefniadau o fewn y gwasanaethau yn cyfarch ein gallu i wireddu'r canlyniad rydym yn anelu ato.  Plant a phobl ifanc Gwynedd yw dyfodol y sir ac mae darparu ar eu cyfer yn allweddol i ffyniant y sir.

## Pam fod angen gweithredu?

- Mae rhai plant, pobl ifanc a theuluoedd yn wynebu anfantais oherwydd tlodi.
- Nid yw rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol integredig sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.
- Nid yw plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.
- Nid yw rhai plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir.
- Nid yw pob person ifanc yn cael mynediad gwell at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol sy'n rhoi cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro a mwynhau.


## Ffactorau perthnasol

- Gostyngiad mewn niferoedd disgyblion yn arwain at lefydd gweigion mewn ysgolion.
- Ansawdd arweinyddiaeth o fewn ein hysgolion yn amrywio.
- Cyflwr presennol yr economi - oddeutu traean o holl hawlwyr budd-dal 'Job Seekers Allowance' yng Ngwynedd wedi bod o dan 25 oed ers Gorffennaf 2008.

## Sut 'rydan ni'n cymharu ag eraill?

Mae arolwg cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru wedi holi pobl am eu barn ar y system addysg ym mhob awdurdod lleol. Gwelir o'r graff isod fod barn pobl o system addysg Gwynedd yr ail orau drwy Gymru yn ystod y cyfnod 2012-13.

Cyflwr addysg yn ôl awdurdod lleol (a)




(a) Rhoddwyd atebion ar raddfa rhwng dim (eithriadol o wael) a deg (eithriadol o dda)

## Beth sydd wedi gweithio?

Roedd saith prosiect mawr ar waith yn y maes Plant a Phobl Ifanc yn ystod y flwyddyn.

Cyflawnwyd y canlyniadau yn 69% o ffrydiau gwaith y prosiectau hynny, gyda 25% yn gwneud cynnydd derbyniol. Mae'r manylion llawnach ar y prosiectau hynny yn y tudalennau sydd yn dilyn.

- Ysgol ardal newydd Craig y Deryn wedi ei hadeiladu.
- Cytundeb i sefydlu consortiwm cynllunio a darparu addysg a hyfforddiant ôl-16.
- Canolfan Llwybrau Ni ar gyfer disgyblion efo anghenion ymddygiadol dwys a chymleth wedi ei agor.
- Sefydlwyd Tim o Amgylch y Teulu ar draws y sir.
- Tim integredig ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ei sefydlu ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a gwael.
- Cynnydd yn y nifer o achrediadau sy'n cael eu hennill gan bobl ifanc.

Mae'r manylion llawnach ar y prosiectau hynny yn y tudalennau sydd yn dilyn.

"Mewn cydweithrediad â'n partneriaid rydym wedi cychwyn gosod sylfaen gref ar gyfer codi safon addysg a gwella bywydau pobl ifanc yn y sir"



**Y Cynghorydd Sian Gwenllian**

## Pwy sydd wedi elwa?

Llwyddwyd i leihau y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

Rhagorwyd ar y targed o 3.6% ar gyfer % y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant, gyda chanlyniad o 3.04% yn 2012/13.

Llwyddwyd hefyd i ragori ar y targed ar gyfer y canran o blant yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 oedd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n llwyddo i ennill y Dangosydd Pwnc Craidd (Mathemateg, Gwyddoniaeth ac un Iaith).

Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed 72% ar gyfer canran y plant tair oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi gwneud cynnydd datblygiadol ers eu hasesiad Atodlen o Sgiliau Tyfu (SOGS) yn ddwy oed.

## Partneriaid

Y partneriaid allweddol yn y maes hwn yw:

- Yr ysgolion
- Y Colegau
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Awdurdod Lleol Ynys Môn

## Unrhyw wybodaeth arall

Yn ogystal â'r prosiectau eu hunain, yn ystod y flwyddyn, bu'r Cyngor yn cynnal Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg o fewn y sir.

Bydd canlyniadau'r ymchwiliad hynny yn dylanwadu ar gynlluniau'r Cyngor yn y maes yn ystod 2013/14.

# Maes Plant a Phobl Ifanc – Cyfleoedd a phrofiadau teg i holl blant a phobl ifanc Gwynedd.

## Torri'r Cylch – Gyda'n Gilydd

### Cefndir

Mae Gyda'n Gilydd yn ymateb i:

- Fynediad anghyson at gefnogaeth i deuluoedd.
- Fylchau sylweddol yn y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i rieni plant anabl; rhieni gyda phlant yn eu harddegau; rhieni gydag anghenion corfforol, iechyd a/neu emosiynol dwys a rhieni sy'n ddi-waith.
- Asiantaethau yn dueddol i roi sylw i'r un teuluoedd, yn cynnig gwasanaethau arbenigol ond ar wahân, gan olygu ymweliadau lu efo'r un teuluoedd, a dyblygu adnoddau cyhoeddus prin.

"Mae wedi bod gymaint o help i gael y gwasanaethau i gyd i drafod a chysylltu efo'i gilydd i drafod ein anghenion ni"

"Diolch o galon i chi am fy helpu. Mae'r profiad wedi fy nghyffwrdd i'n fawr gan does neb wedi fy helpu fel hyn o'r blaen. Dydi fy nheulu ddim isio gwybod."

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Am y tro cyntaf cafodd trefn o gydweithio agos ei sefydlu, a gwasanaeth un cyswllt, rhwng y prif asiantaethau cyhoeddus lleol er mwyn cefnogi teuluoedd gydag amryfal anghenion.
- Cafwyd model newydd ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu cefnogaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd bregus – gyda'r teuluoedd hefyd yn eglur o'r gefnogaeth ar gael iddyn nhw.
- Sefydlwyd y Tîm o Amgylch y Teulu ar draws y sir, gyda galw sy'n cynyddu o fis i fis.
- Cafodd 61 o weithwyr rheng flaen eu hyfforddi yn barod ar gyfer cefnogi teuluoedd
- Cafodd 57 o deuluoedd eu cefnogi yn unol â'u anghenion mewn 6 mis (sef 3 yn is na'r targed blynyddol).
- Oherwydd yr oedi fu efo cychwyn y prosiect fe fethwyd y targed o 60 ar gyfer y flwyddyn (o dri teulu) – ond oherwydd y galw am y gwasanaeth rhagwelir y bydd

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

- Er ei bod yn ddyddiau cynnar, mae teuluoedd yn adrodd e.e fod plant yn mynd yn fwy rheolaidd i'r ysgol .
- Heb y gwasanaeth yma byddai teuluoedd bregus yn parhau i gesisio cymorth o wahanol lefydd ac yn gorfod delio efo llu o asiantaethau a threfniadau gwahanol gan symleiddio'r drefn. Mae cael un cyswllt wedi profi yn fwy effeithiol ac yn cael ei werthfawrogi gan y teuluoedd a'r asiantaethau cefnogol.

# Maes Plant a Phobl Ifanc – *Cyfleoedd a phrofiadau teg i holl blant a phobl ifanc Gwynedd*

Torri'r Cylch – Pontio

## Cefndir

Mae Pontio yn ymateb i'r canlynol:

- Canran y bobl ifanc yng Ngwynedd nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (NEET) sydd wedi aros mwy neu lai yn gyson is na chyfartaledd Cymru, ond wedi codi erbyn 2018.
- Ansicrwydd ynglŷn a'r duedd yn y ganran o bobl ifanc NEET i'r dyfodol.
- Heriau ac amgylchiadau dwys yn wynebu pobl ifanc yn y garfan yma a'u teuluoedd.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

Cyflwyno model gweithredu newydd er mwyn cefnogi'r garfan hon o bobl ifanc rhwng 11 ac 19 oed a'u teuluoedd.

## Beth gafodd ei gyflawni?


- Model newydd wedi ei sefydlu ac yn weithredol (Medi 2012).
- 65 o bobl ifanc a'u teuluoedd wedi derbyn cefnogaeth, a 23 arall wedi cychwyn ymuno efo'r cynllun.
- Llif rheolaidd o bobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth a gynigir gan y prosiect.
- Ni lwyddwyd i gyrraedd targed y flwyddyn o 79 o bobl ifanc a'u teuluoedd wedi derbyn cefnogaeth; roedd y targed yn un am 12 mis yn hytrach na'r chwe mis y bu'r prosiect yn weithredol;

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

**"Nes i rioed feddwl bydda trafod yn gwneud cymaint o wahaniaeth ac yn fy annog i neud petha."**

**"Rôn i'n teimlo'n wirioneddol flin yn y dosbarth ddoe… ond fe wnes i drio be oeddech chi di ddeud wrthoi am neud a wir mi ddaru o weithio, a felly nes i ddim colli nhymer".**

- Cynnig profiadau newydd i'r bobl ifanc er mwyn annog ysgwyddo hunan-gyfrifoldeb e.e. gwaith amgylcheddol, profiadau celfyddydol, cyrsiau *Potensial* ,a gweithgareddau Cynllun Dug Caeredin.
- Adroddodd y bobl ifanc eu bod wedi gweld cynnydd ymhob un o'r rhain: cydweithio (36.94%), cymhelliant (36.94%), annibyniaeth (33.33%) a pharch at eraill (33.33%).



## **Maes Plant a Phobl Ifanc –** *Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd*

### Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Anabl a Gwael

## Cefndir

Mae Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Anabl a Gwael yn ymateb i'r anghenion canlynol:

- Adlewyrchu dymuniad defnyddwyr a gofalwyr.
- Adlewyrchu'r ymarfer gorau yn y maes.
- Sicrhau gwerth am arian o fewn cyd-destun toriadau ac arbedion.
- Darparu gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol integredig yng Ngwynedd.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

Datblygu'r Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Anabl a Gwael er mwyn darparu gwasanaethau integredig i deuluoedd  Gwynedd.

## Beth gafodd ei gyflawni?

- Tîm integredig Derwen ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ei sefydlu ac yn darparu asesiadau a gwasanaethau ar y cyd i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd.


- Trefniadau wedi eu gosod i gasglu barn defnyddwyr a'u teuluoedd.

- Gwaith pellach i'w wneud i lunio strategaeth ymgysylltu Adrannol i ddod â'r holl agweddau ynghyd.

Ni fu cynnydd ar gynllunio i gynnwys gwasanaethau addysg yn llawn yn y trefniant cydweithio ffurfiol. Mae'r penderfyniad wedi ei wneud i roi'r angen yma o'r neilltu hyd nes y bydd newidiadau perthnasol yn yr Adran Addysg wedi digwydd

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

- Gwella profiad teuluoedd a phlant.
- Darparu mynediad i wybodaeth yn gynt.
- Cynnal ymateb buan i deuluoedd.



# Maes Plant a Phobl Ifanc – *Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd*

Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gyda Phroblemau Ymddygiad

## Cefndir

Mae Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gyda Phroblemau Ymddygiad yn ymateb i: Gyflwr anaddas adeiladau Ysgol Coed Menai ac Unedau Brynffynnon, Brynllwyd a Glanwnion: ar gyfer disgyblion gyda phroblemau ymddygiad. Oeddynt ychwaith yn cynnwys y mathau o gyfleusterau ac adnoddau a geir mewn ysgolion arferol i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu i'r rhai sy'n eu mynychu.

Sefyllfa gwariant y Cyngor yn 2009 / 10 oedd £1,805,083 ar wasanaethau cynnal ymddygiad ar gyfer oddeutu 220 o ddisgyblion a rhagwelwyd y byddai'r nifer gydag anghenion emosiynol a phroblemau ymddygiad sydd angen cefnogaeth yn cynyddu.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Sefydlu darpariaeth i blant ag anghenion emosiynol a chymdeithasol dwys.
- Disodli'r gwasanaeth o fewn Ysgol Arbennig Coed Menai ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yr Awdurdod.
- Sefydlu dull o ddatganoli cyllid i gryfhau darpariaeth i blant bregus â phroblemau ymddygiadol o fewn ysgolion prif lif.

## Beth gafodd ei gyflawni


Mae Ysgol Coed Menai wedi cau ar ddiwedd y flwyddyn addysgol ac mae Canolfan Llwybrau Ni wedi agor yn Llanwnda sydd yn darparu addysg i ddisgyblion ag anghenion ymddygiadol dwys a chymhleth.

Mae pob Ysgol Uwchradd yng Ngwynedd yn derbyn gwasanaeth gan y Cyngor er mwyn eu galluogi i weithredu eu strategaethau ar gyfer cefnogi a chynnal disgyblion gyda phroblemau ymddygiad yn llawn o fewn eu sefydliadau gyda trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer cydlynu a hwyluso mynediad disgyblion gyda phroblemau ymddygiad at y gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael iddynt o fewn ysgolion.

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

- Llwyddwyd i leihau y nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd o'r ysgol gan bob gwaharddiad cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion ers 2011/12.

DGD18 Nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd o'r ysgol gan bob gwaharddiad cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion



## Maes Plant a Phobl Ifanc – *Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd*

Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

### Cefndir

Mae Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ymateb i'r:

- Cynnydd yng nghanran y disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n derbyn cymorth un ai drwy Ddatganiad neu'r Cynllun 3* o 3.93% yn 1998 i 6.63% yn 2009 gyda'r duedd yma yn debygol o barhau i'r dyfodol.

  Roedd hyn, yn ei dro, wedi arwain at orwariant anghynaladwy yng nghyllideb integreiddio'r Cyngor.

- Angen i sicrhau fod plant a phobl ifanc gydag ADY yn cael y cychwyn gorau ac yn derbyn gofal da er mwyn iddynt gyflawni eu potensial dysgu llawn.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

Penderfynu ar fodel mwyaf addas ar gyfer darparu cefnogaeth a phrofiadau i blant a phobl ifanc gydag ADY.

**"cred o leiaf 83% o'r sampl o rieni bod angen gwelliant i'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol"**

### Beth gafodd ei gyflawni?

Yn anffodus ni lwyddwyd i benderfynu ar y model mwyaf addas ar gyfer darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc gydag ADY.

Bydd y gwaith yn parhau o fewn y Cynllun Strategol 2013-17.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Byddwn yn rhoi sylw i ddangos effaith wrth weithredu'r prosiect o fewn Cynllun Strategol 2013-17.

# Maes Plant a Phobl Ifanc – *Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd*

Trawsnewid Addysg Gynradd ac Uwchradd

## Cefndir

Mae Trawsnewid Addysg Gynradd ac Uwchradd yn ymateb i'r:

- Lleihad yn niferoedd disgyblion Ysgolion Cynradd o 21% ers 1975 gyda phob dalgylch wedi gweld lleihad o 11% o leiaf.
- 55% o ysgolion cynradd Gwynedd oedd â mwy na 25% o'u lleoedd heb eu llenwi.
- Gwariant ar gynnal adeiladau gwael, nifer uchel o safleoedd ar draws y Sir ac ar lefydd gweigion.
- Lleihad graddol ym mhoblogaeth Ysgolion Uwchradd y Sir ers 1975 gyda'r duedd yn debygol o barhau i'r dyfodol.
- Her o ymateb yn llawn i'r gofyn i warantu lleiafswm dewis o gyrsiau i ddysgwyr.

Ysgol Craig y Deryn



## Beth gafodd ei gyflawni?

- Ysgol Craig y Deryn wedi ei hadeiladu. Bydd yn agor fis Medi 2013 ac yn gwasanaethu dalgylchoedd Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril.
- Yn dilyn ffederaleiddio Ysgolion Corris a Phennal a hefyd Ysgolion Coedmawr a Glanadda, mae trefniadau cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigeddau rhwng ysgolion wedi eu sefydlu.
- Cytundeb yn ei le ymysg partneriaid ar gyfer sefydlu'r Canolfan Ragoriaeth Addysg Arbennig cyfrwng Cymraeg.
- 
- Bu oedi wrth:
  - Symud y gwaith o sefydlu ysgol aml-safle ym Mrithdir a Dinas Mawddwy.
  - Gychwyn gwaith yn ardal ddwyreiniol dalgylch Dolgellau
  - Gynnal trafodaethau i gael cynllun yn ei le i sefydlu ysgol Gymuned Ddysgu Gydol Oes yn nhref Dolgellau.

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae'n rhy gynnar i ddangos pa wahaniaeth fydd y gwaith yn ei wneud i fywydau unigolion yng Ngwynedd.

## Maes Plant a Phobl Ifanc – *Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd*

### Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant Ôl-16

Mae Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn ymateb i'r:

- Gofyn i drawsnewid y drefn ar gyfer dysgu 16-19 oed.
- Angen i Awdurdodau Lleol, ysgolion a cholegau gydweithio er mwyn sefydlu a chyd-gyflwyno Cwricwlwm Lleol, a hynny yn hytrach na chystadlu am ddysgwyr.
- Angen i gysylltu'r cwricwlwm gydag anghenion yr economi.
- Gostyngiad i'r dyfodol yn niferoedd dysgwyr ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn yn gostwng i'r dyfodol.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

Datblygu model Consortiwm Ffurfiol fyddai'n ymateb i'r heriau hyn.

**"Rwyf o'r farn ei fod o'n beth da fod ysgolion a cholegau yn cydweithio oherwydd fod ysgolion yn medru cynnig pynciau gwahanol i'r hyn fyddai ar gael ganddynt fel arall"**

## Beth gafodd ei gyflawni?

- Cytundeb ar Egwyddorion Cydweithio ac Amcanion Strategol y Consortiwm - gyda'r nod o sefydlu Gwynedd ac Ynys Môn fel ardal o ragoriaeth ar gyfer dysgu ôl-16.
- Y Model wedi ei gytuno.
- Cais cyllid Ewropeaidd i sefydlu'r drefn newydd wedi ei gyflwyno;.
- Cabinet y Cyngor wedi cytuno i'r Cyngor weithredu fel y Corff Arweiniol ar gyfer y Consortiwm Addysg a Hyfforddiant Ôl-16.

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae'n rhy gynnar i ddangos pa wahaniaeth fydd y gwaith yn ei wneud i fywydau unigolion yng Ngwynedd.


## Maes Plant a Phobl Ifanc – *Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd*

# Trawsnewid Profiadau a Chyfleoedd i Bobl Ifanc

## Y stori tu ôl i'r perfformiad

Mae Trawsnewid Profiadau a Chyfleoedd i Bobl Ifan yn ymateb i'r:

Angen i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu'n oedolion ifanc hyderus, llwyddiannus ac annibynnol.





## Pa wahaniaeth rydan ni wedi'i wneud?

Debyniodd 628 o bobl ifanc Gwynedd achrediad cydnabyddedig drwy'r gwasanaeth Ieuenctid. Mae pob person ifanc sy'n ennill achrediad yn derbyn tystysgrif yn Noson Wobrwyo Pobl Ifanc Gwynedd sy'n cael ei chynnal yn flynyddol i ddathlu llwyddiannau ein pobl ifanc.

**"Dwi wedi enjoio y flwyddyn a hanner fel Prentis yn y Gwasanaeth Ieuenctid a gobeithio bydd y profiadau yma yn helpu mi i gael swydd yn y dyfodol"**

## Lle 'rydan ni wedi cyrraedd

- Cynnydd o 19% ers y llynedd yn y nifer o achrediadau sy'n cael eu hennill gan bobl ifanc, gan gynnwys achrediadau agored Cymru, Gwobrwyon Cyflawniad Ieuenctid, Gwobr Dug Caeredin a Gwobr John Muir
- Cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sy'n gweithgarwch gwirfoddol drwy gyfleoedd gan y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae Cynllun Gwirfoddolwyr Ifanc yn cefnogi pobl ifanc i wirfoddoli yn y Cyngor, gan gychwyn gyda creu lleoliadau gwirfoddol mewn Canolfannau Hamdden.
- Cafodd peilot ei sefydlu yng Nghaernarfon, gyda'r Ganolfan Fyd Gwaith i gefnogi pobl ifanc 16-24 oed i symud ymlaen i waith. Mae chwe pherson ifanc wedi cwblhau y peilot parodrwydd i waith ac un bellach wedi llwyddo i sicrhau swydd. Bydd y cynllun yn datblygu i Borthmadog a Bangor yn fuan.
- Cafodd rhwydwaith o bump Gweithiwr Ieuenctid Mewn Ysgolion ei sefydlu i gynnig cefnogaeth a gwasanaeth ychwanegol i bobl ifanc tra yn yr ysgol, drwy ddatblygu sgiliau bywyd a gwaith.
- Sefydlwyd cynllun Prentisiaeth yn y Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn rhoi y cyfle i bobl ifanc 16-19oed ennill cymwysterau a phrofiad galwedigaeth mewn Gwaith Ieuenctid.






*Noson wobrwyo Pobl Ifanc Gwynedd*

## Dangosyddion Maes

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais |
|---|---|---|---|---|---|
| GY04 | Y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 | 12.13% | 26.83% | 13.70% | Lleihau |
| GY05 | Y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 3 | 34.26% | 31.24% | 26.62% | Lleihau |
| DGD14 | Canran y plant 3 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi gwneud cynnydd datblygiadol ers eu hasesiad SOGS (Atodlen o Sgiliau Tyfu) yn 2 oed | 72.40% | - | 51.90% | Cynyddu |
| DGD15 | Canran y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n llwyddo i ennill y Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 | 42.10% | 48% | 61% | Cynyddu |
| DGD16 | Canran y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n llwyddo i ennill y Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 | 23.10% | 36% | 45% | Cynyddu |
| DGD18 | Nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd o'r ysgol gan bob gwaharddiad cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion | 129.01 | 103.9 | 95.18 | Lleihau |
| DA08 | Amrediad maint dosbarthiadau mewn Ysgolion Cynradd | 5 i 33 | 5 i 34 | 9 i 32 | Lleihau |
| DGD17 | % y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant | 3.60% | 3.60% | 3.06% | Lleihau |

# Amgylchedd ac Isadeiledd

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Amgylchedd yn 2012/13 oedd;

*Hybu amgylchedd sy'n ddiogel, gyda thai addas a chysylltiadau hwylus a defnyddiol i Wynedd a'i thrigolion yn wyneb newidiadau yn lleol ac yn y byd o'n cwmpas.*

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

- *Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy*
- *Cyflenwad o dai addas yn y Sir*
- *Cysylltiadau hwylus a defnyddiol*



# Yr Amgylchedd – *Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaladwy / Cyflenwad o dai addas yn y sir / Cysylltiadau hwylus a defnyddiol*

## Cyflwyniad

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Amgylchedd ac Isadeiledd yw hybu amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy, gyda thai addas a chysylltiadau hwylus a defnyddiol i Wynedd a'i thrigolion yn wyneb newidiadau yn lleol ac yn y byd o'n cwmpas.

## Pam fod angen gweithredu?

Mae angen:

- Ymateb i dargedau cenedlaethol er mwyn lleihau gwastraff sy'n mynd i'w dirlenwi.
- Lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil o fewn y Sir.
- Sicrhau fod pobl sy'n byw mewn ardaloedd o dan fygythiad o lifogydd yn ymwybodol o'r risg.
- Cynyddu y cyflenwad o dai addas sydd ar gael yn y Sir gan sicrhau gwell mynediad i dai fforddiadwy, i'w berchen a'i rentu.
- Sicrhau bod darpariaeth cludiant yn cwrdd yn well ag anghenion defnyddwyr.
- Lleihau'r problemau a achosir gan gŵn yn baeddu.

"Bu cynnydd yn y niferoedd o dai fforddiadwy ac unedau tai gwag a ddaeth yn ôl i ddefnydd yn y Sir o ganlyniad i ymdrechion y Cyngor yn y maes tai. Yn ogystal fe gysylltwyd ardal Nantlle a'r rhwydwaith nwy a gwnaed gwelliannau i effeithlonrwydd ynni y stoc dai o ganlyniad i gais llwyddiannus i gronfa ARBED2 Llywodraeth Cymru."





**Cynghorydd John Wyn Williams**

## Ffactorau perthnasol

- Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff bwrdeistrefol – 46.42% yn 2011/12.
- Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff masnachol – 17% yn 2011/12.
- Prisiau a fforddiadwyedd tai - Ar gyfartaledd mae pris tŷ yng Ngwynedd yn £132,000 ac incwm canolrif aelwyd yn £22,369 (2012). Golyga hyn fod prisiau tai 5.7 gwaith yn fwy nag incwm cyfartalog aelwyd.
- Eiddo ac unigolion sydd mewn perygl o lifogydd - 7,500 eiddo a 12,000 o drigolion Gwynedd yn byw mewn perygl o lifogydd.

## Sut 'rydan ni'n cymharu ag eraill?



## Beth sydd wedi gweithio?

Roedd naw prosiect ar waith yn y maes Amgylchedd yn ystod 2012/13.

Cyflawnwyd y canlyniadau yn 57% o ffrydiau gwaith y prosiectau hynny, gyda 33% yn gwneud cynnydd derbyniol. Mae'r manylion llawnach ar y prosiectau hynny yn y tudalennau sydd yn dilyn.

- Cynnydd yn y nifer o unedau tai addas yn y Sir oherwydd Prosiectau Tai Gwag nôl i Ddefnydd a Tai Fforddiadwy.
- Cynnydd sylweddol mewn cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff masnachol o 17% yn 11/12 i 27.30% yn 12/13 oherwydd cyflwyno trefniadau casglu newydd.
- Ardal Nantlle wedi ei chysylltu i'r rhwydwaith nwy gyda 30 o osodiadau solar thermal a 70 o fwyleri ynni effeithlon o ganlyniad i Gynllun ARBED2 Llywodraeth Cymru.
- Cais llwyddiannus i Gynllun ARBED2 er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni tai yn ardaloedd Carmel a Fron.

Mae manylion llawnach ar y prosiectau hynny yn y tudalennau sydd yn dilyn.

"Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae'r Cyngor wedi rhoi camau yn eu lle er mwyn sicrhau cynnydd mewn prosiectau i gynnal a gwella safon yr amgylchedd yng Ngwynedd. Yn ogystal gwnaed arbedion ariannol o weithredu cynlluniau o fewn y Prosiectau Cynllun Rheoli Carbon a'r Strategaeth Wastraff."



**Cynghorydd William Gareth Roberts**

## Pwy sydd wedi elwa?

- Canran o wastraff bwrdeisrefol wedi ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio wedi cynyddu o 46.42% i 51.52% .
- Lleihad o 15.06% wedi bod yn ôl-troed carbon adeiladau cyhoeddus y Cyngor ers blwyddyn waelodlin 2005/06.
- Nifer o dai gwag hirdymor sydd wedi dod yn ôl I ddefnydd wedi cynyddu o 48.
- 72 o unedau fforddiadwy ychwanegol wedi eu sicrhau yn ystod y flwyddyn.

## Partneriaid

Y partneriaid allweddol yn y maes hwn yw:-

- Cymdeithasau Tai (Eryri, Clwyd, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Gogledd Cymru.
- Llywodraeth Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Ymddiriedolaeth Garbon.

## Unrhyw wybodaeth arall

Yn ogystal â'r prosiectau eu hunain, yn ystod y flwyddyn, bu'r Cyngor yn cynnal asesiad o lwyddiannau Cynllun Balchder Bangor i weld a ellir ei addasu a'i ymestyn i ardaloedd eraill yn y sir. Bydd y gwaith yn gosod sylfaen ar gyfer y dyfodol.

## Amgylchedd ac Isadeiledd – *Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy*

Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd

### Cefndir

Mae Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd yn ymateb i:

- Broblem newid hinsawdd ar lefel lleol gan sicrhau lleihad mewn allyriadau carbon ar raddfa llawer mwy na'r targedau sydd wedi eu sefydlu ar lefel genedlaethol, rhyngwladol a byd-eang.

Heb ymateb i'r agenda hyn byddwn yn gadael etifeddiaeth o newid hinsawdd ar raddfa fawr a fydd yn effeithio ar les cenedlaethau'r dyfodol ar draws y byd.

- Yr angen I leihau'r allyriadau carbon sy'n deillio o weithgareddau'r cyrff cyhoeddus sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol* yng Ngwynedd. Cafodd targed uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon o 60% erbyn 2021 ei osod, a Chyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am arwain a chydlynu'r Prosiect.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn ystod 2012-13:
Canolbwyntio ar weithgareddau lleihau allyriadau carbon yn meysydd :

- Ynni mewn adeiladau annomestig
- Teithiau busnes
- Gwastraff
- Sector gymunedol/busnes

**"Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil o fewn y sir"**


### Beth gafodd ei gyflawni?

- Lleihad o 12.91% mewn allyriadau $CO_2$ sy'n deillio o ddefnydd ynni mewn adeiladau annomestig. Roedd hyn yn îs na'r targed o 14% a osodwyd. Y rheswm tebygol nad yw'r targed wedi ei gyrraedd yw fod y tymor gwresogi wedi bod llawer yn hirach ac oerach na'r arfer.**
- Lleihad o 9.3% mewn allyriadau $CO_2$ sy'n deillio o deithiau ar fusnes. Roedd hyn yn îs na'r targed o 20% a osodwyd.** *(Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol eisoes wedi cytuno i addasu'r targed i rhwng 9 a 11%)*
- Gwelwyd lleihad o 638 tunnell $CO_2$ sy'n deillio o weithgareddau gwastraff cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.**
- Cynllun gwaith wedi ei lunio er mwyn sefydlu trefn i gyd-drefnu gweithgareddau lleihau carbon yn y sector gymunedol a busnes ond bydd y lansiad yn digwydd yn 13/14.

*** data ar gyfer 11/12 wedi ei ddefnyddio ar gyfer y sefydliadau sydd heb ddarparu data 12/13.*

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae'n anodd sefydlu'r union wahaniaeth y mae'r cynllun wedi ei wneud ond mae arbedion ariannol tebygol yn gysylltiedig â nifer o'r mesurau sy'n golygu y gall y sefydliadau fuddsoddi mewn gwasanaethau eraill.



## Amgylchedd ac Isadeiledd – *Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy*

Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor

## Cefndir

Mae Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor yn ymateb i:

Newid hinsawdd, sef un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu Cymunedau ar bob lefel yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae gan Lywodraeth Leol, yn ogystal â Llywodraeth Ganolog, y sector fusnes a'r drydedd sector rannau allweddol i'w chwarae i sicrhau bod ein Cymunedau'n cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhaid sicrhau fod lles ein hamgylchedd naturiol yn flaenoriaeth i ni i gyd fel unigolion ac yn enwedig i'r Cyngor, sydd, wrth gwrs, â rhan allweddol mewn arwain cymunedau lleol.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd wedi ymrwymo i darged uchelgeisiol o leihau ei allyriadau carbon o 60% erbyn 2021. Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor hwn yw cyfraniad y Cyngor tuag at y prosiect a'r targed hynny.

Rhan gyntaf yr ymrwymiad yw sicrhau ein bod yn lleihau ein hallyriadau carbon o'n hadeiladau, ein gwastraff, goleuadau strydoedd, teithio busnes a'r fflyd o 30% erbyn 2015.


**"Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil yn y Sir"**

## Beth gafodd ei gyflawni?

- Fe sicrhawyd lleihad o 15.06% yn allyriadau carbon y Cyngor er blwyddyn gwaelodlin 2005/06 o'i gymharu a tharged o 17% a osodwyd. Y prif reswm tebygol nad yw'r targed hyn wedi ei gyrraedd yw'r ffaith i'r tymor gwresogi fod yn llawer hirach ac oerach na'r arfer.
- Cwblhawyd 9 o'r 16 o brosiectau a adnabuwyd ar gyfer eu gweithredu yn ystod y flwyddyn gyda 3 yn llithro i chwarter 1 13/14 a'r gweddill i'w gweithredu yn ystod gweddill 2013/14.

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Roedd arbedion refeniw o oddeutu £178,000 yn gysylltiedig â gweithredu'r mesurau o fewn y Cynllun Rheoli Carbon yn ystod 2012/13 sy'n golygu y gellir buddsoddi mewn gwasanaethau eraill i'r cyhoedd.



# Amgylchedd ac Isadeiledd – *Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy*

## Strategaeth Wastraff

## Cefndir

Mae Strategaeth Wastraff yn ymateb i:
Ofynion Strategaeth Wastraff Cymru sy'n gosod targedau heriol ar y Cyngor o safbwynt rheoli gwastraff. Ceir cyfyngiad ar y gwastraff y gellir ei waredu i safleoedd tirlenwi ynghyd â thargedau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff bwrdeistrefol o 52% erbyn diwedd 2012/13; 58% erbyn diwedd 2015/16 a 64% erbyn diwedd 2019/20.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer casglu gwastraff bwyd o gartrefi ar draws y Sir yn ystod 2012/13.
- Cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer casglu deunyddiau i'w hailgylchu a'u compostio o fusnesau yn y Sir.
- Cynnal ymgyrchoedd penodol wedi eu cynnal mewn archfarchnadoedd ac o fewn cymunedau ar hyd a lled y Sir er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i ailgylchu a chompostio.


## Beth gafodd ei gyflawni?

*Lleihau gwastraff a chynyddu lefelau ailgylchu/compostio*

- Gwelwyd cynnydd yn y lefel o wastraff bwrdeistrefol sydd wedi ei ailddefnyddio/ailgylchu neu gompostio i 51.52% (o 46.42% yn 11/12) ond methwyd cwrdd a'r uchelgais o 53% a osodwyd yn lleol.
- Er na chyrhaeddwyd yr uchelgais a osodwyd ar gyfer gwastraff masnachol sydd wedi ei ailddefnyddio/ailgylchu/compostio (40%) gwelwyd cynnydd sylweddol yn y lefel o 17% yn 11/12 i 27.30% yn 2012/13.

*Trefniadau casglu bwyd yn wythnosol a'i drin*

- Bu cynnydd mewn lefelau cyfranogaeth compostio gwastraff bwyd i gyfartaledd o 40% ond roedd hyn yn brin o'r targed o 50% a osodwyd.
- Casglwyd 3,640 tunnell o wastraff bwyd ar gyfer ei gompostio oedd o dan y targed isafswm o 4,500 tunnell a osodwyd.




## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae trigolion a busnesau yn y Sir wedi elwa o drefniadau casglu newydd sydd wedi hwyluso'r broses o ailgylchu/compostio.

Mewn arolwg o'r Panel Trigolion yn Haf 2012 nododd 95.9% o'r ymatebwyr oedd yn defnyddio'r gwasanaeth casglu bwyd eu bod yn fodlon iawn neu'n fodlon gyda'r gwasanaeth .

Yn yr un arolwg fe nododd 85.3% o ymatebwyr eu bod yn fodlon iawn neu bodlon gyda'r gwasanaeth ailgylchu (bocs glas).

**"Llai o wastraff yn mynd i'w dirlenwi"**

## Amgylchedd ac Isadeiledd – *Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy*

Rheoli Risg Llifogydd

### Cefndir

Mae Rheoli Risg Llifogydd yn ymateb i:

- Asesiad Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd yn dweud fod tua 12,000 o drigolion Gwynedd yn byw mewn perygl llifogydd. Gwynedd yw'r trydydd uchaf ar ôl Conwy a Chasnewydd yn ôl y nifer o bobl sydd mewn perygl llifogydd sylweddol ar raddfa Cymru.

- 7,500 eiddo yng Ngwynedd mewn risg, sy'n ail i Gonwy yn genedlaethol.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Paratoi Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd.
- Cynyddu dealltwriaeth pobl o risg llifogydd, canlyniadau newid hinsawdd a sut, mewn cyfnod o ostyngiad mewn gwariant cyhoeddus, y gall pobl gynorthwyo eu hunain.

**"Pobl o dan fygythiad o lifogydd yn ymwybodol o'r risg"**

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Wyth cymuned yn y Sir (Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Dyffryn Ardudwy, Porthmadog, Pwllheli a Tywyn) wedi eu dewis i gynnal gwaith codi ymwybyddiaeth o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi dioddef problemau llifogydd neu wedi eu hadnabod fel cymunedau sydd â nifer sylweddol o bobl yn byw mewn risg o lifogydd.
- Lefelau ymwybyddiaeth o risg llifogydd a sut i ymateb i'r risgiau hynny wedi eu sefydlu o fewn wyth cymuned.
- Gwaith gyda thrigolion wedi digwydd o fewn yr wyth cymuned er mwyn codi ymwybyddiaeth o risgiau llifogydd a chamau y gellir eu cymryd er mwyn lleihau'r risg.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae trigolion o fewn y cymunedau dan sylw wedi elwa o sesiynau i godi ymwybyddiaeth o risg llifogydd a sut y gallant hwy gynorthwyo eu hunain i liniaru y risigiau.



Yn dilyn y gwaith gyda thrigolion, bu cynnydd o 22% yn y nifer o bobl o fewn y cymunedau a oedd yn pryderu am lifogydd (ac o ganlyniad â gwell ymwybyddiaeth o risg llifogydd). Roedd y cynnydd mwyaf yn ardaloedd Caernarfon a Bangor.

## Amgylchedd ac Isadeiledd – *Cyflenwad o dai addas yn y Sir*

Tai Fforddiadwy

### Cefndir

Mae Tai Fforddiadwy yn ymateb i'r:

- Bwlch blynyddol o 670 o dai fforddiadwy yng Ngwynedd (Fformiwla asesu marchnad dai lleol Llywodraeth Cymru).
- Prisiau tai 5.7 gwaith yn fwy nac incwm aelwyd yng Ngwynedd (pris tŷ yn £132,000 ac incwm canolrif aelwyd yn £22,369 (2012).
- Cynnydd yn y ceisiadau meddiannu morgais yng Ngwynedd rhwng 2010 a 2011 (o 120 i 150)

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Defnyddio grant tai cymdeithasol i adeiladu tai mewn ardaloedd lle mae angen megis Pwllheli, Y Bala a Bangor.
- Darparu cymorth i brynwyr tro cyntaf gael mynediad i'r farchnad dai.
- Dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.


**"Gwell mynediad i dai fforddiadwy, i'w berchen a'i rentu"**

### Beth gafodd ei gyflawni?

- 48 o dai cymdeithasol/rhan berchnogaeth wedi eu cwblhau trwy Grant Tai Cymdeithasol.
- Pwllheli, Y Bala a Bangor wedi gweld datblygiad tai gan gynnwys y cynllun rhan berchnogaeth cyntaf yn y Sir gyda Chymdeithas Dai.
- Wedi lansio cynllun Tai Teg sef cofrestru ar gyfer mynegi didordeb i brynu tŷ neu rhan berchnogaeth yn y Sir
- 12 eiddo gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd ac wedi helpu i gyfarfod ag angen lleol.
- Tri eiddo wedi elwa o Gynllun Achub Morgais a naw wedi elwa o Gymorth Prynu yn ystod y flwyddyn

** Nid yw'r ffigyrau'n cynnwys yr unedau sydd wedi ei datblygu yn breifat drwy'r drefn gynllunio yn 12/13.*

- 30 o unedau darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol wedi eu gosod yn Y Bala sy'n cynnig cyfuniad o ofal a gwasanaeth arlwyo i bobl dros 55 oed.
- 10 teulu wedi symud i gartref newydd ym Mangor sydd wedi golygu eu bod wedi gallu cymryd y cam cyntaf i brynu eu cartref.



# Amgylchedd ac Isadeiledd – *Cyflenwad o dai addas yn y Sir*

## Tai Gwag

### Cefndir

Mae Tai Gwag nôl i ddefnydd yn ymateb i:

Y gyfran uchel o dai gwag sydd yng Ngwynedd o'i gymharu gyda siroedd eraill yng Ngymru (1,178 eiddo gwag hir dymor yn y Sir - Data Treth Cyngor Ebrill 2011).

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Cynlluniau benthyciadau
- Mesurau gorfodaeth
- Cynlluniau grantiau
- Mesurau anogaeth

Gall ymateb yn gadarnhaol yn y maes hyn hefyd gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn y sir.

**"Mwy o gyflenwad tai addas ar gael yn y Sir"**

### Beth gafodd ei gyflawni?


Daeth 48 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn 2012-13 (96 eiddo cronus er dechrau 11/12):

- Un trwy fenthyciad
- Pedwar trwy fesurau gorfodaeth
- 12 trwy grant
- 31 trwy fesurau anogaeth

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cyngor gefnogaeth o £441,000 o gynllun 'Troi Tai'n Gartrefi' Llywodraeth Cymru. Bydd yr arian hyn yn cael ei ddefnyddio ar sail benthyciadau i ddod â 25 o unedau gwag yn ôl i ddefnydd yn 2013/14.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae dod a thai yn ôl i ddefnydd yn gwella golwg yr amgylchedd adeiledig o fewn yr ardaloedd dan sylw.




GOF ECO PLA AMG TRAWS ARB IECH IAITH CDLI

## Amgylchedd ac Isadeiledd – *Cyflenwad o dai addas yn y Sir*

Cynllun ôl-troed carbon tai

### Cefndir

Mae'r Cynllun ôl-troed carbon tai yn ymateb i:

Allyriadau o 345,110 tunnell o $CO_2$ gan adeiladau domestig yn 2012 (Amcangyfrifon Allyriadau CO2 Lleol a Rhanbarthol 2005-2010). Mae cyfran uchel o hyn yn gysylltiedig â gwresogi tai.

Mae 22,554 (38.6%) o gartrefi yng Ngwynedd mewn perygl o dlodi tanwydd (Arolwg Stoc Tai Gwynedd 2004). Rhwng Ebrill 2003 a Medi 2008 roedd cynnydd o 79.5% ym mhrisiau nwy tra bod pris trydan wedi codi o 62% ac mae'r cynnydd hyn wedi parhau ers hynny.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Hyrwyddo cynlluniau ynysu, mapio gweithgareddau effeithlonrwydd ynni.
- Annog manteisio ar gynlluniau grantiau.
- ~~a~~ Paratoi ceisiadau ar gyfer cymorth o gynllun ARBED2 Llywodraeth Cymru.

**"Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil o fewn y sir"**

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Cynllun Yma i Helpu* wedi ei hyrwyddo mewn pump ward yn y Sir.
- System mapio wedi ei ddatblygu sy'n rhoi gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni tai mewn gwahanol ardoloedd a rhoi darlun o fynediad i rwydweithiau nwy.
- Nid oedd modd cwblhau'r Arolwg Tai Sector Breifat a bydd y gwaith hyn yn digwydd yn 2013/14.
- Ni fu'n bosibl cylchredeg gwybodaeth i gartrefi'r Sir ynghylch y 'Cymhelliant Ynni Adnewyddol' gan fod lansiad y cynllun i adeiladau domestig wedi ei ohirio ar lefel genedlaethol.
- Cais llwyddianus wedi ei gyflwyno i gynllun ARBED2 Llywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd Carmel a Fron.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

- Dros 600 o gartrefi wedi elwa o gyngor a/neu fesurau arbed ynni gan Gynllun Yma i Helpu.
- 245 o gartrefi wedi elwa o gyngor ynni yn y cartref gan wardeiniaid ynni yn wardiau Cadnant a Maesgeirchen.
- 265 o osodiadau ynni adnewyddol sy'n elwa o daliadau 'Feed in Tariff' wedi eu gwneud i gartrefi yng Ngwynedd.



GOF ECO PLA AMG TRAWS ARB IECH IAITH CDLl

## Amgylchedd ac Isadeiledd – *Cysylltiadau hwylus a defnyddiol*

Cludiant Integredig

### Cefndir

Mae Cludiant Integredig yn ymateb i:

- Yr angen i sicrhau mynediad i wasanaethau.
- Gwella bodlonrwydd trigolion Gwynedd gyda gwasanaethau bysiau lleol a gyda chludiant cymunedol.

Arolwg Agwedd Preswylwyr Gwynedd (Awst 2009):

- 59% o breswylwyr drigolion Gwynedd yn fodlon gyda'r gwasanaethau bws lleol.
- 54% yn fodlon gyda gwybodaeth trafnidiaeth leol.

Arolwg Bodlonrwydd Cyhoeddus Priffyrdd a Chludiant 2010:

- 55% o'r ymatebwyr yn fodlon gyda cludiant cymunedol.,
- 57.3% yn fodlon gyda'r ddarapariaeth cludiant cymunedol
- 58.96% yn fodlon gyda dibynadwyedd cludiant cymunedol

. Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Ail-ddylunio darpariaeth cludiant cyhoeddus.
- Sicrhau Cludiant Cymunedol dibynadwy a hygyrch.

**"Darpariaeth cludiant yn cwrdd yn well ag anghenion defnyddwyr"**

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Llithrodd yr amserlen ar gyfer dadansoddi'r data bodlonrwydd a defnydd cludiant er mwyn i sefydlu'r man cychwyn. *(Noder fod y data wedi ei ddadansoddi erbyn hyn a mae crynodeb i'w weld yn y graff isod)*
- Mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus ac addysg ardal Dwyfor wedi eu hailfodelu i ddarparu gwasanaethau mewn modd cost effeithiol.
- Sefydlwyd dau gontract newydd ar alw (lle mae cwsmeriaid yn ffonio am ddarpariaeth cludiant ymlaen llaw) yn ardal y Bala yn ystod 12/13.
- Er bod cynllun peilot ar gyfer hyrwyddo rhannu ceir wedi ei adnabod yn ardal Harlech nid oedd y gymuned lleol yn awyddus i symud ymlaen gyda'r cynllun.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

81.52% o holiaduron defnyddwyr yn datgan bod teithwyr yn "fodlon iawn" a fod 8.7% yn"eithaf bodlon" gyda'r ddarpariaeth cludiant cymunedol yn y Sir.



# Amgylchedd ac Isadeiledd – *Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy*

## Gorchmynion Rheoli Cŵn

### Cefndir

Mae Gorchmynion Rheoli Cŵn yn ymateb i:

- Ganlyniadau Arolwg Amgylchedd ɨ Panel Trigolion Gwynedd lle y nododd 55.5% o 810 o ymatebwyr bod baw cŵn yn broblem neu'n broblem fawr o fewn eu cymunedau.
- Yr angen i weithredu pwerau gwahardd cŵn ar draethau yn gyson ar draws y Sir
- Yr angen i wahardd cŵn rhag mynd ar direoedd lle mae plant yn chwarae.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

Gwneud gwaith paratoadol er mwyn gallu cyflwyno trefn Gorchmynion Rheoli Cŵn newydd ar y 1af o Ebrill 2013.

**"Lleihad yn y problemau a achosir gan gŵn yn baeddu"**

### Beth gafodd ei gyflawni?

- Trefn Gorchmynion Rheoli Cŵn drafft wedi ei llunio.
- Ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal am gyfnod o chwech wythnos yn ystod hydref 2012.
- Ymgyrch codi ymwybyddiaeth sylweddol wedi ei chynnal ar y wefan, Newyddion Gwynedd, y Wasg leol, radio, trwy siambrau masnach ayb yn ogystal â chyfarfodydd gyda phobl oedd â diddordeb.
- Trefn Gorchmynion Rheoli Cŵn newydd wedi ei chyflwyno ar y 1af o Ebrill 2013.
- Man cychwyn wedi ei sefydlu ar gyfer achosion o gŵn yn baeddu ar diroedd hamdden a threfn wedi ei sefydlu ar gyfer monitro y sefyllfa.

### Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

Mae'n rhy gynnar i ddangos pa wahaniaeth fydd y gwaith yn ei wneud i fywydau unigolion yng Ngwynedd.



## Dangosyddion Maes Amgylchedd

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais |
|---|---|---|---|---|---|
| | Canran o wastraff bwrdeistrefol wedi ei gasglu: | | | | |
| WMT/008ii | (i) Wedi ailgylchu | 22% | 22.13% | 26.22% | 26.00% |
| WMT/008iii | (ii) Wedi ei gompostio neu ei drin yn fiolegol | 22% | 24.08% | 21.19% | 28.00% |
| WMT/008i | (iii) Wedi ei ail ddefnyddio | Dim gwaelodlin | 0.50% | 4.11% | 0.50% |
| PB51 | Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 11.5% | 17% | 27.30% | 50.00% |
| | **Lleihad ôl-troed carbon y gymuned yng Ngwynedd** | | | | |
| Strat1 | (1) anheddau | [1]Ôl Troed Carbon y sector domestig yng Ngwynedd - 355kT CO2 [data 2008] | Data 2010 = Cynnydd o 6.88% yn 2009 ('Local and Regional CO2 Emissions Estimates for 2005-2010', Cynhyrchwyd gan AEA i DECC http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/statistics/climate_stats/gg_emissions/laco2/laco2.aspx | Data yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2013 | 3% yn flynyddol |
| Strat2 | (2) adeiladau di-annedd | [2]Ôl Troed Carbon adeiladau annomestig cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd - 47.44kT CO2 [data 2005/06] (er gwybodaeth yn 2009/10 roedd y ffigwr hwn yn 45.43kT CO2) | 17.23% | 12.91% | 20% erbyn 2014/15 |

[1] Local and Regional CO2 Emissions Estimates for 2005-2008 (produced by AEA for DECC)
[2] Adroddiad Rheolaeth Carbon mewn Adeiladau Annomestig Cyrff Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd (Entec a'r Ymddiriedolaeth Garbon, Medi 2008)

## Dangosyddion Maes Amgylchedd

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Strat3 | (3) busnes | [3]Ôl Troed Carbon y sector fusnes yng Ngwynedd - 282kT CO2 [data 2008] | Data 2010 = Cynnydd o 7.89% o 2009 ('Local and Regional CO2 Emissions Estimates for 2005-2010', Cynhyrchwyd gan AEA i DECC http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/statistics/climate_stats/gg_emissions/laco2/laco2.aspx | Data yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2013 | 3% yn flynyddol. |
| Strat4 | (4) teithiau busnes | Ôl Troed Carbon teithiau busnes cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd - 9.65kT CO2 [data 2007/08] | 8.01% (Noder mai data 2010/11 sydd wedi ei gynnwys ar gyfer Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn y ffigwr hwn gan nad yw data 11/12 wedi ei dderbyn eto) | 9.3% (Noder mai data 2011/12 sydd wedi ei gynnwys ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan nad yw data 12/13 wedi ei dderbyn eto) | 20% (erbyn 2012/13) |
| Strat5 | (5) gwastraff | Ôl Troed Carbon gwastraff sy'n deillio o weithgareddau cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngwynedd – 506.6t CO2 [data 2007/08] | Gostyngiad o 570 tunnell o $CO^2$ | Gostyngiad o 638 tunnell o $CO^2$ | Gostyngiad o 603 tunnell $CO^2$ (erbyn 2012/13) |

[3] Local and Regional CO2 Emissions Estimates for 2005-2008 (produced by AEA for DECC)

GOF ECO PLA AMG TRAWS ARB IECH IAITH CDLI

## Dangosyddion Maes Amgylchedd

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais |
|---|---|---|---|---|---|
| | Arbedion refeniw blynyddol yn sgil lleihau ôl-troed carbon | £238,631 (Arbediad 2010/11) | Heb ei fesur yn 2011/12. | Oddeutu £178,000 | £924,214 [2014/15] (Arbedion cronnus er 2010/11) |
| | Lleihad yr allyriadau carbon y Cyngor | 14.00% | 16.70% | 15.06% | 20.00% |
| FW4 | Dealltwriaeth y gymuned o'r risg llifogydd | Astudiaeth dealltwriaeth y gymuned o risg llifogydd wedi ei gynnal fel rhan o Gynllun Peilot Pwllheli a gwaith wedi ei wneud i gynyddu dealltwriaeth. | Gwaelodlin i'w sefydlu yn ystod 12/13 ac yna mesuriad cyson i'w gynnal er mwyn mesur cynnydd. | 100% | Astudiaethau dealltwriaeth wedi eu cwblhau mewn 8 cymuned a gwaith wedi ei wneud i gynyddu dealltwriaeth (Caernarfon, Bangor, Porthmadog, Dolgellau, Fairbourne, Blaenau Ffestiniog, Nefyn, Dyffryn Ardudwy) |
| DAT01* | Nifer tai gwag hirdymor yn y sir [6 mis a drosodd] wedi dod nôl i ddefnydd | Tua 8.6% yn dai gwag [Ionawr 2011] wedi cadarnhau 1,155 eiddo gwag hir dymor yng Ngwynedd. Mae 110 wedi dod nôl i ddefnydd ers Ebrill 2008. | 48 | 48 (96 cronnus er dechrau 2011/12) | 130 |
| Strat6 | Nifer o unedau fforddiadwy ychwanegol a sicrhawyd i Wynedd (boed yn dai o'r newydd neu ddefnydd o eiddo presennol) | 220 uned hyd at 31-1-2011 yn ogystal â 44 uned yn ychwanegol i'w darparu cyn diwedd 31 Mawrth 2011<br><br>Cyfanswm – 264 dros gyfnod o 3 blynedd. | 62 | 72 (134 cronus er dechrau 2011/12) | 190 o unedau fforddiadwy ychwanegol er dechrau 2011/12 |

## Dangosyddion Maes Amgylchedd

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais |
|---|---|---|---|---|---|
| Strat7 | Gosodiadau ynni adnewyddol domestig sydd wedi derbyn "Feed in Tariff (FIT)/ 'Renewable Heat Incentive (RHI)' | 75 (hyd at 1/3/2010)[4] | 761<br>Targed o 150 wedi ei osod ar gyfer 2012/13 | 265 | |
| CT25 | Trafnidiaeth gymunedol ddibynadwy sy'n hygyrch ar draws y Sir. | 88% o geisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu ar draws y Sir. | Systemau cofnodi ddim yn aeddfed o fewn darparwyr cludiant cymunedol sy'n golygu nad yw data yn gwbl ddibynadwy. Dengys ymateb i holiaduron a gylchredwyd i ddefnyddwyr cludiant cymunedol yn Hydref 2011 bod 83.33% o geisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu ar draws y Sir. | 81.52% | 96% o geisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu ar draws y Sir.Cynnydd o 10% mewn dibynadwyedd cludiant cymunedol |
| PB25b | Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi. | - | 51.84% | 46.92% | I'w Gadarnhau |
| PB55 | Cyfanswm pwysau gwastraff bwyd a gesglir | Dim data | Dim data | 3,640 | I'w Gadarnhau |
| CT35 | Lefelau bodlonrwydd a defnydd o gludiant cyhoeddus | Dim data | Datblygu Data er mwyn adrodd yn 2012/13 | 70.67% | I'w Gadarnhau |

[4] https://www.renewablesandchp.ofgem.gov.uk/

# Trawsffurfio

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Trawsffurfio yn 2012/13 oedd:

*Cyngor fydd wedi adeiladu ar ei gryfderau gan greu amgylchedd sydd yn caniatáu pobl i fod yn:*

- *Flaengar a Mentrus,*
- *Effeithiol ac Effeithlon,*
- *Agored a Gofalgar,*
- *Cadarn ond Ystwyth.*

*Er mwyn cyflawni'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory.*

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

*Cyngor ar ei orau sydd yn cyflawni i bobl Gwynedd heddiw ac yfory*



# **Trawsffurfio -** Cyngor ar ei orau sydd yn cyflawni i bobl Gwynedd heddiw ac yfory


## Cefndir

Mae'r Cyngor wedi adnabod pa mor bwysig yw hi bod cwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd a hefyd bod staff yn teimlo'n rhan o'r Cyngor ac yn cael eu gwerthfawrogi. Ar yr un pryd, mae angen addasu a gwella gwasanaethau'r Cyngor os yw'r Cyngor am oroesi y cyfnod heriol sydd yn ei wynebu.

## Pam fod angen gweithredu?

Mae'r Cyngor yn wynebu her ariannol sylweddol tra bo galw cynyddol am wasanaethau. Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor adnabod dulliau newydd o ddarparu gwasanethau sydd hefyd yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd.

% sydd yn cytun neu anghytuno fod eu cyngor yn dda am eu hysbysu ynghylch pa mor dda mae'n perfformio




## Ffactorau perthnasol

Er mwyn "cyflawni i bobl Gwynedd heddiw ac yfory", rhaid cael trefniadau gofal cwsmer cadarn, sydd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni yr hyn sy'n bwysig i drigolion. Cafodd y strategaeth "Ffordd Gwynedd" ei datblygu, sef gweledigaeth o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Cafodd y rhan helaeth o'r flwyddyn ei threulio yn datblygu'r strategaeth. Bydd y gwaith o'i weithredu yn cychwyn yn fuan yn 2013/14.

## Sut 'rydan ni'n cymharu ag eraill?

Mae'r maes yma yn anodd i'w gymharu gyda chynghorau eraill. Fodd bynnag mae rhai dangosyddion cymharol.

Mae barn trigolion ar ba mor dda y mae'r Cyngor am ddweud sut y mae'n perfformio ymysg y gorau yng Nghymru.

O ran barn trigolion am safon y gwasanaeth a dderbynnir, roedd y Cyngor yn perfformio tua'r canol o blith awdurdodau lleol eraill Cymru.

Mae barn staff ynghylch pa mor dda mae'r Cyngor yn ymgysylltu wedi dirywio. Mae hyn yn gyson â thueddiadau cenedlaethol, yn sgil yr heriau a ddaw o ran y sefyllfa ariannol fregus.

Gweler hefyd y graffiau barn trigolion Gwynedd ynghylch gwasanaethau'r Cyngor a geir ar dudalen 10.

## Beth sydd wedi gweithio?

Roedd saith prosiect ar waith yn y maes Trawsffurfio yn ystod 2012/13.

Cyflawnwyd y canlyniadau yn 57% o ffrydiau gwaith y prosiectau hynny, gyda 33% yn gwneud cynnydd derbyniol.

Cafodd dros 2,000 o drigolion Gwynedd y cyfle i roi eu barn ar nifer o bynciau. Er enghraifft, mynediad i'r farchnad dai, defnydd ac agwedd tuag at yr iaith Gymraeg ynghyd â chyfle i roi syniadau ar ddatblygu'r gwasanaeth llyfrgelloedd i'r dyfodol.

Roedd llwyddiant gyda chynlluniau i wella profiad y cwsmer gyda gwasanaethau Eiddo/Cynnal a Chadw a Digartrefedd. Er engraifft, mae gwaith cynnal chadw bellach yn cael ei gyflawni yn 1/10 o'r amser, mae dros 90% o gwmseriaid yn fodlon â'r gwasanaeth ac arbedwyd 15% ar gostau staff. Oherwydd hynny, bydd y cynllun yn cael ei ymestyn i feysydd eraill o dan y faner "Ffordd Gwynedd".

Derbyniwyd canmoliaeth gan y cwmni "Investors in People" o'n gwaith i hyrwyddo arddull cymhelliant. Roedd hyn wedi ei dreialu mewn un adran, a gwelwyd newid yn niwylliant staff yr adran yn sgil hynny.

Nid oedd cynnydd cystal â'r disgwyl gyda'r prosiect "Grymuso Cymunedau Gwynedd" gan bod y Cyngor wedi pwyllo cyn penderfynu ar ddyfodol y Pwyllgorau Ardal. Roedd penderfyniad ym mis Chwefror 2013 i sefydlu fforymau ardal a fyddai'n caniatau sesiynau llai ffurfiol o fewn yr ardaloedd er mwyn cynnal deialog "go iawn" a thrafodaethau ar lefel leol.

**52% o drigolion Gwynedd yn "fodlon" neu "bodlon iawn" gyda'r ffordd mae'r Cyngor yn rhedeg pethau**

## Pwy sydd wedi elwa?

Er mwyn i'r Cyngor wneud y defnydd gorau posib o'i wariant o fewn yr ardal, cafodd pedwar cytundeb eu hadolygu (gwerth dros £500k) i wneud yn siwr eu bod yn cydymffurfio gyda'r Polisi Caffael Cynaliadwy*.

Cafodd llyfryn disgownt ei lansio sy'n rhoi cyfle i staff y Cyngor arbed arian mewn siopau a busnesau lleol ynghyd â chwmniau byd eang.

## Partneriaid

Cafodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol ei sefydlu ar y cyd gyda Chyngor Môn. Bydd y trefniant hwn yn:

- Osgoi dyblygu gwaith o fewn y cynghorau. ,
- Eu galluogi i weithredu'n gynt ble mae angen cydweithio gyda phartneriaid eraill e.e. Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru neu'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## Dangosyddion Maes

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod yn fodlon ynghylch y ffordd mae'r Cyngor yn rhedeg pethau | 43% | Arolwg Trigolion i'w adrodd yn 2012/13 | 57% | Cynnydd |
| | Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod am fod fwy ynghlwm â phenderfyniadau sydd yn effeithio eu hardal leol | 29% | Arolwg Trigolion i'w adrodd yn 2012/13 | 23% | Cynnydd |
| | Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod yn fodlon gyda chanlyniad y gwasanaeth a dderbyniwyd yn dilyn eu cyswllt gyda'r Cyngor | 34% | Arolwg Trigolion i'w adrodd yn 2012/13 | Cwestiwn heb ei ofyn yn yr arolwg Panel Trigolion | Cynnydd |
| Perff22 | Canran dangosyddion y meysydd Strategol sydd wedi cwrdd â'u targedau | 64% | 56% | Adrodd Medi 2013 yn dilyn derbyn holl ddata'r Cynllun Strategol | 70% |
| Perff21 | Canran ffrydiau gwaith y Prosiectau Strategol sydd yn debygol o gyflawni'r prif fuddiant | 70% | 78% | 84% | 70 – 75% |

## Arbedion

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Arbedion yn 2012/13 oedd;

*Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo gan gynnig gwerth-am-arian i drethdalwyr lleol. Byddwn yn chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, gan edrych y tu hwnt i ffiniau'r Cyngor a chydweithio â chyrff eraill i sicrhau'r budd mwyaf i'n trigolion.*



Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-


*Cyflawni'r swm arbedion sydd ei angen ar gyfer cwrdd â gofynion strategaeth ariannol y Cyngor dros y cyfnod, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar ganlyniadau i drigolion Gwynedd.*

## **Arbedion –** *Cyflawni'r swm arbedion sydd ei angen ar gyfer cwrdd â gofynion strategaeth ariannol y Cyngor dros y cyfnod, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar ganlyniadau i drigolion Gwynedd*

### Cefndir

Mae'r arian sydd ar gael i'r Cyngor i gynnal ei wasanaethau yn lleihau, gyda mwy fyth o leihad yn debygol dros y blynyddoedd i ddod. 'Roeddem eisoes wedi cyflawni dros £23 miliwn o arbedion yn y saith mlynedd hyd at 2011/12, ond wrth i'r toriadau gwariant cyhoeddus ar draws y DU waethygu roeddem angen arbed £6.7 miliwn pellach yn 2012/13, gydag argoelion y bydd angen cyflawni llawer mwy yn y blynyddoedd dilynol.

Cynnydd grant Cymru o'i gymharu â'r raddfa chwyddiant




### Ffactorau perthnasol

Grant Llywodraeth Cymru sy'n cyllido dros dri-chwarter gwariant y Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf nid yw'r grant yma wedi bod yn cynyddu ddigon i gwrdd â chwyddiant, heb sôn am gwrdd â chost y pwysau eraill ar ein gwasanaethau (er enghraifft, achos fod y boblogaeth yn heneiddio). O gofio fod cyllideb flynyddol y Cyngor dros £230 miliwn mae hyn felly yn arwain at fwlch ariannol sylweddol.

### Pam fod angen gweithredu?

Os gallwn ddarganfod ffyrdd o sicrhau fod trigolion yn cael yr un gefnogaeth i ffynnu ond am lai o gost, fe fyddwn yn gallu gwneud rhai o'r arbedion sydd eu hangen heb i drigolion Gwynedd fod ar eu colled. Mae hyn yn her ac yn mynd i arwain at newid y ffordd bydd pobl yn derbyn gwasanaethau, ond drwy wneud hyn fe fyddwn yn gorfod gwneud llai o'r dewis arall sef peidio â darparu rhai gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn dibynnu arnynt.

**"Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei adnoddau'n dda a chynllunio'n effeithiol i fynd i'r afael â diffygion ariannol dros y tymor canolig" (Llythyr blynyddol Swyddfa Archwiliio Cymru 2013)**

### Sut 'rydan ni'n cymharu ag eraill

Mae'n anodd cymharu'n uniongyrchol gydag awdurdodau eraill yn y maes yma ond mae yna gydnabyddiaeth ein bod ar y blaen o ran cynllunio arbedion yn effeithiol i leihau effaith ar drigolion: *"...mae'r dull hwn o weithredu wedi golygu na fu angen gwneud penderfyniadau byrbwyll na thoriadau i wasanaethau"* (Llythyr blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2013).

**Gwireddwyd £6.45m o arbedion** yn ystod 2012/13, sef **89%** o'r cyfanswm disgwyliedig. Llithriad amser (yn hytrach na methiant i gyflawni) sy'n gyfrifol am y gweddill.

Cyflawnwyd **86%** o'r swm yma drwy **arbedion effeithlonrwydd,** a'r gweddill drwy **godi incwm (6%)** a rhywfaint o **doriadau gwasanaeth (8%)**.

## Beth sydd wedi gweithio?

Roedd saith prosiect ar waith yn y maes Arbedion yn ystod 2012/13.

Cyflawnwyd y canlyniadau yn 54% o ffrydiau gwaith y prosiectau hynny, gyda 39% yn gwneud cynnydd derbyniol.

Un enghraifft o gynllun wnaed yn ystod y flwyddyn oedd adeiladu cyfleuster i drin gwastraff bwyd, a drwy hynny arbed £500,000 y flwyddyn o gostau anfon gwastraff i'w dirlenwi.

Ym maes gofal cymdeithasol mae'r Cyngor wedi cychwyn cynlluniau newydd i roi cymorth i bobl fregus i fyw eu bywydau'n annibynnol ac i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder. O ganlyniad mae rhai pobl yn llai dibynnol ar wasanaethau cymdeithasol traddodiadol, gan arwain at arbedion ariannol o dros £300,000 y flwyddyn tra ar yr un pryd yn gwella ansawdd bywydau defnyddwyr.

Gwnaed arbedion ar gost cyflogi staff yn ogystal; er enghraifft fe ostyngwyd y raddfa delir i staff am deithio yn eu ceir eu hunain ar fusnes y Cyngor, gan arbed cyfanswm o dros £200,000 y flwyddyn.

Yn ogystal â gwireddu cynlluniau, buom hefyd yn ymchwilio i feysydd newydd lle gellir gwneud arbedion yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar gynlluniau sy'n cyflawni'r un canlyniadau am lai o gost, a llwyddodd hyn i ganfod y cyfansymiau roeddem eu hangen. Hefyd fe warchodwyd cyllid Ysgolion rhag effeithiau gwaethaf yr arbedion.

Roeddem yn un o'r cynghorau a gafodd yr arian llawn, sef £1.3 miliwn, gan Lywodraeth Cymru am gyflawni'r canlyniadau roeddem wedi'u haddo ar gyfer 2011/12, ac fe ddisgwylir am gadarnhad ynglŷn â 2012/13.

Nid ydym wedi cyflawni popeth oedd yn ein cynlluniau gan ein bod wedi gallu canfod y swm arbedion mewn ffordd wahanol, ambell dro, i'r hyn oeddem yn ei ragweld ar ddechrau'r flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu natur ddatblygol y gwaith yma.

## Pwy sydd wedi elwa

Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r arbedion (86% sef tua £5.5m) drwy effeithlonrwydd, ac ni welwyd dirywiad yn rhan fwyaf o'r mesurau pwysicaf sydd o ganlyniadau i drigolion Gwynedd.

Drwy wneud hyn fe osgowyd gorfod gwneud toriadau, fyddai wedi cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr y gwasanaethau.

## Partneriaid

Yn ystod y flwyddyn fe arbedwyd £50,000 drwy gydweithio â chynghorau eraill Gogledd Cymru wrth gomisiynu gofal cymdeithasol, a gwnaed arbedion o £38,000 wrth weithio mewn partneriaeth â chyngor Môn i gyd-gynllunio gwasanaethau at y dyfodol.


Disgwylir i arbedion pellach ddeillio o'r cynlluniau yma mewn blynyddoedd i ddod, yn ogystal â chynlluniau cydweithio eraill sy'n mynd ymlaen ar draws gogledd Cymru ym meysydd fel Gwella Ysgolion a Gwaredu Gwastraff.



"Rydym yn hyderus y gallwn ni weithio efo pobl Gwynedd i reoli'r sefyllfa mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith ar ein cymunedau."

**Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

## Arbedion a gyflawnwyd 2012/13



## Dangosyddion Maes

| Cyfeiriad | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | Swm arbedion a gyflawnwyd | £6.7m – sef:<br>£5.0m Pecyn arbedion £16m<br>£1.2m Newid polisïau cyllidebol<br>£0.5m Prosiect effeithlonrwydd trawsadrannol | Cyflawnwyd £6.1m yn ystod y flwyddyn gyda'r £0.6m o gynlluniau'r pecyn £16m angen eu pontio oherwydd llithriad amser. | £6.449m | Arbedion ariannol parhaol o £21.7m wedi'u tynnu o'r gyllideb, gan sicrhau ein bod wedi paratoi ar gyfer arbed £7.3m pellach yn y bedwaredd flwyddyn. |
| | O fewn y swm arbedion uchod: Symiau a wireddir drwy gynlluniau effeithlonrwydd a chodi incwm | | Gwireddwyd: | Gwireddwyd: | Cyfanswm arbedion y 3 blynedd* o leiaf £16.0m drwy gynlluniau Effeithlonrwydd a £1.4m drwy gynlluniau Codi Incwm.<br>* gan gynnwys rhai gytunwyd eisoes yn y pecyn £16m |
| | | Effeithlonrwydd £5.0m | Effeithlonrwydd £4.5m | Effeithlonrwydd £5.542m | |
| | | Codi incwm £0.6m | Codi incwm £0.4m | Codi Incwm £0.413m | |
| | | | (gyda'r gwahaniaeth o £0.6m yn llithro fel nodwyd uchod) | | |
| | Mesurau perfformiad gwasanaeth yn y meysydd lle cyflawnir arbedion effeithlonrwydd a thoriadau | Dim effaith andwyol ar berfformiad pan weithredir arbedion effeithlonrwydd.<br>Mewn meysydd lle gwneir toriadau, effaith ar berfformiad yn unol â'r hyn a ragwelwyd wrth gytuno ar y toriadau. | Ni chyflawnwyd yr asesiad yma. | | Dim effaith andwyol ar berfformiad pan weithredir arbedion effeithlonrwydd.<br><br>Mewn meysydd lle gwneir toriadau, effaith ar berfformiad yn unol â'r hyn ragwelwyd wrth gytuno ar y toriadau. |

## Gwella Iechyd

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

*Pobl Gwynedd yn byw bywydau iachach*

Rydym hefyd wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- *Mwy o bobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach*
- *Mwy o bobl Gwynedd yn cael yr un cyfle i fwynhau'r iechyd gorau posib*
- *Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib*
- *Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu iechyd staff yn y gweithle ac yn ceisio dylanwadu ar gyflogwyr eraill*



# Iechyd – *Pobl Gwynedd yn byw bywydau iachach*

## Cefndir

Mae Iechyd wedi cael ei adnabod fel maes pwysig o fewn y Cyngor gan ei fod yn effeithio ar y boblogaeth cyfan. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i hyrwyddo a hybu ffordd iach o fyw. Mae gwella iechyd yn ffordd o gadw pobl allan o wasanaethau statudol y Cyngor a sefydliadau cyhoeddus eraill. Normaleiddio ffordd iach o fyw yw gweledigaeth y Cyngor o fewn y maes iechyd. Y profiadau sy'n disgrifio'r canlyniad yma yw:

- Pobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach
- Pobl Gwynedd yn cael yr un cyfle i fwynhau'r iechyd gorau posib
- Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib

## Pam fod angen gweithredu?

- Gweithgarwch corfforol - Mae gan pobl sy'n egnïol hyd at 50% yn llai o risg o ddatblygu'r afiechydon cronig amlycaf megis clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes a rhai mathau o ganser a 20-30% yn llai o risg o farw cyn amser.
- Ysmygu - Mae ysmygu yn parhau i fod yr achos mwyaf o farwolaeth gellir ei osgoi yng Nghymru. Mewn pobl 35 oed a throsodd mae ysmygu yn achosi bron i 1 o bob 5 marwolaeth.
- Alcohol - Mae alcohol yn cyfri'n uniongyrchol tuag at 8,000 o flynyddoedd bywyd potensial wedi eu colli yng Nhymru, ac yn an-uniogyrchol tuag at 5,000 o flynyddoedd coll.
- Pwysau - Mae bod dros eich pwysau neu'n ordew yn ffactor risg am clefyd y siwgr math2, cyflyrau cronig fel clefyd cardiofasgwlaidd a rhai cancr.

## Ffactorau perthnasol

Mae llawer o ffactorau'n effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar iechyd. Ar lefel unigol, mae ffactorau biolegol, fel oed, rhyw a gwneuthuriad genetig , a ffactorau ffordd o fyw y gellid eu haddasu, fel smygu, deiet ac ymarfer corff.

Gall y gymdeithas mae rhywun yn byw ynddi ddylanwadu ar eu hiechyd, ac mae cymryd rhan mewn rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol, yn cynnwys cyfeillgarwch, cyswllt â pherthnasau a rhyngweithio cymunedol cefnogol, yn chwarae rhan bwysig mewn cynnal iechyd.

Mae hefyd penderfynyddion ehangach iechyd, sef cyd-destun amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd bywyd. Mae ffactorau fel addysg, incwm a thai i gyd yn dylanwadu ar iechyd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

## Sut 'rydan ni'n cymharu ag eraill?

| | Canran (yn ôl oed safonedig) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Yn ysmygu | Yn yfed mwy na'r canllawiau | Yn bwyta ffrwythau a llysiau (5 y dydd) | Yn dilyn y canllawiau ar gyfer gweithgarwch corfforol (5x30) | Dros eu pwysau neu'n ordew |
| Gwynedd | 24 | 45 | 41 | 33 | 56 |
| Betsi Cadwaladr | 23 | 44 | 36 | 31 | 55 |
| Cymru | 24 | 44 | 35 | 30 | 57 |

Yn llawer gwaeth na chyfartaledd Cymru yn ystadegol

Ddim yn wahanol iawn i gyfartaledd Cymru yn ystadegol

Yn llawer gwell na chyfartaledd Cymru yn ystadegol

## Beth sydd wedi gweithio?

- Mae cynllun ar gyfer datblygu chwaraeon a gweithgareddau egniol werth £1 miliwn wedi ei gadarnhau gan Chwaraeon Cymru trwy'r prosiect Gwynedd Egniol am y cyfnod 2013-17
- Ni fydd Gwynedd yn codi lefelau ffioedd am 2013/14 oherwydd perfformiad ardderchog y Canolfannau Hamdden i gyrraedd targedau incwm 2012/13. Mae hyn yn groes i bob Awdurdod arall yng Ngogledd Cymru.
- Prosiect Gwynedd Iach: Normaleiddio ffordd iach o fyw, Brand Gwynedd Iach a Datblygu'r Brand. Llawer o waith wedi ei wneud i ddatblygu'r brand ond gwaith pellach i'w wneud i ehangu defnydd y Brand a sefydlu fforymau datblygol.
- Gwynedd Di-fwg: Ymgyrch Meysydd Chwarae Di-fwg wedi ei lansio Mawrth 2013, Cardiau Tybaco wedi ei lansio yn yr Eisteddfod yr Urdd yn 2012. Gwaith pellach i'w wneud i hybu cyrsiau ymyrraeth fer.

"Dwi'n hynod falch fod Cyngor Gwynedd yn rhoi ystyriaeth o ddifri i faterion Iechyd ac yn cymryd camau positif i gefnogi prosiectau a chynlluniau fydd yn ceisio hybu arferion byw gwell ac iechyd gwell i'r boblogaeth. Mae'r uchelgais i annog pobl y Sir fyw bywydau iach yn gam i'r cyfeiriad cywir i'r Cyngor, ac yn gam byddwn yn ceisio annog mwy o asiantaethau a mudiadau i gymryd i'r dyfodol hefyd"



**Y Cynghorydd Paul Thomas**

## Pwy sydd wedi elwa?

- Mae polisi atal ysmygu yn cael ei weithredu mewn dros 130 o feysydd chwarae o dan reolaeth y Cyngor, meysydd chwarae ysgolion uwchradd a'r tir o gwmpas canolfannau hamdden.
- Gardd gymunedol wedi ei chreu yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn.
- Darpariaeth fwyd o fewn Canolfannau Hamdden wedi newid i fwydydd iachach.

## Partneriaid

Mae'r partneriaid yn y maes yma yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Chwaraeon a'r Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru.



*Alaw Gwenlli Jones o Ysgol Syr Hugh Owen a ddyluniodd yr arwydd meysydd di-fwg gyda disgyblion o ysgolion eraill fu'n rhan o'r lansiad*

## Dangosyddion Maes

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais |
|---|---|---|---|---|---|
| | Targedau *Creu Cymru Egniol* 'Un diwrnod yn rhagor' i blant ac oedolion | gwaelodlin ddim ar gael tan 2011/12 | 33% | | i'w pennu mewn ymgynghoriad gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Iech1 | % oedolion sy'n adrodd eu bod yn ysmygu | 25% | 24% | Cylchlythyrau Iechyd Cymru yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2013 | i'w bennu mewn ymgynghoriad gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Iech2 | % oedolion sy'n adrodd eu bod yn bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau pob dydd | 42% | 41% | | i'w bennu mewn ymgynghoriad gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Iech3 | % oedolion sy'n adrodd eu bod yn dew neu'n ordew | 55% | 56% | | i'w bennu mewn ymgynghoriad gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Iech4 | % oedolion sy'n adrodd eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau cydnabyddedig | 47% | 45% | | i'w bennu mewn ymgynghoriad gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| D2.1 | Nifer y dyddiau a gollwyd i salwch yng Nghyngor Gwynedd | 10 diwrnod fesul unigolyn | 8.29 diwrnod fesul unigolyn | 8.52 diwrnod fesul unigolyn | 8 diwrnod fesul unigolyn |

## Iaith

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

*Pobl yn byw trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngwynedd*

Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- *Teuluoedd yn magu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg*
- *Plant a phobl ifanc yn byw, dysgu, gweithio a mentro trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol*
- *Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd*
- *Y Gymraeg yn iaith fusnes yng ngweithleoedd Gwynedd*



# Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg -

## Cefndir


- Gwynedd yw'r sir gyda'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd yn ôl Cyfrifiad 2011, sef 65.4%
- Mae Gwynedd yn ail i Sir Gaerfyrddin yn unig o safbwynt nifer y boblogaeth 3 oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011, sef 77,000.
- Mae parhad a dyfodol yr iaith yn flaenoriaeth hanesyddol gan y Cyngor oherwydd pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan annatod o wead cymdeithas y sir.

## Ffactorau perthnasol

- Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 65.4% o drigolion y sir yn siarad Cymraeg
- Cyfrifiad 2011 yn dangos dirywiad o 3.6% yn y ganran hynny, ers Cyfrifiad 2001
- Cyfrifiad 2011 yn dangos fod 70% neu fwy o'r boblogaeth 3+ oed yn gallu siarad Cymraeg mewn 40 o'r 71 ward, lleihad o 42 yn 2001 a 61 yn 1991
- Mae 34% o blant ysgolion cynradd yn adrodd mai Saesneg yn unig sy'n cael ei ddefnyddio ganddynt gyda'u ffrindiau ar y buarth. (Gwnaed y gwaith ymchwil yng Ngwynedd yn unig)

## Pam fod angen gweithredu?

- Roedd Cyfrifiad 2011 yn dangos yr her i'r Gymraeg, yn arbennig yn ei chadarnleoedd traddodiadol.
- Roedd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ond nid i'r un graddau â'r de orllewin.
- Mae polisi iaith y Cyngor wedi sicrhau cyfleoedd cyson i drigolion y sir allu byw a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae Gwynedd yn arwain yn lleol a chenedlaethol ar gynllunio ieithyddol




## Sut 'rydan ni'n cymharu ag eraill?

- Cyfrifiad 2011 yn cadarnhau mai Gwynedd yw'r sir Gymreiciaf yng Nghymru gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg
- Cyfrifiad 2011 yn dangos gostyngiad llai yn y nifer a'r canran sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd nac yn rhai o siroedd y de orllewin.

**"Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd"**

## Beth sydd wedi gweithio?

- Ymchwil ar sefyllfa'r Gymraeg mewn trefniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth.
- Tair dalgylch peilot yn derbyn hyfforddiant ac yn anelu at gyrraedd gwobr efydd Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd er cynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg
- Cynhadledd genedlaethol lwyddiannus ar 'Ddyfodol Cymunedau Cymraeg'

"Mae nifer o bethau gennym i fod yn falch ohonynt:–
Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol yn y mwyafrif o'r sir.
Mae pob plentyn yn ysgolion cynradd Gwynedd yn derbyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg.
Mae'r Cyngor yn arwain eraill sy'n gwasanaethu trigolion Gwynedd i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg."



**Y Cynghorydd Ioan Thomas**

## Pwy sydd wedi elwa?

- Mae dros 1,800 o ddisgyblion, mewn 23 ysgol gynradd, wedi derbyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg, fel iaith gymdeithasol, drwy'r Siarter Iaith.
- Mae'r Academi Sgiliau Cymraeg wedi helpu rheolwyr yn un o adrannau Ysbyty Gwynedd i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.
- Ymrwymodd mynychwyr cynhadledd 'Dyfodol y Gymraeg' i sefydlu Menter Iaith leol a bwriad i ail-edrych ar strategaethau Cymraeg i'r Teulu.

## Partneriaid

Hunan**iaith** yw'r strwythur aml-asiantaethol sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd. Mae aelodau hunan**iaith** yn cynnwys: Cyngor Gwynedd, Partneriaeth Economaidd Gwynedd, Partneriaeth Tai Gwynedd, Rhwydwaith Busnes Gwynedd, Prifysgol Bangor, Mantell Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans, Cymdeithas Tai Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Canolfan Cymraeg i Oedoion Gogledd Cymru, Ysgolion Cynradd Gwynedd.

## Unrhyw wybodaeth arall

Mae canlyniadau mwy manwl Cyfrifiad 2011 wedi eu derbyn yn ystod 2012/13 a bydd y Cyngor yn defnyddio hynny i osod cyfeiriad mwy penodol i'r gwaith i'r dyfodol

## Dangosyddion Maes

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Uchelgais 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| | % plant 3-4 oed sydd yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad). | Yng Ngwynedd, yn ôl Cyfrifiad 2001, 2 riant yn siarad Cymraeg gartref = 89.7% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; rhiant sengl yn siarad Cymraeg = 73.4% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; un o ddau riant yn siarad Cymraeg = 55.7% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; dim oedolyn yn siarad Cymraeg = 34.6% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg. | Dim data ar gael tan cyhoeddiad cyfrifed Iaith Hydref 2012. | 73.0% | Rhagor o deuluoedd yn defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd. |
| | % y plant sydd yn derbyn asesiad mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd newydd). | Dim gwaelodlin. | 2011/12 yw'r flwyddyn gyntaf i ddisgyblion blwyddyn 2 gael eu hasesu dan y Cyfnod Syflaen. Gwybodaeth ar gael Medi 2012. | 87.6% | Rhagor o blant gyda sylfaen gadarn i'r Gymraeg erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. |
| | % poblogaeth Gwynedd sydd yn gallu siarad Cymraeg. | 69% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd yn ôl Cyfrifiad 2001, gostyngiad o -1.8% ers 1991. 41 Adran Etholiadol efo dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 o gymharu â 60 ward yn 1991. | Dim data ar gael tan cyhoeddiad cyfrifed Iaith Hydref 2012. | 65.4%<br>Cynydd i 89.1% o bobl oed 3 i 15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn gymharol i waelodlin 88.6% yn 2001. | Rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. |

## Cynllun Datblygu Lleol

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

*Strategaeth a pholisiau cynllunio defnydd tir a fydd yn cyfarch y prif faterion sy'n gwynebu ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Gwynedd a Môn*




Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder:

- *Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer unedau preswyl*
- *Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer cyflogaeth*
- *Safon amgylcheddol yr ardal yn cael ei gynnal neu ei wella*
- *Datblygiadau sy'n wydn i effeithiau newid hinsawdd*
- *Anghenion cymunedau yn cael eu cyfarch yn lleol.*

# **Cynllun Datblygu Lleol –** *Strategaeth a pholisiau cynllunio defnydd tir a fydd yn cyfarch y prif faterion sy'n gwynebu ardaloedd Awdurdodau*

## Cyflwyniad


Bwriad y Prosiect Strategol hyn yw sicrhau fod y blaenoriaethau strategol sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor yn cael eu hadlewyrchu o fewn y weledigaeth defnydd tir ac hefyd yn y polisiau cysylltiedig sydd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn.

Mae'r Prosiect yn anelu i gyflawni'r profiadau canlynol:

- Cyflenwad digonol a pharhaus o dir ar gyfer unedau preswyl
- Cyflenwad digonol a pharhaus o dir ar gyfer cyflogaeth
- Safon amgylcheddol yr ardal yn cael ei gynnal neu ei wella
- Datblygiadau sy'n gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd
- Anghenion cymunedau yn cael eu diwallu'n lleol.

Cytunwyd i gyflawni'r canlynol yn 2012/13:

- Adnabod opsiynau twf ar gyfer nifer o unedau preswyl a thiroedd ar gyfer cyflogaeth a manwerthu.
- Rhoi sylw i flaenoriaethau strategol lleol sy'n cwrdd â phrofion cadernid*.




## Beth gafodd ei gyflawni?

- Dogfen Hoff Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, a deunydd cefnogol wedi ei llunio.
- Cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn adnabod y blaenoriaethau strategol lleol.
- Astudiaethau manwl wedi eu cwblhau fydd yn darparu'r dystiolaeth angenrheidiol er mwyn cwrdd â phrofion cadernid Bydd y rhain yn ~~y~~ sail ar gyfer y polisïau o fewn y Cynllun.

## Pa wahaniaeth ydan ni wedi'i wneud?

Mae'n rhy gynnar i ddangos pa wahaniaeth fydd y gwaith yn ei wneud i fywydau unigolion yng Ngwynedd.

Byddwn yn rhoi sylw i ddangos effaith wrth ddatblygu Cynlluniau Prosiect 2013-17.




GOF | ECO | PLA | AMG | TRAWS | ARB | IECH | IAITH | CDLl

## Dangosyddion Maes

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | Adnabod prif faterion a gweledigaeth ar gyfer Cynllun | Bydd y broses hon yn seiliedig ar y sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun a fydd wedi ei sefydlu yn dilyn ymgynghoriad â budd ddeiliaid o safbwynt blaenoriaethau strategol ar gyfer y Sir. | Prif faterion a gweledigaeth wedi cael eu hadnabod ac wedi eu adrodd i'r Cyngor ym mis Hydref. | Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon wedi cytuno ar y Weledigaeth a'r amcanion strategol. | Cytundeb a chysondeb rhwng y Cynllun Datblygu Lleol a blaenoriaethau strategol eraill ar gyfer y Sir. |
| | | | Dogfen cyfranogiad cyhoeddus wedi cyfeirio at dystiolaeth amrwyiol gan gynnwys y Strategaeth Gymunedol ac adroddiad sgopio'r Arfarniad Cyhoeddus o'r CDLL ar y Cyd. | | |
| | | | Rheolwyr Polisi/Rhaglen yn darparu mewnbwn trwy'r Bwrdd Prosiect Strategol. | | |
| | Nifer o unedau preswyl ac arwynebedd tir ar gyfer cyflogaeth o fewn y drafft cyn adnau o'r Cynllun yn cyfarch gofynion lleol. | I'w sefydlu fel rhan o'r broses o sefydlu y sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun. | Nifer o unedau tai wedi gymeradwyo. Ond bydd angen cadw golwg ar hyn ar ol cyhoeddiad canlyniadau Cyfrifiad 2011 (i'w cyhoeddi canol 2012), a rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd canol 2011 (i'w cyhoeddi yn 2013). | Papur Testun Poblogaeth a Thai, Astudiaeth Tir Cyflogaeth a dogfen cyfranogiad cyhoeddus am opsiynau twf tai a materion eraill yn cofnodi'r sefyllfa bresennol a'r opsiynau ar gyfer y dyfodol wedi ei baratoi. Mae'r ddogfen Hoff Strategaeth sydd wedi cael ei | Cytundeb terfynol ar y nifer o unedau tai ac arwynebedd tir cyflogaeth sy'n angenrheidiol i gyfarch anghenion lleol yn seiliedig ar gasgliadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen Hoff Strategaeth (Cynllun Cyn Adnau) wedi cael eu ymgorffori yn y Cynllun Adnau |
| | | | Astudiaeth Tir ar gyfer Cyflogaeth wedi cael ei gwblhau, sydd wedi adnabod arwynebedd tir i'w warchod/ ddynodi. Angen monitro hyn mewn cydweithrediad a'r Gwasanaeth Dat Econ. | | |

## Dangosyddion Maes

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gymeradwyo gan y ddau Gyngor ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn dweud faint o unedau tai ac arwynebedd tir cyflogaeth sydd eu hangen. | |
| | Budd ddeiliaid ac unigolion a fu'n rhan o'r broses ymgynghori ar y drafft cyn adnau o'r Cynllun. | Budd ddeiliaid wedi eu hadnabod o fewn y Cynllun Cyflawni. | Prif fudd ddeiliaid wedi eu hadnabod o fewn y Cytundeb Cyflawni. Mae gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gronfa ddata sy'n cael ei ychwanegu ato fel daw mwy o wybodaeth am fudd-ddeiliaid eraill i law. | Cafodd manylion y Panel Dinasyddion ei ychwanegu i'r gronfa ddata. Bydd adroddiad am gyfraniad budd ddeiliaid ac unigolion yn cael ei pharatoi ac ar gael i'w weld run pryd a'r ymgynghori cyhoeddus am y ddogfen Hoff Strategaeth. Caiff y ddogfen ei ddiweddaru fel awn drwy'r broses paratoi'r CDLl ar y Cyd. | Budd ddeiliaid ac unigolion yn cymeryd rhan ac yn cyfrannu i'r broses ymgynghori. |

## Dangosyddion Maes

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft cyn adnau o'r Cynllun. | I'w sefydlu. | | Byddwn yn gorfod rhoi rhybudd mewn papurau lleol a cheisio defnyddio nifer o ddulliau eraill i godi ymwybyddiaeth o'r dogfennau drafft. Byddwn yn rhoi gwybod i bawb sydd ar y database sy'n tyfu. Felly mae'r waelodlin mewn theori yn bawb sy'n byw yn yr ardal ac unrhyw un arall sydd a diddordeb ynddo. Tra mai'r Cyngor fydd yn ymateb i sylwadau'r ddogfen Hoff Strategaeth nid y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad am y ddogfen derfynol – yr Arolygydd fydd | Lefel uchel o ymatebion yn cael eu datrys. |

## Dangosyddion Maes

| Cyfeirnod | Dangosydd | Gwaelodlin Cynllun Strategol | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn gwneud hynny. | |
| | Cynllun Adnau yn cyfarch y prif faterion strategol sydd wedi eu hadnabod ar gyfer Gwynedd | Dim gwaelodlin. | | Wedi llunio fframwaith ar gyfer y Ddogfen Hoff Strategaeth, sy'n cynnwys tabl ar ddiwedd Polisiau Strategol a fydd yn ceisio dangos y cysylltiadau rhwng y Cynllun a'r Cynllun Sengl Integredig a Chynllun Busnes y Cyngor. | Asesiad wedi ei gynnal o'r cynllun yn erbyn y weledigaeth a'r prif faterion strategol. |

# Cydweithio

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio'n agos â Chynghorau eraill yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector ac asiantaethau eraill er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau mwyaf effeithlon i fudd drigolion ein Sir. Mae awydd cryf gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol gydweithio.

## Y stori tu nôl i'r perfformiad

Yn sgil heriau ariannol, a'r angen i warchod a gwella ein gwasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor newid y ffordd mae'n gweithredu. Rydym wedi adnabod yr angen i ddatblygu diwylliant o gydweithio gyda chynghorau eraill fel un ffordd y gallai'r Cyngor newid er mwyn cyflawni hyn. Cafodd cytundeb ei arwyddo gyda Llywodraeth Cymru (o dan amodau) ar y 1af o Fawrth 2012 sy'n ymrwymo cynghorau i gydweithio gyda'i gilydd.

### Meini prawf ac ein Egwyddorion Cydweithio

Sicrhau Manteision i Wynedd

Gwella mynediad at wasanaethau

Gwella perfformiad

Sicrhau elw o'n Buddsoddiad

Gwarchod yr Iaith Gymraeg. Mae'n ddyletswydd arnom i ddarparu gwasanaethau yn iaith ddewisol ein dinasyddion

Sicrhau Dosbarthiad Cyflogaeth Deg i bobl Gwynedd

Rhannu arbenigedd, adnoddau ac chyfleon

Arbed dyblygu ymdrechion

Cadw ein Rôl Gomisiynu *


Gweithredu o fewn Lefel derbyniol o Risg

## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae'r Cabinet wedi derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol ar:

- Gynnydd prosiectau cydweithio
- Sefyllfa prosiectau cydweithio yn erbyn y meini prawf

Mae hyn wedi eu galluogi i wneud penderfyniadau ar y rhaglen Gydweithio.



# Cydweithio

### Prosiect Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i Ogledd Cymru

Gweithiodd y Cyngor gyda Llywodraeth Cymru i greu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion (GwE), ac mae'n weithredol ers 1 Ebrill 2013. Yn dilyn ystyriaeth ofalus, penderfynwyd mai Cyngor Gwynedd fyddai'n gweithredu fel yr Awdurdod Lletyol. Golyga hyn fod Gwynedd yn gyfrifol am y trefniadau, darparu adnoddau a chefnogaeth fel cyflogwyr.

### Teledu cylch cyfyng

Ni lwyddodd cais am arian o Gronfa Cydweithio Llywodraeth Cymru, ac yn sgil hynny penderfynwyd dirwyn y prosiect rhanbarthol cyfredol i ben. Nid oedd y prosiect yn medru parhau oherwydd yr oblygiadau ariannol.

### Canolfan rhanbarthol comisiynu, caffael a monitro – Gwasanaethau Cymdeithasol

Sefydlwyd Canolfan Comisiynu Gogledd Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol mis Hydref 2012 sydd wedi rhoi cysondeb monitro sy'n gwella sicrwydd ansawdd yn narpariaeth gwasanaethau ar draws y rhanbarth.

**"Mae gwarchod a datblygu safonau addysgol yn allweddol ac mae hyn yn cael ei gadarnhau yn flaenoriaeth genedlaethol sydd yn cael ei roi i'r maes ar hyn o bryd, sylw sydd, mewn gwirionedd, hefyd yn gyrru'r datblygiad cydweithio hwn"**
Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd

## Pa wahaniaeth 'rydan ni wedi'i wneud?

- Mae cydweithio wedi ein galluogi i rannu adnoddau a chyflawni gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd. Mae prosiect Rhesymoli Partneriaethau rhwng Ynys Môn a Gwynedd wedi creu Bwrdd Gwasanaeth Lleol i gynllunio, comisiynu a llywodraethu gwaith y partneriaethau ar y cyd.
- Trwy ymrwymo i'r prosiectau 'rydym yn uchafu'r gwerth am arian i'r trethdalwyr ac yn canolbwyntio ar wella'r effaith ac 'rydym yn ei gael ar ein cwsmeriaid
- 'Rydym wedi magu sgiliau a gwybodaeth ychwanegol o'r prosiectau cydweithio

# Rhestr Termau

| Maes | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| **GOF** | **Addasiadau** | Mae addasiadau yn cyfeirio at waith sydd yn cael ei wneud i gartref sydd yn helpu i gadw'r preswylydd yn ddiogel ac mor annibynol â phosib. Yn wahanol i gymorthyddion, nid oes posib dychwelyd addasiadau, ac mae eu maint yn amrywio'n fawr. Er enghraifft gall addasiad fod mor syml â gosod reiliau llaw neu lifft grisiau i fyny at adeiladu estyniad. |
| | **Cefnogaeth Anffurfiol** | Mae Cefnogaeth Anffurfiol yn cyfeirio at wasanaeth cymdeithasol sydd yn cael ei gynnig i bobl hŷn Gwynedd, ac nad yw yn wasanaeth ffurfiol Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys sesiynau amrywiol megis ymarfer corff ysgafn, arlunio a chyfle i gymdeithasu gydag eraill o'r gymuned. |
| | **Galluogi** | Cymorth i bobl ail-ddysgu sgiliau y gallent fod wedi eu colli, neu i ddatblygu sgiliau newydd er mwyn bod yn fwy annibynnol a gwella ansawdd eu bywyd. |
| | **Tai Gofal Ychwanegol (TGY)** | Cyfleusterau sy'n cefnogi'r rhai hynny sydd angen gofal ychwanegol i fyw yn fwy annibynnol. Tai hunangynhaliol â chefnogaeth a gofal yn ôl yr angen ydynt. Mae'r gwasanaethau yma ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. |
| | **Tai Gwarchod** | Llety ar rent sydd wedi ei gynllunio yn arbennig ar gyfer pobl hŷn, anabl a bregus sy'n mwynhau byw yn annibynnol. Maent yn cynnwys fflatiau heb ddodrefn, byngalos a fflatiau stiwdio. Mae Warden a gwasanaeth larwm cymunedol 24 awr ymhob cynllun. |
| | **Taliadau Uniongyrchol** | Gyda Thaliadau Uniongyrchol mae awdurdodau lleol yn talu unigolion yn uniongyrchol fel eu bod yn gallu talu am eu gofal eu hunain. Mae taliadau uniongyrchol yn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol trwy alluogi unigolion i wneud penderfyniadau dros eu hunain ac i reoli eu bywydau eu hunain. |

| Maes | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| | **Teleofal** | Offer technoleg gynorthwyol sy'n galluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib yn eu cartrefi. Mae'n cynnwys larymau, monitro ffordd o fyw. |
| | **Teleofal Sylfaenol** | Pecyn teleofal sy'n cynnwys botwm argyfwng a larwm tân wedi ei gysylltu gyda chanolfan fonitro. |
| | **Teleofal Arbenigol** | Pecyn teleofal sy'n ychwanegol i'r hyn sydd yn cael ei gynnig mewn pecyn sylfaenol. Gall gynnwys sensoriaid epilepsi neu gymryd meddyginiaeth. Pecyn sydd wedi deilwra i anghenion yr unigolyn. |
| **ECO** | **Cynllun Potensial** | Rhan o fenter ranbarthol ar gyfer targedu pobl ifanc rhwng 11 a 16 oed sy'n wynebu anawsterau megis tangyflawni neu golli'r ysgol, gan hefyd gynnig cefnogaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed sydd mewn coleg ond sydd mewn perygl o adael.<br>Cefnogir y fenter gan Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, a'r partneriaid lleol. |
| | **Gwynedd Werdd** | Prosiect gan Gyngor Gwynedd i adnabod potensial ynni adnewyddol i'r sir, boed trwy ynni amgen neu Wylfa B, a chreu'r sail ar gyfer datblygu cyfleon gwaith yn y sector ynni i fusnesau, trigolion a chymunedau Gwynedd - hyn fel rhan o ymdrech ehangach i sicrhau dyfodol economaidd ffyniannus i'r sir. |

| Maes | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| | **Ynys Ynni** | Rhaglen strategol rhwng y sector gyhoeddus a'r sector breifat sy'n sefydlu delwedd Môn fel lle sydd am fanteisio i'r eithaf ar gyfleon economaidd Wylfa B a chynhyrchu ynni trwy amrywiaeth o ddulliau eraill, gan gyfrannu'n sylweddol at ffyniant economi'r ynys a Gogledd-orllewin Cymru. |
| **AMG** | **Bwrdd Gwasanaethau Lleol** | Partneriaeth strategol o arweinwyr y sector gyhoeddus a'r trydydd sector yw Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Ei brif amcan yw gwella gwasanaethau a safonau byw drwy gydweithio, arloesi a datrys problemau drwy ganolbwyntio ar y dinesydd. Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n gyfrifol am y Cynllun Integredig Sengl. |
| | **Cynllun Yma i Helpu** | Bwriad y project 'Yma i Helpu' oedd anelu i wella safonau effeithlonrwydd ynni o fewn tai, ac i helpu pobl rhag dioddef o dlodi tanwydd trwy gynnig gosodiadau ynysu mewn tai a chyngor arbed ynni. |
| **TRAWS** | **Polisi Caffael Cynaliadwy** | Polisi i sicrhau fod y Cyngor yn caffael mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy, ac yn uchafu cyfleoedd i wneud y defnydd gorau bosib o wariant y Cyngor er mwyn gwella perfformiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o fewn y Sir. |
| **CYDWEITHIO** | **Cadw ein Rôl Gomisiynu** | Ydi Gwynedd yn cadw rôl:<br>Dadansoddi angen<br>Cynllunio<br>Gweithredu<br>Adolygu. |
| **LLIWIAU** | **Gwyrdd** | Mesuryddion sydd wedi cwrdd ag uchelgais y flwyddyn.<br>Prosiectau/ffrydiau gwaith sydd wedi cyflawni buddiant y flwyddyn. |

| Maes | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| | **Ambr** | Mesuryddion sydd wedi methu cwrdd â'r uchelgais ond o fewn lefel derbyniol.<br>Prosiectau/ffrydiau gwaith sydd wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni buddiant y flwyddyn. |
| | **Coch** | Mesuryddion sydd wedi methu cwrdd â'r uchelgais a thu allan i lefel derbyniol.<br>Prosiectau/ffrydiau gwaith sydd heb gyflawni buddiant y flwyddyn. |
| **ATODIAD 1** | **Perfformiad yn erbyn Cymru** | Dangos perfformiad drwy gymharu gwerth Gwynedd yn erbyn cyfartaledd Cymru am y flwyddyn gyfredol. |
| | ↑ | Gwell |
| | ⇔ | Yr un peth |
| | ↓ | Gwaeth |
| **ATODIAD 2** | **Perfformiad ar Sail Chwarteli** | Dangos safle Gwynedd o fewn chwarteli yn gymharol â pherfformiad holl Awdurdodau Cymru. Gyda Chwartel 1 = Uchaf, a Chwartel 4 = Isaf. |
| | **Tuedd** | Dangos perfformiad Gwynedd drwy gymharu gwerth y flwyddyn gyfredol â'r flwyddyn flaenorol. |
| | ↑ | Yn dangos gwelliant mewn perfformiad. |
| | ⇔ | Dim newid mewn perfformiad. |
| | ↓ | Yn dangos dirywiad mewn perfformiad. |

# **Atodiad 1 –** Mesuryddion Allweddol y Cyngor.

Rhain yw'r Mesuryddion sydd yn dangos Perfformiad y Cyngor ar ei wasanaethau craidd.

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | RhPe1 | % adrannau sydd â'u cyfresi mesuryddion am 2012/13 yn rhoi ffocws ar ganlyniadau | - | 11.00% | 11.00% | | ↔ | |
| Y Cyngor | Cyd1 | Nifer cynlluniau cydweithio wedi eu mabwysiadu gan y cyngor gyda buddion priodol i drigolion y sir | - | - | 5 | | | |
| Addysg | DGD17 | % y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant | - | 3.60% | 3.04% | 4.20% | ↑ | ↑ |
| Addysg | DANS08 | % disgyblion 16 oed sydd yn ennill trothwy lefel 2 (5 Gradd A* – C TGAU) neu gyfatebol | 65.00% | 70.70% | 75.10% | 72.60% | ↑ | ↑ |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | GY03 | % o Ysgolion Uwchradd Gwynedd yn yr hanner uchaf mewn perthynas â gwerth ychwanegol o CA2 (7-11oed) i Trothwy Lefel 2 + yn CA4 (14-16 oed) | - | - | 78.50% | | | |
| Addysg | GY04 | % gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim CA2 yn y dangosydd Pynciau Craidd | 12.13% | 26.83% | 13.70% | | ↑ | |
| Addysg | GY05 | % gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim CA3 yn y dangosydd Pynciau Craidd | 24.26% | 31.24% | 26.60% | | ↑ | |
| Addysg | EDU/002i | % yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai dan ofal yr awdurdod lleol) sy'n troi'n 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol ac yn gadael addysg, hyfforddiant amser llawn neu'n dysgu tra'n gweithio | 0.21% | 0.21% | 0.00% | 0.40% | ↑ | ↑ |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | heb gymhwyster allanol cymeradwy. | | | | | | |
| Addysg | EDU/008b | Nifer disgyblion a waharddwyd yn barhaol yn yr uwchradd (fesul 1,000 o ddisgyblion) | 1.71 | 1.03 (7 disgybl) | 2.2 (14 disgybl) | 0.6 | ↓ | ↓ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | OED03 | Galluogi - % o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal. | - | - | 45.74% | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/019 | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran: iii) Lle mae'r perygl wedi'i ddileu neu ei leihau (disodli SCA016(biii) | 70.91% | 98% | 99.4% | 91.84% | ↑ | ↑ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/002a | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd): a) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd | 60.47% | 49.72% | 46.53% | 77.53% | ↑ | ↓ |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/035 | % o blant sy'n derbyn gofal sy'n gymwys ar gyfer asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 sydd wedi ennill y dangosydd pwnc craidd fel caiff eu penderfynnu yn ol yr asesiad athro | 40.00% | 37.50% | 63.64% | 46.09% | ↑ | ↑ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/006 | % o gyferiadau ble roedd penderfyniad wedi ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | 83.41% | 97.00% | 98.80% | 97.20% | ↑ | ↑ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Diogelu3/SCC/010 | % y cyfeiriadau sy’n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis (eithrio GAP) | 27.44% | 39.10% | 30.60% | 27.00% | ↑ | ↑ |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | CSC034 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i gwblhau asesiadau craidd gofynnol | - | - | 24 Diwrnod | | | |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Diogelu2 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | - | - | 96.59% | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | OED04 | Galluogi - % y rhai a dderbyniodd wasanaeth Galluogi a ddychwelodd o fewn 2 flynedd | - | - | 11.7% | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/007 | % y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 62.69% | 69.58% | 76.80% | 80.90% | ↑ | ↓ |
| Economi | SaC01 | % yr unigolion oed gwaith a gefnogir sy'n symud ymlaen i waith (TiW a GENESIS) | - | - | 7.00% | | | |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Economi | SaC04 | Nifer prentisiaid wedi eu cyflogi | - | - | 18 | | | |
| Economi | Twr4 | Budd i'r economi Lleol o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | - | - | £4,994,155.40 | | | |
| Darparu a Hamdden | Ge05 | % disgyblion nad oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn cymryd rhan mewn 5 sesiwn ymarfer 60 munud yr wythnos | - | - | Methu Casglu Data | | | |
| Darparu a Hamdden | DPI07 | % o blant sydd yn dewis cinio ysgol yn ddyddiol o fewn y sector cynradd | - | - | 55.00% | | | |
| Darparu a Hamdden | DPI08 | % o blant sydd yn dewis cinio ysgol yn ddyddiol o fewn y sector uwchradd | - | - | 30.00% | | | |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Ieuenctid | GI5 | Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn trwy'r gwasanaeth | 210 | 561 | 628 | | ↑ | |
| Gwasanaeth Ieuenctid | Ieu3 | % y bobl ifanc a gefnogir gan weithwyr ieuenctid ysgolion sydd yn ymgysylltu | - | - | 100.00% | | | |
| Darparu a Hamdden | LCS/002 (DADH.34) | Nifer yr ymweliadau gyda chanolfannau hamdden a chwaraeon yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 12,440 | 12,135 | 12,408 | 8,864 | ↑ | ↑ |
| Darparu a Hamdden | DADH.01 | Nifer dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff (Darparu a Hamdden) | 11.78 | 11.53 | 13.34 | | ↓ | |
| Darparu a Hamdden | DPI10 | % o ganolfannau egniol sy'n cynnig bwydlen dewisiol maethlon i gwsmeriaid | - | - | 17.00% | | | |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darparu a Hamdden | DADH.42 | % o ddisgyblion cynradd sy'n mynychu gwersi sydd yn llwyddo i gyrraedd safon lefel 3 yn yr asesiad nofio | 63.00% | 80.00% | 80.00% | | ↔ | |
| Darparu a Hamdden | DADH.39 | % o ddisgyblion cynradd (7-11oed) sy'n ymgymryd a gweithgaredd corfforol all gwriciwlaidd trwy gyfrwng Campau'r Ddraig dros gyfnod o flwyddyn academaidd | - | - | 88.60% | | | |
| Darparu a Hamdden | Ge02 | (5 x 60): Nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan fel % o'r boblogaeth ysgolion 5 x 60 cyfredol. | - | - | 70.31% | | | |
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | PB01 (THS/011a) | Cyflwr y prif ffyrdd A mewn cyflwr gwael | 5.10% | 5.60% | 5.20% | 5.30% | ↑ | ↑ |
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | PB02a (THS/011b) | Cyflwr y prif ffyrdd B mewn cyflwr gwael | 5.20% | 5.50% | 5.30% | 7.50% | ↑ | ↑ |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | PB02b (THS/011c) | Cyflwr y prif ffyrdd C mewn cyflwr gwael | 7.90% | 7.83% | 10.30% | 18.80% | ↓ | ↑ |
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | PB11a (STS/005a) | Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 70.89% | 73.00% | 71.88% | 72.20% | ↓ | ↓ |
| Tai | HHA/002 | Cyfartaledd y nifer o ddyddiau a dreuliwyd o fewn y system digartrefedd o ddyddiad derbyn y cyfeiriad at gyflawni gofyn y defnyddiwr | 181 | 143 | 161 | 130 | ↓ | ↓ |
| Cynllunio | CT29 | % yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos | - | - | 73.13% | | | |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hylendid Bwyd | GyC10 PPN/008ii | % y busnesau newydd wedi eu canfod a oedd yn destun i ymweliad asesu risg neu a wnaeth ddychwelyd holiadur hunan asesu yn ystod y flwyddyn ar gyfer Hylendid Bwyd | 73.68% | 73.24% | 90.00% | 83.00% | ↑ | ↑ |
| Hylendid Bwyd | PAM9 (PPN/009) | % sefydliadau bwyd Gwynedd sydd yn derbyn sgôr o 4 neu 5 ar gyfer hylendid | 82.31% | 88.72% | 95.44% | 86.03% | ↑ | ↑ |
| Y Cyngor | Eff5 | Canran y cynlluniau arbedion sydd ag asesiad effaith cydraddoldeb cadarnhaol | - | - | 100.00% | | | |
| Y Cyngor | Eff6 | Nifer cynlluniau arbedion effeithlonrwydd newydd arfaethedig sydd wedi bod yn destun asesiad effaith cydraddoldeb | - | - | 104.00% | | | |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | D2.1 | Nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff (lefel presenoldeb y Cyngor) | 8.70 | 8.29 | 8.52 | | ↓ | |
| Y Cyngor | PEN07 | Level Scor Pwynt Bodlonrwydd staff gyda'r Cyngor fel lle i weithio | - | 573 | 546.6 | | ↓ | |
| Y Cyngor | CD6.03 | % yr anfonebau a dalwyd o fewn 14 diwrnod (ar draws y Cyngor) | - | 62.10% | 65.00% | | ↑ | |
| Y Cyngor | CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | 0.20% | 0.17% | 0.40% | | ↓ | |
| Y Cyngor | CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | 96.70% | 96.80% | 97.15% | 96.70% | ↑ | ↑ |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tir ac Eiddo | LEGIO01 | % yr asesiadau legionella sy'n cael eu cwblhau ar amser | - | - | 100.00% | | | |
| Tir ac Eiddo | LEGIO02 | Nifer o argymhellion asesiadau legionella sydd wedi derbyn sylw | - | - | Dim data | | | |
| Gofal Cwsmer | DGCH02 | % o lythyrau a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith | 81.00% | 86.00% | 87.00% | | ↑ | |
| Gofal Cwsmer | CD12.03 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (dyddiau) | 38.0 | 21.4 | 21.0 | 21.0 | ↑ | ↑ |
| Gofal Cwsmer | CD12.04 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) | 7.8 | 3.80 | 3.79 | 7.0 | ↑ | ↑ |

# **Atodiad 2 –** Dangosyddion Statudol.

Rhain yw'r dangosyddion y mae'n rhaid inni eu casglu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Cymdeithasol | SCA/001 | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 7.84 | 1.39 | 1.16 | 4.57 | ↑ | ↑ |
| Gofal Cymdeithasol | SCA/002a | Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 60.47 | 49.72 | 46.53 | 77.53 | ↓ | ↓ |
| Gofal Cymdeithasol | SCA/002b | Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 26.72 | 24.90 | 24.69 | 20.63 | ↑ | ↓ |
| Gofal Cymdeithasol | SCA/019 | Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | 70.91% | 98.64% | 99.40% | 91.84% | ↑ | ↑ |
| Gofal Cymdeithasol | SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 19.47% | 14.06% | 14.50% | 13.70% | ↓ | ↓ |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Cymdeithasol | SCC/004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu'n fwy yn ystod y flwyddyn | 8.00% | 3.59% | 4.40% | 9.40% | ↓ | ↑ |
| Gofal Cymdeithasol | SCC/011b | Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun | 7.84% | 45.10% | 40.00% | 37.50% | ↓ | ↑ |
| Gofal Cymdeithasol | SCC/033d | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed | | | 87.50% | 93.40% | | ↓ |
| Gofal Cymdeithasol | SCC/033e | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | | | 85.70% | 93.20% | | ↓ |
| Gofal Cymdeithasol | SCC/033f | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed | | | 35.70% | 56.40% | | ↓ |
| Gofal Cymdeithasol | SCC/037 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol | 188 | 314 | 289 | 220 | ↓ | ↑ |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Cymdeithasol | SCC/041a | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen | 93.20% | 94.20% | 100.00% | 89.50% | ↑ | ↑ |
| Tai | HHA/013 | Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf | 87.46% | 66.35% | 92.47% | 62.60% | ↑ | ↑ |
| Tai | PSR/002 | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 291 | 281 | 298 | 271 | ↓ | ↓ |
| Tai | PSR/004 | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 4.74% | 4.32% | 4.34% | 5.11% | ↑ | ↓ |
| Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio | PLA/006 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 41.42% | 27.14% | 30.00% | 45.00% | ↑ | ↓ |
| Addysg | EDU/002i | Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol. | 0.21% | 0.21% | 0.00% | 0.40% | ↑ | ↑ |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | EDU/002ii | Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol. | 8.33% | 0.00% | 0.00% | 5.70% | ⇔ | ↑ |
| Addysg | EDU/003 | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 83.20% | 82.82% | 86.20% | 82.80% | ↑ | ↑ |
| Addysg | EDU/006ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | 81.70% | 83.00% | 86.10% | 16.80% | ↑ | ↑ |
| Addysg | EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 418 | 484 | 525 | 468 | ↑ | ↑ |
| Addysg | EDU/015a | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | 86.67% | 90.91% | 87.80% | 71.30% | ↓ | ↑ |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | EDU/015b | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau heb gynnwys eithriadau | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 95.90% | ↔ | ↑ |
| Addysg | EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg | 52.10% | 53.40% | 55.00% | 50.70% | ↑ | ↑ |
| Yr Amgylchedd a Chludiant | WMT004b | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | | | 47.11% | 41.03% | | ↑ |
| Yr Amgylchedd a Chludiant | WMT/009b | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | | | 51.20% | 52.26% | | ↓ |
| Yr Amgylchedd a Chludiant | STS/006 | Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith | 94.91% | 95.07% | 93.80% | 91.79% | ↓ | ↑ |
| Yr Amgylchedd a Chludiant | THS/007 | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy’n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | 78.37% | 71.39% | 84.70% | 84.80% | ↑ | ↓ |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Perfformiad 2011/12 | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chwaraeon a Diwylliant | LCS/002 | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | 12440 | 12135 | 12408 | 8864 | ↑ | ↑ |
| Chwaraeon a Diwylliant | LCL/001b | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 5072 | 5741 | 5176 | 5968 | ↓ | ↓ |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **19 Medi 2013** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2012-13**<br>**Adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2012-13** |
| **AMCAN:** | **Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol a Phennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n ofyn statudol i'r Cyngor gyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' sydd yn adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

1.2 Rhaid i'r adroddiad fod mewn iaith hawdd i'w ddeall gan ddweud wrth drigolion a chyfranddalwyr pa mor dda rydym yn meddwl mae'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn perfformio yng Ngwynedd. Ar ddiwedd y broses, mae'n ddisgwyliad cyflwyno'r adroddiad i Aelodau'r Cyngor.

## 2. Y gyfundrefn

2.1 Cyflwynwyd y gyfundrefn hon yn 2010. Mae'n unigryw i Gymru ac i Wasanaethau Cymdeithasol ac mae gofyn i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn cyfrifoldeb personol i adrodd yn gyhoeddus ar berfformiad y gwasanaethau ynghyd a'r profiad o ddarparu gwasanaethau mewn cyd-destun lleol.

2.2 Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Statudol ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n cael effeithio ar allu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r safon uchaf.

2.3 Er bod hon yn gyfrifoldeb penodol ar y Cyfarwyddwr Statudol rhaid cyflawni'r gwaith a'r dasg mewn ffordd sy'n adlewyrchu a grymuso'r cydweithio sy'n rhan annatod o'r maes.

2.4 Mae 4 cam i'r broses, sef:

**i. Yr Adroddiad Blynyddol (a gyflwynir fel Atodiad 1).**
Dogfen gyhoeddus sy'n crynhoi barn y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y gwasanaeth yn ystod 2012-13 gan nodi'r blaenoriaethau er sicrhau gwella gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

**ii. Dadansoddiad o effeithiolrwydd Gwasanaethau**
Proses manwl o hunan asesu effeithlonrwydd y gwasanaeth, gan gytuno ar ddadansoddiad ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae angen sicrhau fod cyfranddalwyr wedi cael cyfle i herio'r asesiad. Nid yw'n ddogfen gyhoeddus ond ar gael i bawb sydd eisiau'i gweld.

**iii. Llwybr Tystiolaeth**
Rhaid casglu tystiolaeth sydd yn cyfiawnhau'r asesiad a'r dyfarniad yn yr hunan asesiad.

**iv. Cynllun busnes**
Llunnir y cynllun busnes er mwyn cyflawni'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad.

**3. <u>Argymhelliad</u>**

3.1 Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.

ATODIAD 1

DRAFFT TERFYNOL

DRAFT

# Adroddiad Blynyddol 2012-13

## gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd

Cyngor Gwynedd Council

Gorffennaf 2013

# Adroddiad Blynyddol 2012-13 y Cyfarwyddwr Statudol

## Mynegai


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Rhagair | 4 |
| 1. Cyflwyniad a chyd-destun ”Rhaid i ni gyd feddwl yn wahanol” | 6 |
| 2. Ein gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd | 8 |
| 3. Ein gwasanaethau i’n hoedolion | 16 |
| 4. Ein gwasanaethau i’n plant a theuluoedd | 25 |
| 5. Beth fyddwn yn ei wneud nesaf? | 30 |
| 6. Blaenoriaethau a Gweithgareddau 2013-2014 | 32 |
| 7. Diweddglo | 36 |
| 8. Cyswllt defnyddiol a dogfennau perthnasol | 37 |


DRAFT

# Crynodeb gweithredol

Dyma gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2012/13. Pwrpas yr adroddiad yw rhannu gwybodaeth am berfformiad ac effeithlonrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd. Mae'n bosib cael gwybodaeth fanylach drwy gysylltu ag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden y Cyngor.

Hoffwn, fel y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ddiolch i bawb a fu yn rhan o waith y Gwasanaethau Cymdeithasol dros y flwyddyn. Mae'r llwyddiannau ger bron o fewn yr adroddiad yn ganlyniad i waith sawl sector ac unigolyn.

Mae 2012/13 wedi bod yn flwyddyn o lwyddiannau a heriau. Gwelwyd cynnydd mewn nifer o feysydd gan gynnwys ymateb i gyfeiriadau, cynnal adolygiadau, cynadleddau amddiffyn, ymweliadau statudol a gofalwyr ifanc, er bod pwysau cynyddol o ran newidiadau demograffig a gofynion teuluoedd yn gyffredinol. Mae rhai meysydd yn parhau yn her, gan gynnwys lefel uchel y defnydd o ofal preswyl traddodiadol, lefel cefnogaeth yn y gymuned i oedolion, a sicrhau cynlluniau addysg bersonol ac asesiadau iechyd yn amserol i blant mewn gofal. Bydd angen ymdrechion pellach er mwyn sicrhau llwyddiant i'r dyfodol yn y meysydd yma.

Wrth edrych i'r dyfodol, rhaid ystyried cyd-destun o bwysau ariannol heriol tu hwnt, newidiadau demograffig a disgwyliadau cynyddol. Mae angen i wasanaethau'r dyfodol fod yn gynaliadwy a rhoddir sylw i hyn yn y Bil Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant Llywodraeth Cymru. Gwelir o fewn y Bil yr angen i sicrhau rhoi lles pobl mewn angen yn ganolog, drwy roi llais a rheolaeth i bobl sydd angen gwasanaethau yn ogystal â diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Bydd angen datblygu gwasanaethau newydd addas ar gyfer grwpiau arbennig a rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau a darpariaethau er mwyn sicrhau'r safon uchaf yn y dyfodol.

Rhaid i ni yng Ngwynedd gynllunio dyfodol sy'n gynaliadwy. I sicrhau hyn rhaid i ni feddwl yn wahanol. Rydym yn ffodus iawn yng Ngwynedd bod gennym sylfaen wych o ran cymunedau hyfyw ac unigolion ymrwymedig. Dyma'r sylfaen allweddol ar gyfer cynllunio a darparu i'r dyfodol. Drwy sicrhau ein bod yn cyd-gynhyrchu gwasanaethau gan adeiladu ar gryfderau unigolion a chymunedau, mae gwir botensial i greu dyfodol cynaliadwy.

Nid yw newid yn hawdd, yn enwedig newid sy'n gofyn i ni oll feddwl yn wahanol. Wedi dweud hyn, dyma wir gyfle i ni gyd-greu a chyd-gynhyrchu dyfodol positif a chynaliadwy i bobl Gwynedd.

## Rhagair

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol ond yn gyffrous ac rwy'n rhagweld y bydd hyn hefyd yn wir am y flwyddyn sy'n ein hwynebu. Un peth sy'n sicr, ni allwn barhau i weithredu yn yr union fodd ag y buom. Mae'n rhaid ceisio cyd-ddarganfod ffyrdd newydd o ymateb i'r her sydd yn bodoli ac yn ein hwynebu. I wneud hyn rhaid i bob un ohonom gadw meddwl agored a bod yn barod i geisio datrysiadau newydd a chyffrous. Gyda'n gilydd gallwn lwyddo i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd heddiw ac yfory a hynny mewn cyfnod ariannol heriol.

Rydym yn gynyddol glywed am y broblem enfawr sydd o'n blaenau mewn perthynas â'r twf a ragwelir yn niferoedd y bobl hŷn fydd angen ein gwasanaethau. Yma, yng Ngwynedd credaf mai ein dyletswydd yw dathlu'r twf yma oherwydd dyma'r union bobl sy'n cyfrannu cymaint at gynnal ein cymunedau drwy fod yn aelodau gweithgar o gymdeithasau a mudiadau lleol. Maent yn gwirfoddoli i gynorthwyo eraill ac, wrth gwrs, dyma'r union bobl sy'n debygol o fod yn "gofalu "naill ai am gymar, aelod o'r teulu ag anghenion arbennig, gymydog neu gyfaill neu sy'n "gwarchod" ac yn galluogi aelodau ifanc y teulu i fynd allan i weithio gan wybod fod y plant yn cael y gofal gorau. Dyma'r union bobl, felly, mae eu cyfraniad yn golygu fod llai o alw ar ein gwasanaethau ffurfiol prin ac mae'n sicr yn ddyletswydd arnom i gydweithio a hwy i gynllunio a datblygu'n gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn gwybod mai un o flaenoriaethau pobl wrth fynd yn hŷn yw sicrhau y gallant aros adref yn eu cymunedau cyhyd ag sy'n bosibl. Gall hyn olygu hyrwyddo a chynnal annibyniaeth drwy wahanol ddulliau megis galluogi, gofal cartref, gofal dydd a theleofal. Y sialens i ni yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yma yng Ngwynedd yw sicrhau ein bod yn cefnogi cymunedau i lenwi bylchau mewn gofal anffurfiol sy'n hybu annibyniaeth unigolion. Bydd hyn yn rhyddhau'r adnoddau prin sydd gennym i ddarparu gwasanaethau ffurfiol i'n galluogi i gyfarfod ag anghenion gofal y bobl sydd yn wynebu anghenion dwys a chymhleth.

Beth bynnag sydd o'n blaenau fel Adran, gwyddom yn ddi-os y bydd angen i ni barhau i ddiogelu ac amddiffyn y plant, pobl ifanc ac oedolion hynny sy'n fregus ac yn agored i niwed - dyma'n blaenoriaeth. Gweledigaeth y Cyngor yw y byddwn yn eu cefnogi i fyw bywydau cyflawn. Os ydym yn llwyddiannus byddwn yn gweld lleihad yn niferoedd plant mewn angen a phlant mewn gofal yng Ngwynedd - mae'r niferoedd wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn gweld lleihad hefyd yn y niferoedd fydd yn mynd i leoliadau preswyl ac mae'n galonogol nodi y gwelwn leihad yn y niferoedd yma o flwyddyn i flwyddyn gyda mwy a mwy yn cael cefnogaeth i fyw yn eu cartrefi'u hunain.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i dargedu'r teuluoedd sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf gan roddi cefnogaeth iddynt ddatblygu'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyrraedd eu potensial fel rhieni gan roi'r cyfleoedd gorau i'w plant. Gwasanaethau cynorthwyol all atal trafferthion, wedi'u lleoli o fewn cymunedau ac sy'n hawdd cael atynt gan bawb yw rhan o'r ateb. Ein cyfrifoldeb ni fydd cynllunio a datblygu gwasanaethau mwy arbenigol i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu problemau mwy dyrys a dwys.

Mae'n anorfod, fodd bynnag, y bydd sefyllfa rhai plant a phobl ifanc mor fregus fel na ellir eu cynnal adre. Mae'r diolch, fel Adran, yn fawr i'r gofalwyr maeth sy'n cydweithio a ni ac sy'n rhan o'n tîm - nhw sydd mor barod i roddi cartref sefydlog i'r plant a'r bobl ifanc yma ac sydd mor barod i weithio mewn partneriaeth gyda rhieni (fel sy'n addas) i hwyluso dychwelyd y plentyn adref.

Efallai mai'r hyn sydd fwyaf amlwg yn y rhagair byr yma yw'r ffaith mai partneriaeth yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn hytrach na rhyw gorff neu adran sy'n sefyll ar ei ben ei hun.

Partneriaeth sy'n cynnwys y trydydd sector, sector breifat, cymunedau, gofalwyr, gwirfoddolwyr, rhieni maeth, darparwyr, defnyddwyr gwasanaeth heddiw ac yfory a phlant a phobl ifanc. Rydym oll yn aelodau o gymdeithas ac yn debygol, rhyw adeg, o fod angen cymorth a chefnogaeth.


Fy ngweledigaeth yw y bydd ein cymunedau yn rhai digon cryf i sicrhau cefnogaeth syml ac y bydd hyn yn rhan annatod o ddyfodol "gofal " yng Ngwynedd. Gallwn ni, o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, gyfrannu at ddatblygu model o'r fath ond byddwn yn gallu canolbwyntio'n hadnoddau ar ymateb i anghenion dwys a chymhleth unigolion er mwyn eu helpu i "aros adre" yn ddiogel ac yn fodlon - boed hwy yn blant, pobl ifanc neu oedolion bregus. Yr her yw cyd gynhyrchu gofal y dyfodol a rhoi statws cyfartal yn y berthynas i unigolion, teuluoedd, cymunedau a phobl broffesiynol. Mae arnom angen mewnbwn pawb i'r broses.

Pleser yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2012/13. Mae'n rhoi darlun o'r hyn y buom yn ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n rhoi blas o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Hon yw fy Adroddiad cyntaf yn dilyn fy apwyntiad yn Awst 2012 yn Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.

Mae'n anrhydedd a braint i gael fod yn arweinydd ar Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden Cyngor Gwynedd, adran a ddaeth i fodolaeth yn ei newydd wedd yn dilyn ailstrwythuro mewnol i'r Cyngor i gyd-redeg gyda fy mhenodiad. Y tebygolrwydd ydi nad oes yr un adran arall yn cyfrannu cymaint â'r adran hon at les unigolion o fewn Gwynedd; rydym fel adran hefyd yn gritigol ar gyfer ymateb i sawl her gymdeithasol sy'n ein hwynebu nawr ac sy'n cael eu rhagweld ar gyfer y dyfodol.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch am ymrwymiad a gwaith caled ein holl staff, darparwyr a'n partneriaid wrth sicrhau fod plant, pobl ifanc, oedolion bregus a'u teuluoedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib. Hoffwn hefyd ddiolch am arweiniad a chefnogaeth ddiflino'r Aelod Cabinet Gofal yn ystod y flwyddyn. Rwy'n fawr obeithio fod yr adroddiad hwn yn cyflwyno darlun clir o'r hyn sy'n cael ei gyflawni a'n hymrwymiad i welliant parhaus.

Os oes gennych unrhyw syniadau ynglŷn â datblygiad gwasanaethau gofal yng Ngwynedd mae croeso i chi gysylltu â mi. Cofier mai proses ddeinamig yw "gofal " - dim ond trwy gydweithio y down o hyd i atebion.





**Awen Morwena Edwards**

**Cyfarwyddwr Statudol & Pennaeth**
**Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden**
**Cyngor Gwynedd**

**Gorffennaf 2013**

# 1. ”Rhaid i ni gyd feddwl yn wahanol”

Pwrpas yr Adroddiad hwn yw rhannu gwybodaeth gyda defnyddwyr ein gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr ynghyd a'n staff, partneriaid, a dinasyddion Gwynedd am beth wnaethom y llynedd a pha mor llwyddiannus y buom. Rydym hefyd yn awyddus i rannu ein gweledigaeth, ein bwriadau a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae maes Gwasanaethau a Gofal Cymdeithasol yn eang iawn ac mi fyddai'n anodd i'r adroddiad yma roi sylw i bob agwedd o bob maes - rydym felly'n cynnig trosolwg a gwahoddwn unrhyw un sydd am wybodaeth fanylach am faes arbennig i fynd ar wefan Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd www.gwynedd.gov.uk/gwasanaethaucymdeithasol. Cofier hefyd fod croeso i unrhyw un gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Adran ac mae'r manylion ar ddiwedd yr adroddiad.

## Beth sy'n digwydd yn genedlaethol, a'n gweledigaeth ni yn lleol

Mae'r rhan yma yn sôn am rhai o'r ffactorau cenedlaethol sy'n effeithio ar ddatblygiad ein gwasanaethau yn lleol. Nodir hefyd ein gweledigaeth, ein hegwyddorion a'r addewidion rydym yn eu gwneud i bobl fydd yn dod i gysylltiad â'n gwasanaethau.

### Y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Rydym yn rhagweld newidiadau sylweddol ym maes y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn sgil Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Yn Ionawr 2013 lansiwyd cam cyntaf y Bil gyda'r bwriad o osod fframwaith cyfreithiol cydlynol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a thrawsnewid gwasanaethau. Mae'n anorfod y bydd y newidiadau a'r datblygiadau yma'n effeithio arnom ni yng Ngwynedd ac edrychwn ymlaen at wynebu'r heriau sydd o'n blaenau.

Pam fod angen newid?

- Rhagwelir twf yn y galw am wasanaethau yn arbennig o ystyried y bydd cynnydd yn y boblogaeth hŷn
- Mae cymdeithas yn newid a bydd angen ymateb i'r newidiadau yma
- Mae adnoddau yn prinhau ac angen gwneud yn sicr ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian, o'r safon uchaf ar yr adeg iawn
- Mae angen sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws Cymru er tecwch i ddefnyddwyr a gofalwyr
- Mae angen datblygu gwasanaethau cryf a chynaliadwy i ymateb i anghenion a dyheadau plant, pobl ifanc ac oedolion y dyfodol



Beth fydd y prif newidiadau a'r blaenoriaethau?

- Rhoi lles pobl mewn angen gan gynnwys gofalwyr yn ganolog
- Rhoi llais a rheolaeth i bobl sydd angen gwasanaethau

- Sicrhau cyfeiriad cenedlaethol cryf gydag atebolrwydd ar lefel leol
- Diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion bregus
- Rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau a darpariaethau er mwyn sicrhau'r safon uchaf
- Datblygu gwasanaethau newydd addas ar gyfer grwpiau arbennig

## Diwygio Hawliau Lles

Un newid polisi sylweddol ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2013 oedd y newidiadau i'r system hawliau lles yng Nghymru a Phrydain. Gan ddechrau eleni, bydd rhai budd-daliadau cyfredol yn cael eu dileu'n raddol, gyda system newydd o fudd-daliadau yn dod yn eu lle. Bydd budd-daliadau â phrawf modd, fel Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Treth Gwaith a Budd-dal Tai, yn y pen draw yn cael eu disodli gan un budd-dal o'r enw'r Credyd Cynhwysol.

Bydd y Ddeddf yn debygol o gael effaith andwyol ar oddeutu 12,300 o ddinasyddion Gwynedd ac amcangyfrif bydd hyd at £19miliwn y flwyddyn yn cael ei golli o'r economi leol.

O ran ymateb leol i Wynedd, sefydlwyd Grŵp Tasg aml-asiantaeth ym mis Awst 2012 a Bwrdd Prosiect Mewnol ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r Grŵp Tasg yn cynnwys cynrychiolwyr o adrannau perthnasol y Cyngor, Cymdeithasau Tai a Cyngor ar Bopeth (CAB), Shelter Cymru ac Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn ogystal â phedwar aelod Cabinet. Y Bwrdd Prosiect Mewnol sy'n gosod y cyfeiriad, yn gyrru'r gwaith ac yn adnabod a chydlynu adnoddau arbenigol ar draws y sir drwy'r Grŵp Tasg aml-asiantaeth.

Pwrpas y trefniadau yw sicrhau bod dinasyddion mwyaf bregus y Sir yn derbyn cefnogaeth i ymdopi a'r Ddeddf Diwygio Lles mewn modd sydd yn gwneud y gorau o'r sgiliau, arbenigaeth ac adnoddau ar draws y Sir.

## Ein Gweledigaeth fel Cyngor…

**"*Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd*"**

- Sicrhau fod llais dinasyddion, defnyddwyr a gofalwyr yn ganolog i gynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau ynghyd a threfniadau gofal unigol
- Cyfrannu i gryfhau cymunedau er mwyn ein galluogi i gynnal y mwyaf bregus
- Datblygu'n perthynas gyda darparwyr gwasanaethau y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor
- Gwella ymarfer yn barhaus gan ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr ein gwasanaethau
- Mynnu gweithlu gyda'r sgiliau angenrheidiol a rheolwyr yn gallu arwain newid.
- Cryfhau'r gallu i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus
- Gwella a datblygu gwasanaethau ar y cyd yn enwedig gyda phartneriaid allweddol fel iechyd, a datblygu modelau gwasanaethau newydd gyda nhw
- Datblygu'r agenda ataliol a'r agenda o hyrwyddo annibyniaeth

**Ein Bwriad fel Adran …**

***"Cefnogi defnyddwyr ein gwasanaeth i gyrraedd eu llawn botensial gan fyw gartref cyhyd ag y dymunant yn ddiogel a bodlon."***

Prif bwrpas y Gwasanaethau Cymdeithasol yw diogelu plant, pobl ifanc ac unigolion bregus a'u cefnogi i fyw bywydau mor annibynnol â phosib o fewn eu cymunedau. Gwnawn hyn drwy gyd-gynhyrchu'r dyfodol mewn partneriaeth gyfartal rhwng unigolion, teuluoedd, cymunedau a phobl broffesiynol.

Ein bwriad drwy hyn fydd:

- Hyrwyddo a chynnal lles unigolion, teuluoedd a gofalwyr
- Datblygu Gwydnwch Teuluoedd a Chymunedau
- Gwaith Cymdeithasol a gofal dda ac ymyrraeth ar sail gadarn
- Canolbwyntio ar adfer a chynnal annibyniaeth
- Sicrhau'r gofal cywir yn y lle cywir am y gost gywir

## Ein hegwyddorion sylfaenol - ein haddewidion

Byddwn yn:

- Trin pob un fel unigolyn
- Hyrwyddo llais defnyddwyr a chydweithio gyda nhw i gynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau
- Galluogi pobl i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth glir a chywir
- Parchu a chynnal urddas, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a pharchu gwahaniaethau o bob math
- Datblygu a chynnal gwasanaethau sy'n parchu a hyrwyddo annibyniaeth wrth sicrhau gwarchod y mwyaf bregus rhag niwed
- Datblygu a chynnal gwasanaethau sy'n ennyn ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr, gofalwyr a theuluoedd ac sy'n uchel eu parch ymhlith poblogaeth Gwynedd
- Cyflogi staff sydd yn derbyn cyfrifoldeb am ddatblygu a gwella parhaus


DRAFT

# 2. Ein gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd

Mae defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn haeddu gwasanaethau diogel o'r safon uchaf ac mae'n ddyletswydd statudol ar sefydliadau gwaith a gofal cymdeithasol i ddarparu'r rhain. Wrth ddatblygu gwasanaethau felly, mae angen sicrhau'r ffactorau sy'n cyfrannu at lywodraethu cryf ac effeithiol. Ffactorau craidd model o'r fath yw:

- Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd
- Ymarfer Diogel ac Effeithiol
- Gwasanaethau hygyrch, hyblyg ac ymatebol
- Cyfathrebu effeithiol a gwybodaeth
- Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd a lles cymdeithasol

**Model Llywodraethu Gofal Cymdeithasol**




(Smyth,C. ac Simmons, L., 2006)

**Ymhelaethir yn y rhan canlynol ar ffactorau penodol o'r model a hynny yng nghyd-destun gwaith yr Adran.**

## Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

**Y Cyfarwyddwr Statudol**

Yn ddiweddar, yn unol ag argymhellion AGGCC a bwriadau Llywodraeth Cymru, fe benderfynwyd gosod cyfrifoldebau Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol yng Ngwynedd. Mae hyn yn sicrhau fod y rôl ar y lefel uchaf o fewn y Cyngor. Mae'n anorfod y bydd hyn yn golygu rhai newidiadau strwythurol o fewn yr Adran yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y rhain ar lefel reolaethol uwch gyda'r bwriad o gryfhau atebolrwydd a chynyddu pwyslais ar ddatblygu ymarfer o'r safon uchaf sy'n gallu tystiolaethu gwerth am arian.

**Cynllun Strategol y Cyngor**


Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Strategol 2013-17 sy'n rhoddi sylw dyledus i wireddu newidiadau sylweddol ym maes gofal cymdeithasol. Y prif weledigaethau o ran y maes gofal iechyd a lles yw i "gefnogi plant a phobl fregus i fyw bywydau cyflawn" ac "i ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach".



Anelir i sicrhau'r gweledigaethau drwy:

- Ymateb yn well i anghenion pobl fregus i sicrhau gwasanaethau gofal cynaliadwy
- Cynyddu gwaith ataliol ym maes gofal oedolion a phobl hŷn
- Amddiffyn plant ac oedolion
- Cynyddu gwaith ataliol a thargedu anghydraddoldebau ym maes iechyd

**Adnoddau Ariannol a Dynol**




Yn y flwyddyn ddiwethaf llwyddodd yr Adran i gadw rheolaeth gadarnhaol o'r gyllideb a thynhau rheolaeth gyllidol drwyddi draw. O ystyried yr hinsawdd ariannol anodd, roedd hyn i'w ganmol. Yn ychwanegol, gosodwyd targedau arbedion i'r gwasanaethau ac, er y llwyddwyd i sicrhau arbedion sylweddol drwy amrywiol brosiectau gwelwyd oedi mewn perthynas â gwireddu amcanion rhai o'r prif brosiectau. Mae'n anorfod y bydd hyn yn ychwanegu pwysau dros y flwyddyn nesaf gan y bydd angen gwireddu'r targed arbedion ynghyd ag adnabod arbedion pellach. Dyma un rheswm pendant dros yr angen i drawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithredu.

Er bod ein cyllidebau dan bwysau rydym yn ffodus iawn yng Ngwynedd fod gennym weithlu ymroddedig a brwdfrydig sy'n barod i wynebu'r her a'r newidiadau anorfod sydd o'n blaenau. Mae gennym weithlu sy'n sefydlog dros ben gydag ond ychydig o newid mewn staff o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn o fantais i'r gwasanaeth ond rydym hefyd yn cydnabod fod angen sicrhau nad ydyw hyn yn cyfrannu at unrhyw ymdeimlad o hunan-fodlonrwydd a'n bod fel gwasanaethau yn barod i ddatblygu a gwella ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n effeithiol yn y maes.

**Dysgu, datblygu a hyfforddiant**

Os am sicrhau datblygiad proffesiynol (unigolion, timau a'r gwasanaethau yn eu cyfanrwydd) mae'n angenrheidiol fod cyfleon dysgu gan gynnwys cyfleon hyfforddi, ar gael i bob aelod o staff.

O fewn y Gwasanaeth Oedolion yn ystod y flwyddyn aeth heibio cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus ar "Newid" yn ogystal â chynnal cynhadledd lwyddiannus ar newidiadau ym maes Anableddau Dysgu ar gyfer darparwyr, staff, defnyddwyr a gofalwyr. Trefnir rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant yn y maes arbenigol yma ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a hynny yn sgil canlyniadau adolygiad allanol. Rhoddir sylw i'r adolygiad yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Bu penderfyniad gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant yn canolbwyntio ar wella a chryfhau sgiliau craidd gweithwyr cymdeithasol a thrwy hynny wella ansawdd yr asesiadau a'r cynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc ymhob maes gwasanaeth.

Mae cymhwyster newydd sbon wedi ei lunio ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso yng Ngwynedd a ledled Cymru'n hybu eu sgiliau a'u hyder. Dyluniwyd a datblygwyd y cymhwyster, Tystysgrif i Raddedigion mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol a ddilysir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, gan bartneriaeth o 12 awdurdod yng Nghymru, a elwir **Porth Agored**.

Y dystysgrif hon yw'r rhaglen gyntaf i'w chymeradwyo gan Gyngor Gofal Cymru, fel rhan o'i fframwaith Dysgu ac Addysg Broffesiynol Barhaus newydd ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru, sy'n ceisio gwella safon arfer gwaith cymdeithasol ymhellach a chefnogi gweithwyr cymdeithasol wrth iddynt ddringo i frig y proffesiwn.




*"Mae hyn yn ddatblygiad pwysig i Wynedd er mwyn sicrhau datblygiad ein gweithwyr cymdeithasol i gyd-fynd ag agenda Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru. Mae'n dda gweld Gwynedd yn cyd-weithio gyda chynghorau a phartneriaid ar draws Cymru er mwyn sicrhau darpariaeth addas a chynaliadwy ar gyfer ein gweithlu."*

**Cynghorydd R H Wyn Williams, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd**


## Rheoli Perfformiad

Rydym yn parhau i wella'n prosesau casglu data ac yn hyderus y gallwn adrodd mewn ffordd ddeallus, gywir ac amserol ar ein perfformiad. Er hyn mae'r angen i sicrhau cynnydd yn y maes yma'n parhau ac rydym wedi llunio rhaglen waith ar gyfer 2013/14 sy'n cynnwys gweithio gyda thimau penodol er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau dadansoddi gwybodaeth fel cam cyntaf wrth werthuso'u gwaith a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Ein gobaith yw y bydd y wybodaeth yma o fudd mawr ar lefel leol wrth adnabod bylchau mewn darpariaethau ac wrth flaenoriaethu datblygiadau.

Ers rhai blynyddoedd bellach mae gweithwyr cymdeithasol wedi defnyddio system gyfrifiadurol i gadw gwybodaeth am achosion. Bellach mae'n amser diweddaru'r system ac, mewn consortiwm gyda nifer o awdurdodau eraill, rydym yn gwerthuso systemau. Y flaenoriaeth yw sicrhau system sy'n hwyluso'r broses o gofnodi a chadw gwybodaeth gan sicrhau budd defnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn amcanu i ddewis y system fwyaf addas yn ystod y flwyddyn.


## Mesuryddion Perfformiad 2012-2013

Llwyddodd y Gwasanaeth Oedolion i wella neu gynnal ei berfformiad yn 2012-13 ar 86% o'r mesuryddion cenedlaethol a lleol. Mae hyn yn galonogol iawn ond rydym yn cydnabod fod mwy o waith i'w wneud mewn perthynas â rhai meysydd os am gymharu'n ffafriol gydag awdurdodau eraill yng Nghymru gan gynnwys y gyfradd o bobl hyn y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned a'r gyfradd o bobl hyn mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal. Roedd cyrhaeddiad Gwynedd 2012-13 yn uwch neu yn gyson â chyrhaeddiad Cymru 2011-12 mewn 64% o'r mesuryddion cenedlaethol.




**Cymhariaeth o berfformiad y Gwasanaeth Oedolion yn 2012-2013 ac 2011-2012**

Yn dilyn gwaith penodol i wella perfformiad Gwynedd yn 2012/13, gwelwyd fod ein perfformiad mewn 74% o fesuryddion cenedlaethol ym maes gofal plant wedi gwella neu aros yn sefydlog o gymharu â 2011-12. Roedd cyrhaeddiad Gwynedd 2012-13 yn uwch neu yn gyson â chyrhaeddiad Cymru 2011-12 mewn 78% o'r mesuryddion cenedlaethol. Bydd y gwasanaeth yn rhoi camau penodol mewn lle er mwyn sicrhau gwelliant o fewn y meysydd lle fo cyrhaeddiad wedi gostwng neu sydd yn sylweddol is na lefel cenedlaethol. Yn 2013/14 bydd hyn i gynnwys parhau gyda'r ymdrechion i gynyddu'r ddarpariaeth lletya a hyfforddi ar gyfer plant 16oed+, a chydweithio gyda'r Adran Addysg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran cynlluniau addysg bersonol ac asesiadau iechyd.




**Cymhariaeth perfformiad Mesuryddion Cenedlaethol Gwasanaeth Plant a Theuluoedd 2012-13 gyda Chymru 2011-12**

Uwch na lefel Cymru
Cyson efo Cymru 11/12
Is na lefel Cymru

DRAFT

Cytunwyd ar gyfres newydd o fesuryddion lleol ar gyfer 2012-13 o dan y thema sefydlogrwydd, lles a diogelwch a hynny er mwyn gallu mesur effaith ac ansawdd ymyraethau ar fywydau plant a'u teuluoedd. Mae targedu'r agweddau yma wedi cyfrannu tuag at sicrhau gwella ansawdd gan gynnwys adroddiadau i gynadleddau achos.

## Ymarfer Diogel ac Effeithiol

**Panel Strategol Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus**
Heb os, diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yw'n blaenoriaeth fel Gwasanaeth ac fel Cyngor. I'r perwyl yma sefydlwyd Panel Strategol Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus ar lefel gorfforaethol i gadw trosolwg o'r maes yma sy'n berthnasol i bob Adran a Gwasanaeth o fewn y Cyngor. Yr her yw sicrhau ein bod fel Cyngor yn perchnogi'r agenda diogelu ar lefel gorfforaethol ac nad ydym yn ei weld fel agenda i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig.



**Panel Rhiant Corfforaethol**
Yn sgil disgwyliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Plant 2004 mae Panel Rhiant Corfforaethol hefyd wedi ei sefydlu fel panel ymgynghorol i gynghori Cabinet Cyngor Gwynedd ar faterion am les a budd plant a phobl ifanc sydd mewn gofal i Gyngor Gwynedd. Drwy hyn mae'r Cyngor, sef yr holl aelodau etholedig, yn dirprwyo eu cyfrifoldeb yn y maes i'r Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc. Mae gan y Panel yr hawl i ofyn i faterion sy'n achosi pryder iddynt gael eu craffu ar ei ran gan bwyllgor craffu o aelodau sydd ddim ar y Cabinet.

**Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn**
Agwedd allweddol arall yw'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn. Mae'r tîm yn gyfrifol am ddarparu holl Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer oedran 10 i 17. Mae hyn yn cynnwys gwaith ataliol, gwaith ymyrraeth cynnar, cefnogaeth cyn ymddangosiadau llys a gwaith yn y Llys ac ar ôl ymddangosiadau Llys. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau oedolion addas ar gyfer pobl ifanc sydd yn cael eu cyfweld gan yr Heddlu

**Sicrhau goruchwyliaeth reolaidd a chyson i'r staff**
Mae gan yr Adran bolisi a chyfundrefnau ffurfiol mewn lle ar gyfer goruchwylio staff proffesiynol. Er bod trefniadau gweithredu a monitro mewn lle, nodir yr angen i barhau i adolygu a miniogi trefniadau fel bo angen er mwyn sicrhau gwella perfformiad o ran goruchwyliaeth reolaidd.

**Rheoleiddio a chofrestru**
Mae gan yr Adran drefniadau ar gyfer monitro ansawdd gwasanaethau. Golyga hyn ystod o weithgareddau gan gynnwys ymweld â sefydliadau. Mae bwriad datblygu ymhellach trefniadau sicrwydd ansawdd fel gall problemau ac anghenion datblygiadol gael eu hadnabod a'u datrys yn brydlon ac effeithiol.

## Gwasanaethau Hygyrch, Ymatebol a Hyblyg




**Comisiynu**
Tystiwyd cynnydd yn ein rhaglen Comisiynu eleni gyda llawer o gyd weithio effeithiol ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid allanol. O ran blaenoriaethau 2012-13, canolbwyntiwyd ar ddatblygu cynlluniau Comisiynu Plant ac Amhariad Corfforol yn ogystal â rhoi cynlluniau gweithredu'r Cynllun Comisiynu Anabledd Dysgu a'r Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn ar waith.

Fel sail i'r cynlluniau comisiynu, mae model mapio anghenion ac adnoddau wedi ei ddatblygu. Mae hwn yn arf pwysig am ei fod yn dod â gwybodaeth am weithgaredd (niferoedd), tueddiadau i'r dyfodol, perfformiad a chyllid i gyd at ei gilydd gan ganiatáu i ni gynllunio'n llawer gwell a gweld lle rydym arni o ran gwireddu cynnwys ein cynlluniau comisiynu.

**Gweithio'n integredig**
Ni allai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyflawni'i raglen waith na gweithredu fel cyfundrefn effeithiol ar ei ben ei hun . Mae'n ddibynnol ar berthynas gref gyda nifer o wasanaethau eraill o fewn y Cyngor a gyda nifer o gyrff eraill oddi allan gan gynnwys awdurdodau lleol eraill, Iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, mentrau cymdeithasol, cymdeithasau tai, mudiadau gwirfoddol a chwmnïau preifat.

Wrth ystyried y gwaith sydd o'n blaenau ar gyfer y dyfodol bydd yn angenrheidiol i ni ddatblygu'r berthynas gyda'r partneriaid yma .

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**
O fewn y Cyngor, mae gennym gefnogaeth gref i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion deddfwriaeth ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i ystyried goblygiadau cydraddoldeb, ac i ymgymryd ag neu ddatblygu asesiadau effaith wrth geisio newid darpariaeth neu wasanaeth.


y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Arolwg o ofynion ac ymarfer Cyngor Gwynedd wrth ddarparu gwasanaethau Cartrefi Gofal (Preswyl a Nyrsio), a Gofal Cartref

Arolwg ar ran Cyngor Gwynedd

Mawrth 2013

Mae gennym ddyletswydd i gynnig ein gwasanaethau yn dewis iaith ein defnyddwyr a gwneir pob ymdrech i sicrhau gweithlu dwyieithog. Mae cynllun Gweithlu'r Adran yn rhoi sylw i sgiliau iaith y sector yn ei gyfanrwydd gan gynnig mewnbwn ar ymwybyddiaeth ieithyddol a hyfforddiant perthnasol. Rydym yn croesawu datblygiad y cwrs MA mewn Gwaith Cymdeithasol yn y Brifysgol ym Mangor. Dylai hyn sicrhau gweithwyr cymdeithasol Cymraeg eu hiaith o'r radd flaenaf ar gyfer y dyfodol.

Yn ychwanegol ymdrechwn i sicrhau bod gwasanaethau ar gael mewn ieithoedd eraill pan fo angen a dogfennau allweddol ar gael mewn fformat priodol ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr.

Rydym yn croesawu "Mwy na Geiriau", sef y fframwaith strategol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

DRAFT

Yn 2012/13 gofynnodd y Cyngor i ymgynghorydd gynnal “Arolwg o ofynion ac ymarfer Cyngor Gwynedd wrth ddarparu gwasanaethau Cartrefi Gofal (Preswyl a Nyrsio), a Gofal Cartref”. Ymgynghorwyd gyda darparwyr cartrefi gofal a chwmnïau gofal cartref yn y broses o lunio’r adroddiad a chwblhawyd yr arolwg ym Mawrth 2013. Fel ymateb i’r adroddiad fe fyddwn yn diwygio rhai elfennau o’n cytundebau gyda darparwyr i adlewyrchu disgwyliadau anghenion ieithyddol y defnyddwyr gwasanaeth.

## Cyfathrebu Effeithiol a Gwybodaeth

**Cyfathrebu effeithiol**

Er bod cyfathrebu effeithiol yn sgil sylfaenol ym maes gofal a’r gwasanaethau cymdeithasol rydym yn ymwybodol iawn fod angen newid a datblygu dulliau o gyfathrebu os am wireddu’n huchelgais o gynnwys unigolion , teuluoedd a chymunedau yn y broses o gynllunio , darparu a gwerthuso safon gofal. Mae angen symud o fodel “tadol“ sy’n awgrymu fod staff proffesiynol yn gwybod beth sydd orau i sefyllfa lle rydym yn eistedd gyda’n gilydd i drafod sut wasanaethau a darpariaethau gofal mae pobl Gwynedd eisiau eu gweld yn y dyfodol, sut y gallant gyfrannu i ddatblygu’r rhain o fewn eu cymunedau. Ni fydd yr un anghenion gan bob ardal a chymuned - a’r her fydd cyd gynhyrchu cyfundrefn sy’n blethiad o ofal anffurfiol cymunedol ac o ofal ffurfiol wedi ei selio ar anghenion yr unigolion mwyaf bregus. Bydd angen cychwyn gyda strategaeth sy’n disgrifio sut y gallwn gyflawni hyn a’n bwriad yw llunio strategaeth o’r fath yn y cyfnod nesaf.

**Gwybodaeth**

Bu i Uned Gofal Cwsmer yr Adran gydlynu 112 cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chyfarch 58 cais am fynediad at wybodaeth bersonol o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998.

**Trefn gwynion**

Derbyniwyd cyfanswm o 205 o gwynion drwy drefn gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn. O’r rhain roedd 88 yn anffurfiol, 115 yn ffurfiol ac aeth 2 achos i’r Ombwdsman. Mae nifer o wersi wedi deillio o gwynion yn ystod y flwyddyn ac fe’u cofnodir mewn fformat cynllun gweithredu. Y bwriad yw ymgorffori materion dysgu mewn ffordd llawer mwy cynhwysfawr i’r dyfodol. Mae’r angen i ddysgu gwersi yn rhan allweddol o wella gwasanaethau.

**Canmoliaeth**

***“Roedd y ferch ifanc a ddaeth yma ddoe yn out of this world o ffeind.”***

Roedd cyfanswm o 1,253 o ddiolchiadau yn ystod y flwyddyn. Oherwydd natur y ddarpariaeth a chyswllt dyddiol gyda’r defnyddwyr, mae’r rhan helaeth o rain yn ddiolchiadau i elfennau preswyl a gofal cartref y Gwasanaeth Darparu a Hamdden.


***“Rydym fel teulu yn ddiolchgar iawn am y cyfle i leisio sylwadau yn barchus iawn y bore ma, felly ar ran mam, diolch unwaith eto i bawb.”***

# 3. Ein gwasanaeth i'n hoedolion

Ein bwriad yw hybu a chynnal annibyniaeth gan alluogi pobl i fyw yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain ag o fewn eu cymunedau cyhyd ag y dymunant.


Mae'r grwpiau defnyddwyr rydym yn eu gwasanaethu yn cynnwys:-

- Pobl Hŷn (sef pobl 65 oed a throsodd)
- Anabledd Corfforol a synhwyred
- Cefnogaeth iechyd meddwl
- Anabledd Dysgu
- Diogelwch Oedolion ("POVA")
- Gofalwyr




Mae modd cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol bedair awr ar hugain y dydd bob dydd o'r flwyddyn. Gwasanaethau brys yn unig a ddarparir tu allan i oriau gwaith ar hyn o bryd. Mae pob ymholiad newydd o safbwynt y gwasanaethau oedolion, heblaw am Wasanaeth Iechyd Meddwl, yn cychwyn gyda'r Tîm Cynghori ac Asesu sydd wedi'i leoli yng nghanolfan galw'r Cygnor ym Mhenrhyndeudraeth. Mae gan y gwasanaeth Iechyd Meddwl trefniadau ar wahân ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Yn ystod 2012/13 bu i'r Tîm Cynghori ac Asesu (sy'n derbyn cyfeiriadau ac yn ymateb i ymholiadau) ymdrin â 15,600 ymholiad arweiniodd at 3,149 o gyfeiriadau i'r gwasanaethau Oedolion.**




**Beth wnaethom yn 2012-13?**

**Perfformiad Maes Oedolion 2012- 2013**



Mae'n gweledigaeth yn dweud yn glir mai'n amcan yw cynorthwyo a chefnogi pobl i fyw mor annibynnol cyhyd ag y gallant ac y dymunant, ac mae'r lleihad yma yn y defnydd o gartrefi preswyl yn adlewyrchu'r ffocws sydd gennym ar hyrwyddo annibyniaeth. Gwyddom hefyd fod pobl sydd yn symud i gartref preswyl neu nyrsio yn debygol o fod yn hŷn a chanddynt anghenion dwysach o lawer nag yn flaenorol gyda cynnydd yn y nifer o bobl gyda dementia.




Bu llwyddiant arbennig mewn osgoi oedi wrth ryddhau pobl dros 75 oed o’r ysbyty. Roedd ein perfformiad yn isel i gymharu â Chymru yn 2010-11, ond eleni rydym ymysg y gorau yng Nghymru.

Yn ogystal bu i ni barhau i leihau’r gyfradd o ddefnyddwyr sy'n symud i gartref preswyl, a hynny am y seithfed flwyddyn yn olynol. (Gweler y tabl gyferbyn.) Er cydnabyddir fod angen parhau’r patrwm er sicrhau perfformiad sydd yn adlewyrchu y norm i Gymru.

Er y gwelwyd gostyngiad yn y canran o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu adolygiad o’u hanghenion yn ystod y flwyddyn, roedd cynnydd yn y canran o ofalwyr a dderbyniodd wasanaeth yn dilyn asesiad.

Gwelwyd llwyddiant wrth gefnogi pobl i fyw gartref, gyda chynnydd o 30% ar y flwyddyn flaenorol yn y nifer o ddefnyddwyr a dderbyniodd gwasanaeth galluogi, a chynnydd o 42% yn y nifer a dderbyniodd becynnau teleofal arbenigol newydd. Fodd bynnag, roedd gostyngiad o 24% yn y nifer a dderbyniodd becynnau teleofal sylfaenol newydd.

| Blwyddyn | Galluogi | Nifer Defnyddwyr Teleofal | Teleofal Arbenigol Newydd | Teleofal Sylfaenol Newydd |
|---|---|---|---|---|
| 2012/13 | 529 | 1,417 | 88 | 379 |
| 2011/12 | 342 | 1,312 | 62 | 498 |

Mae ymdrechion wedi parhau yn y flwyddyn i symud y rhaglenni trawsffurfio gwasanaeth a hynny er mwyn hyrwyddo iechyd, lles ac annibyniaeth gan gynnwys mentrau:

- Eich cefnogi i fyw gartref
- Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl Gwynedd
- Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Dydd Gwynedd
- Amddiffyn, diogelu a chefnogi ein trigolion fwyaf bregus
- Gweithio’n fwy integredig

## Eich cefnogi i fyw gartref



**Galluogi**
Prif bwrpas y gwasanaeth galluogi yw rhoddi cymorth i unigolion sydd wedi colli sgiliau gofal personol fel canlyniad i salwch neu anabledd (neu sydd wedi colli hyder) ail ddysgu'r sgiliau hynny ac ennill hyder gyda chefnogaeth gofalwyr cartref a therapyddion arbenigol.

Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at ein hamcan o gadw pobl mor annibynnol â phosibl cyhyd ag sy'n bosibl a lleihau dibyniaeth tymor hir ar wasanaethau ffurfiol.

Bellach mae'r gwasanaeth Galluogi wedi ei brif-lifo ac yr ydym yn gweithredu model lle mae pawb sydd angen cymorth cartref yn cychwyn gyda chyfnod o alluogi gyda'r bwriad o hyrwyddo sgiliau bywyd bob dydd. Mae'r gwasanaeth yma yn rhad ac am ddim am y cyfnod hyd at chwe wythnos. Mae Swyddogion Galluogi arbenigol mewn lle sy'n sicrhau ein bod yn ymateb yn addas ac yn amserol i bob achos unigol.

**Yn 2012-13, fe gychwynnodd 529 o ddefnyddwyr y gwasanaeth Galluogi. O’r rhai a orffennwyd yn 2012-13, llwyddodd 46% i adfer annibyniaeth llwyr a gadael heb becyn gofal, tra bod 15% wedi gadael gyda lleihad mewn pecyn gofal.**

**Uned Galluogi Lleu**
Agorwyd Uned Galluogi Lleu ym Mhlas Gwilym, Penygroes gyda 6 ystafell unigol ar gael ar gyfer defnyddwyr sydd angen ymyrraeth ddwys tymor byr. Mae'r Uned yn cynnwys cegin arbennig lle y gellir adfer sgiliau coginio sydd yn allweddol i adfer a hybu annibyniaeth. O'r nifer a dreuliodd amser yn Uned Lleu dychwelodd 53% i'w cartref eu hunain.



***Uned Galluogi Lleu Penygroes***

*“Dwi’n hapus iawn bod ‘na opsiwn gwahanol sy rhwng mynd i gartref preswyl a bod adra…”*

*“Dwi’n teimlo’n saff yma; mae’r staff yn cefnogi ond ddim yn cymryd drosodd..”*

*“Mae’n rhoi cyfle i gryfhau ac yn helpu dechrau edrych ar ôl ei hunain eto.”*

**Teleofal**
Gall unrhyw oedolyn sy'n byw yng Ngwynedd ac sydd angen cymorth i fyw yn annibynnol a diogel yn eu cartref gael Teleofal. Mae'r system teleofal yn ymwneud â'r defnydd o sensoriaid yn y cartref. Gall y sensoriaid yrru neges uniongyrchol trwy'r 'lifeline' i ganolfan fonitro mewn argyfwng. Mae gan y system amryw o fuddion gan gynnwys cynyddu hyder, eich helpu i fyw yn annibynnol gartref a rhoi sicrwydd fod help ar gael pan fo angen yn ogystal â rhoi cefnogaeth a thawelwch meddwl i chi, eich gofalwr a theulu.

***"Hoffwn ddiolch i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd am eu cymorth yn trefnu i mi gael 'System Loop' yn fy nghartref. Diolch am gwblhau'r gwaith mewn ffordd effeithiol, hwyliog a boneddigaidd."***

Er na chyrhaeddwyd y targed o 100 pecyn arbenigol yn y flwyddyn, rhaid cydnabod fod 88 yn gynnydd derbyniol ar 62 y flwyddyn flaenorol. Yn ychwanegol at hyn, darparwyd 379 pecyn sylfaenol. Penodwyd Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Teleofal yn ystod y flwyddyn i farchnata, codi proffil a hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r offer arbennig yma ym mhob maes. Yn dilyn y penodiad, mae cynllun gwella cynhwysfawr yn cael ei lunio i sicrhau cynnydd yn yr hyrwyddo a defnydd o becynnau cymhleth.

## Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl Gwynedd

**Tai Gofal Ychwanegol**
Yn unol â'n gweledigaeth o hybu a hyrwyddo annibyniaeth gwelwn ddefnyddwyr gwasanaeth yn byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain mewn ardal o'u dewis ond gyda lefel o gymorth sy'n addas i anghenion gwahanol pob unigolyn.



Yn Hydref 2012, agorwyd Awel y Coleg yn Y Bala. Datblygwyd yr Uned o 30 o Dai Gofal Ychwanegol yn sgil cau cartref preswyl Bron y Graig Y Bala. Mae ein diolch yn fawr i reolwr, staff a thrigolion y cartref a'r ardal am eu cydweithrediad yn ystod y cyfnod anodd yma ond hyderwn bellach fod croeso i'r ddarpariaeth newydd.

***"Rydyn ni wedi cael croeso gwresog yma'n Awel y Coleg ac wedi setlo yma'n rhwydd iawn. Mi symudon ni yma oherwydd ei bod hi'r amser iawn i ni'n dau. Mi ges i godwm yn y tŷ rai misoedd yn ôl a dyw iechyd fy ngŵr ddim wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar…Mae gennym ni breifatrwydd yn ein fflat pan rydyn ni eisiau llonydd ond gallwn ni ymuno â'n ffrindiau yn yr ardaloedd cymunedol pan rydym awydd sgwrs. Mae'r adnoddau yn wych yma, mae'r staff yn gyfeillgar ac yn fwyaf oll mae 'na ymdeimlad o agosatrwydd cymunedol yma." Preswylydd Awel y Coleg.***

O ran ein strategaeth ehangach yn y maes yma, mae gwaith adeiladu pellach wedi cychwyn ar ddatblygiad tai gofal ychwanegol gwerth £8.4 miliwn ym Mhenrhosgarnedd ar gyfer pobl dros 55 oed. Mae Cae Garnedd yn gynllun ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Thai Gogledd Cymru, a pan yn cael ei agor yn 2014 - bydd y cyntaf o'i fath yn ardal Bangor.

**Cynllun o ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol ardal Bangor a gychwynwyd yn 2012-13**



**Trawsffurfio'r ddarpariaeth breswyl Anabledd Dysgu**
Yn dilyn dod a defnydd cartref preswyl Pant yr Eithin Harlech i ben ym Mawrth 2012, ail sefydlwyd trigolion Pant yr Eithin yn llwyddiannus. Rhaid diolch i reolwyr, staff, trigolion a theuluoedd am eu cefnogaeth ddiflino ar yr adeg anodd yma - gwerthfawrogwn fod cau'r cartref wedi achosi cryn boen a phryder i nifer ond gobeithiwn y gellir gwerthfawrogi'r ymdrechion a wnaethpwyd i sicrhau fod pawb yn symud i leoliad sy'n cyfarfod a'u hanghenion a'u dymuniadau.

Er na lwyddwyd i drosglwyddo tir Pant yr Eithin Harlech i gymdeithas dai lleol cyn ddiwedd y flwyddyn, yn unol â'r bwriad gwreiddiol, cymerwyd camau cadarnhaol i hwyluso'r datblygiad a chymeradwywyd cais cynllunio gan Awdurdod Parc Eryri ar gyfer datblygu'r safle.

Yn ystod 2012-13, derbyniwyd sêl bendith y Cabinet i edrych ar ddyfodol safleoedd Tan y Marian Pwllheli a'r Frondeg Caernarfon. Byddwn yn symud ymlaen gan gadw'r gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â Phant yr Eithin mewn cof.

**Gofal Ysbaid**
Seibiant i ofalwyr yw prif amcan gofal ysbaid hefyd ac fe ddarperir y gwasanaeth yma mewn cartrefi preswyl ledled Gwynedd. Mae'r nifer o nosweithiau ysbaid a darparwyd wedi cynyddu o 2,263 yn 2011-12 i 2,389 noson yn 2012-13. Ein bwriad yw parhau i gynyddu cyfleoedd ysbaid ac i'r perwyl yma bwriadwn ddatblygu un cartref preswyl i arbenigo mewn gofal ysbaid. Byddwn yn treialu'r system newydd yn ystod y flwyddyn nesaf ac edrychwn ymlaen at dderbyn adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

## Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Dydd Gwynedd

**Gofal dydd i bobl hŷn**
Yn draddodiadol gwelwyd gofal dydd i bobl hŷn fel cyfle i bobl gymdeithasu, i gael pryd o fwyd mewn cwmni da ac i gael cymorth gydag agweddau o ofal personol. Ar hyn o bryd rydym yn darparu gofal dydd mewn canolfannau dydd ac mewn cartrefi preswyl.



Er modd fuddiol yw'r ddarpariaeth rydym yn gwybod ei fod yn bur draddodiadol ac rydym yn awyddus iawn i ddatblygu'r gwasanaeth ar newydd wedd heb golli elfennau gofal cadarnhaol y model gwreiddiol.

DRAFT

Mae angen i'r gwasanaeth fod yn hyblyg ac mor lleol â phosib er mwyn grymuso unigolion a chymunedau gan gadw cydbwysedd rhwng cynnig dewis, annibyniaeth a chefnogaeth. Mae Age Cymru wedi arwain yn y maes yma a gwelwyd datblygiadau ganddynt yn Nefyn, lle sefydlwyd Canolfan Heneiddio'n Dda, ac yn Y Bala gyda'r amcan o ddarparu gweithgareddau lu i bobl hŷn.

Efallai bod angen gofyn a ellid defnyddio adnoddau sydd eisoes o fewn cymunedau ar gyfer darparu elfennau o ofal dydd fel y gwneir mewn rhai ardaloedd eraill. Gallai'r adnoddau yma gynnwys bwytai a thafarndai, canolfannau hamdden a chlybiau chwaraeon, capeli ac eglwysi, cymdeithasau a mudiadau lleol. Mae pob person hŷn yn unigolyn gydag amrywiaeth o ddiddordebau – mae'n bwysig i hybu gallu'r unigolyn i ddatblygu a chynnal y diddordebau yn hytrach na chwilio am un ateb ar gyfer pob anghenion.

**Gofal dydd dementia**

Sefydlwyd gwasanaeth dydd arbenigol ar gyfer oedolion a phroblemau cof yn Arfon yng Nghanolfan Ddydd Plas Hedd, Bangor ar y cyd rhyngom ni a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Darperir y gwasanaeth bob ddydd Mercher a dydd Sadwrn. Rydym yn fawr obeithio y bydd yn gyfrwng i bobl gymdeithasu a mwynhau ac yn gyfle, hefyd, i ofalwyr gael ychydig o seibiant a'u cynorthwyo i barhau gyda'r gofal arbennig maent yn ei roi.

***"Mae'n ddiwrnod allan da iawn i fy ngŵr gan ei fod ddim yn cymdeithasu o gwbl, nid yw'n gallu cyfathrebu llawer i roi adborth ei hun, fodd bynnag, mae'n awyddus iawn i fynychu ac mae gwên fawr ar ei wyneb pan mae'n gweld y gyrrwr tacsi"***
***Gofalwraig defnyddiwr gwasanaeth, Gwasanaeth Oedolion.***

**Cynllun Cymunedol Arfon**

Mae'r prosiect yma yn un arloesol gan ei fod yn ceisio ymateb i anghenion oedolion sydd yn dangos arwyddion cynnar o ddementia. Mae dementia gan bobl hŷn yn derbyn proffil uchel ond nid yw hyn yr un mor wir am anabledd dysgu. Daeth y cynllun i'r brig yn y categori gwaith ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol mewn diwrnod gwobrwyo yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd yn ystod 2012-13.

## Amddiffyn, diogelu a chefnogi ein trigolion fwyaf bregus

**Adolygiad Cychwyn i'r diwedd o'r gwasanaeth Anabledd Dysgu**

Yn ystod y flwyddyn bu cwmni allanol yn gwneud adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaeth. Canlyniad yr adroddiad terfynol oedd ein bod yn mynd yn y cyfeiriad iawn a chafwyd cyngor ar sut i wella. Yn sgil hyn bydd ymdrechion 2013-14 i gynnwys canfyddiadau'r adolygiad i ddatblygu cynllun gweithredu a hyfforddi i'r dyfodol.



**Maes Gofalwyr**

Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
Carers Outreach Service

Amcangyfrifir fod oddeutu 14,000 o ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd. Yn 2012-13, gwelwyd yr agenda gofalwyr yn cynyddu gyda mwy a mwy o bwyslais ar gyfarfod ag anghenion gofalwyr anffurfiol. Mae gofalwyr yn ganolog i ofal a lles defnyddwyr gwasanaethau a chleifion ac yn bartneriaid allweddol i ddarparwyr gwasanaethau, fodd bynnag gallai diffyg cefnogaeth i'r gofalwyr arwain at straen enfawr. Mewn ymgais i gynyddu'r gefnogaeth mae gofalwyr yn ei dderbyn, sefydlwyd swydd gweithiwr cefnogi gofalwyr llawn amser gan 'Carers Outreach' yn Ysbyty Gwynedd Bangor yn Chwefror 2012.

**Hyd at ddiwedd Mawrth 2013, roedd 110 o ofalwyr yng Ngwynedd wedi derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth.**

***"Nid oeddwn yn teimlo fy mod ar ben fy hun ddim mwy. Roedd bod yn ofalydd oedd bellach gydag anghenion gofal fy hun yn rhagolwg digalon iawn. Cefais y cymorth ymarferol a'r hyder roeddwn ei angen. Roedd penderfyniadau yn cael eu gwneud cyn i mi adael yr ysbyty, felly roeddwn yn gwybod sut i ymdrin â phroblemau oedd yn codi."***
**Gofalwraig sydd wedi cael strôc ac yn gofalu am ei gwr sy'n dibynnu arni o ganlyniad i ddiffyg symudedd**




Heb os, mae Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd yn gyfrwng i sicrhau bod materion gofalwyr yn derbyn sylw. Mae'r faes sydd angen sylw manwl gan Wasanaethau Cymdeithasol a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd dros y 12 mis nesaf yn benodol yn sgil y pwyslais cynyddol gan Lywodraeth Cymru.

**Amddiffyn Oedolion Bregus**


Yn ystod 2012/13 rydym wedi cyd weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn adolygu trefniadau Amddiffyn Oedolion Bregus gyda'r bwriad o sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn gadarnhaol i ofynion Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Erbyn hyn, mae fforwm Gwynedd a Môn yn cael ei adnabod fel Bwrdd Cysgodol Diogelu Oedolion Gwynedd a Môn.

Derbyniodd y Gwasanaeth gyfanswm o 168 cyfeiriad oedd yn cwrdd â'r trothwy o ran newid 'arwyddocaol'. Llwyddwyd i ymateb yn gadarnhaol i'r cyfeiriadau yma. Y prif gategorïau yn agored i niwed oedd anabledd corfforol, anabledd dysgu, a phroblemau iechyd meddwl.

Cyflwyna'r tabl gyferbyn wybodaeth am y mathau o gam-drin sydd wedi eu hamlygu drwy gyfeiriadau 2012-13. Sylwer fod dros draean ohonynt yn rhai corfforol eu natur tra bod 29% yn rhai ariannol eu natur. Gosoda'r elfen ariannol yma her benodol i'r Gwasanaeth i'r dyfodol.




Dengys y tabl isod sut ymatebwyd i'r 168 cyfeiriad a dderbyniwyd yn 2012-13.




## Gweithio'n fwy integredig

### Gwaith Ardal ar y cyd gydag Iechyd

Yn hanesyddol mae cyd weithio, a pherthynas waith dda wedi bodoli rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yng Ngwynedd. Mae'r berthynas rhwng staff maes y ddwy asiantaeth yn parhau yn gryf ond byddai'n deg dweud fod angen sylw pellach i gydgynllunio, cyd-ddatblygu a chyd cynnal gwasanaethau. Mae'r seiliau yn eu lle ond mae angen adeiladu ar y rhain.

I'r dyfodol, rydym yn awyddus i gryfhau ein trefniadau cyd-gomisiynu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mae'r datblygiad rhanbarthol diweddar mewn perthynas â sefydlu un pwynt cyfeirio neu un pwynt cyswllt ar gyfer gwasanaethau oedolion yn arwydd pendant o'n dymuniad i gryfhau cydweithio. Mae'n ddisgwyliad pendant gan Lywodraeth Cymru.

Cychwynnodd gwaith "Ardal" yn addawol dros ben pan sefydlwyd y prosiect ar y cyd gydag Iechyd ym Meirionnydd gyda'r bwriad o sicrhau ymyrraeth gynnar ac addas yn eu cartrefi'u hunain i gleifion yn dioddef o afiechydon cronig. Y bwriad oedd cyfrannu at gadw pobl allan o'r ysbyty gan sicrhau'r mewnbwn meddygol a'r mewnbwn gofal cywir ar yr adeg gywir. Bu'r fenter yn llwyddiannus ac o ganlyniad ymestynnwyd y ddarpariaeth i gynnwys agweddau eraill o wasanaethau Iechyd. Credir fod hyn wedi bod gam yn ormod ar y pryd ac ni ellid cynnal y cynnydd cychwynnol . Byddwn yn adolygu'r prosiect yn ystod y cyfnod nesaf.



Rydym hefyd fel gwasanaeth wedi ymrwymo i weithio ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill yn y gogledd ac i fanteisio ar bob cyfle i gryfhau ein perthynas a dulliau o weithio er mwyn bod yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae cyd weithio eisoes wedi dod a chanlyniadau cadarnhaol , er enghraifft, yn Ysbyty Gwynedd o ran sefydlu trefniadau Teleofal, comisiynu pecynnau drud ar gyfer unigolion gydag anableddau dysgu, tîm allan o oriau ar y cyd ac Ynys Môn. Ein bwriad yw adeiladu ar hyn dros y cyfnod nesaf.

**Gwasanaeth gwaith cymdeithasol Ysbyty Gwynedd**
Sefydlwyd y gwasanaeth gwaith cymdeithasol yma fel menter ar y cyd rhwng Cynghorau Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Yn ystod ail hanner 2012-13 tynnodd Conwy allan o'r bartneriaeth ar y sail fod nifer o gleifion y Sir sy'n defnyddio'r ysbyty wedi lleihau yn sylweddol. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae mwy o gleifion Conwy yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ac maent nawr wedi ail sefydlu yn yr ysbyty.

## 4. Ein gwasanaethau i'n plant a theuluoedd

Ein bwriad yw diogelu a hyrwyddo lles ein plant a phobl ifanc mwyaf bregus er mwyn eu galluogi i gyrraedd eu llawn potensial.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu a chomisiynu ystod o wasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cynnwys:

- Diogelu Plant
- Asesu anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd a gyfeirir
- Plant Anabl a Sâl
- Cefnogi Teuluoedd a Phlant Mewn Angen
- Pobl Ifanc sy'n gadael Gofal
- Gofalwyr Ifanc
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Maethu a Gwasanaethau i Blant Mewn Gofal
- Mabwysiadu a threfniadau Tymor Hir ar gyfer plant mewn gofal



**Llwyddwyd i ymateb a gwneud penderfyniad o fewn 24 awr ar 98.8% o'r cyfeiriadau a dderbyniwyd.**


DRAFT


**Beth wnaethom yn 2012-13?**

**Perfformiad Maes Plant a Theuluoedd 2012- 2013**

Perfformiodd y gwasanaeth  yn gadarnhaol mewn amryw o feysydd a adnabuwyd gan AGGCC fel rhai sydd angen gwella.

Cyfeiriwyd 1,656  o blant a phobl ifanc at y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yng Ngwynedd yn 2012/13 o'i gymharu â 2,064 yn 2011/12. Llwyddwyd i ymateb a gwneud penderfyniad o fewn 24 awr ar 98.8% o'r cyfeiriadau a dderbyniwyd ac mi oedd hyn yn gynnydd ar flynyddoedd blaenorol.







| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 122.88 | 145.95 | 151.65 | 183.24 | 193.00 | 221.00 |
| Gwynedd | 274.75 | 51.54 | 128.50 | 188.40 | 314.00 | 289.00 |

Cafwyd gwelliant mewn nifer o fesuryddion a gwelwyd effaith gadarnhaol ar fywydau plant, yn benodol ar sefydlogrwydd plant mewn gofal yn eu lleoliadau, canlyniadau addysgol plant mewn gofal, cynnal adolygiadau achosion plant mewn gofal, cynadleddau amddiffyn plant ac mewn ymateb yn amserol i gyfeiriadau i'r gwasanaeth.

Er hyn, bu dirywiad yn y perfformiad mewn perthynas ag adolygiadau statudol amserol ar gyfer plant mewn gofal, wrth sicrhau fod gan bob plentyn Gynllun Addysg Bersonol, ac yn cael archwiliad meddygol yn amserol. Mae'r materion eisoes yn derbyn sylw rheolwyr y Gwasanaeth ac mae cynnydd eisoes wedi ei wneud yn achos adolygiadau statudol amserol - gwrth-drowyd y dirywiad mewn perfformiad erbyn diwedd Mehefin 2013.




| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 30.43 | 61.25 | 100.00 | 89.47 | 86.10 | 50.90 |

%

Mae ymdrechion 2012/13 wedi cynnwys ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'r Gwasanaeth, yn ogystal â chynnal a datblygu'r dyletswyddau craidd i gynnwys:

- Adolygiad "Dechrau i'r Diwedd" Plant a Theuluoedd
- Amddiffyn a diogelu ein plant a theuluoedd fwyaf bregus
- Cynnal a hyrwyddo sefydlogrwydd plant sydd mewn gofal
- Gweithio'n fwy integredig
- Darparu llety a chefnogaeth addas i bobl ifanc sydd yn gadael gofal
- Rhaglen Hyfforddi Mandadol


## Adolygiad "Dechrau i'r Diwedd" Plant a Theuluoedd

Yn sgil y ffaith fod Gwynedd yn gwario'n sylweddol fwy na chynghorau tebyg ar wasanaethau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd penderfynwyd cynnal adolygiad "O'r Dechrau i'r Diwedd" i geisio canfod ymhle roedd y gwariant mwyaf a'r rhesymau tu cefn hyn. Bydd yr adroddiad terfynol wedi'i gwblhau erbyn yr hydref 2013 ond gwelwn eisoes fod y gwariant mwyaf ar leoliadau all-sirol i bobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad heriol a / neu ymddygiad rhywiol anaddas.

Mae'r lleoliadau yma angen mewnbwn arbenigol ac maent wrth reswm, yn ddrud iawn. Bydd angen adolygu'n defnydd o leoliadau tebyg yn y dyfodol a chreu arbenigedd ar lefel ranbarthol a mewnol fel y gallwn ymateb yn lleol i anghenion y bobl ifanc yma ynghyd â thystiolaethu gwerth am arian.

## Amddiffyn a diogelu ein plant a theuluoedd fwyaf bregus

**Diogelu - Model Risg (1 a 2)**
Yr ydym yn parhau fel Adran i uchafu ein defnydd o'r Model Risg (1 a 2) sef ffordd o adnabod risgiau mewn achosion. Mae'r ffordd yma o weithio yn sicrhau fod gweithwyr yn gofyn cwestiynau rheolaidd am risg ac yn dod i benderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn cynyddu ein defnydd o'r fframwaith benderfynu yma, a nodwyd yn ddiweddar fod 96% o'n hadroddiadau i gynhadledd achos yn dangos ansawdd dda o ran cyflwyno dadansoddiad risg niwed arwyddocaol.




**Cam 2 – Model Asesu Risg**

> ***"Mae'n amlwg mewn cynadleddau fod ansawdd adroddiadau gweithwyr a'u dadansoddiad o risg wedi gwella'n sylweddol. Mae effaith ein buddsoddiad wrth hyfforddi ein gweithwyr yn y maes yma yn dangos gwir effaith."***
>
> **Cydlynydd Amddiffyn Plant Gwynedd**

## Cynnal a hyrwyddo sefydlogrwydd plant sydd mewn gofal




Mae'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar drefniadau cynllunio i sicrhau sefydlogrwydd i blant mewn gofal a bu gwelliant mewn trefniadau a phrosesau.

Yr oedd perfformiad Gwasanaeth Plant Gwynedd y gorau yng Nghymru o ran sefydlogrwydd lleoliadau i blant mewn gofal yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth maethu yn parhau i weithio i recriwtio, asesu a chefnogi rhieni maeth o safon uchel ac mae modd cysylltu â'r Tîm am fwy o wybodaeth am faethu a mabwysiadau yn gyffredinol www.gwynedd.gov.uk/maethu.

**Gwasanaeth Maethu**
Ar ddiwedd Mawrth roedd 106 o rieni maeth wedi eu cofrestru gyda Chyngor Gwynedd - y nifer uchaf erioed ac mae'r gwasanaeth yn gyson yn taro ei darged o asesu a chofrestru 20 uned faethu newydd mewn blwyddyn. Roedd yr adborth o Archwiliad Maethu gan AGGCC yn Hydref 2012 yn gadarnhaol.

> ***"Mae'r gefnogaeth a'r arweiniad rydym yn ei dderbyn yn ddi-fai ac ystyriwn hyn i fod yn hanfodol - mae hi bob tro ar gael i siarad ac yn ein helpu gydag unrhyw bryderon"***

Mae pwyslais cynyddol ar sicrhau fod aelodau o deuluoedd estynedig plant sydd yn dod i ofal yn cael eu hystyried fel gofalwyr maeth ar eu cyfer. Gall hyn fod yn brofiad cadarnhaol iawn i'r plentyn ac i'r teulu yn ei gyfanrwydd. Mae angen lefel uwch o gefnogaeth gan y tîm maethu mewn achosion o'r fath.




***"Cefnogaeth ardderchog - proffesiynol ac yn hawdd mynd ato"***

Yn ogystal, gweithredir cynllun gofal maeth peripatetig, sy'n golygu fod gan y gwasanaeth 'rieni maeth symudol' sy'n symud i mewn i gartrefi gofalwyr ac yn achosi'r newid lleiaf posib i'r plant. Mae gennym 4 gofalwr peripatetig sydd yn gwneud gwaith rheolaidd gyda 2 deulu penodol.

Mae diolch y Cyngor a'r Gwasanaeth i'r rhieni maeth yn fawr iawn.

**Canolfannau cyswllt i deuluoedd**

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd pum ganolfan gyswllt yng Ngwynedd - un yn Nolgellau, un ym Mhorthmadog, un ym Mhwllheli a dwy ganolfan yng Nghaernarfon - a hynny er mwyn sicrhau fod teuluoedd yn cael gwell ansawdd o gyswllt gyda'u plant sydd mewn gofal. Yn y canolfannau cyswllt penodol, mae adnoddau ar gael i deuluoedd gael eu hasesu mewn amgylchedd preifat a derbyniol.

## Gweithio'n fwy integredig

**Derwen**




Tîm Integredig ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw Derwen ac mae'n darparu asesiadau a gwasanaethau ar y cyd i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd.

Penodwyd Therapydd Galwedigaethol llawn amser i'r tîm yn ystod y flwyddyn, ond er hyn mae rhestr aros i'r gwasanaeth yn parhau ac felly hefyd mewn perthynas â'r gwasanaeth nyrsio a seicoleg glinigol. Mae'r tîm wedi gweld cynnydd yn y niferoedd o gyfeiriadau am geisiadau o asesiadau'r sbectrwm awtistiaeth yn ystod y flwyddyn.



***"Mae Derwen wedi ein helpu ni fel teulu cyfan trwy adeg anodd iawn gyda'n plentyn, ni faswn yn gallu dychmygu beth fasa sgil effeithiau heb help Derwen ar ein plant eraill a'n bywyd teuluol ni."***

Methwyd sicrhau arian i barhau gyda'r cynllun gweithwyr allweddol oed trosglwyddo sef gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc ar fin symud i dderbyn gwasanaethau fel oedolion. Ar nodyn cadarnhaol gellir gweld fod nifer o bobl ifanc wedi elwa yn ystod y pum mlynedd diwethaf o'r cynllun yma a'r bwriad fydd sicrhau trefniadau amgen ar gyfer y grŵp yma o bobl ifanc.

**Gwasanaeth Integredig i Deuluoedd (IFSS)**
Cynllun yw hwn sy'n ymateb i'r angen i ddarparu ymyraethau arbennig i gynorthwyo teuluoedd lle mae'r rhiant neu ofalwr yn dioddef o broblemau alcohol , cyffuriau neu gyfuniad o'r ddau a lle mae hyn yn cael effaith andwyol ar y plant sydd yn y cartref . Cafwyd cyllideb gan Lywodraeth Cymru i sefydlu'r Timau arbenigol a'n penderfyniad yn lleol oedd sefydlu tîm ar y cyd gydag Ynys Môn (Môn yn arwain ar y datblygiad ) . Bellach sefydlwyd Bwrdd Cysgodol ac mae trafodaethau ynglŷn â strwythur y tîm yn mynd rhagddi.

## Darparu llety a chefnogaeth addas i bobl ifanc sydd yn gadael gofal

Mae'r Tîm "ôl 16" yn trafod gyda darparwyr llety yn y sector tai cymdeithasol er mwyn datblygu trefniadau pellach ac uchafu dewis llety i bobl ifanc. Mae canfod llety 1 llofft ar gyfer pobl ifanc yn parhau i fod yn heriol mewn sawl ardal yng Ngwynedd ac mae cydweithio gyda phartneriaid maes tai yn allweddol.

Mae'r Tîm yn parhau i weithio yn aml-asiantaethol a bellach mae'n cynnwys gweithiwr o Gyrfa Cymru sydd yn arwain ar y cynllun lleoliad gwaith i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae 4 person ifanc erbyn hyn ar leoliad gwaith ac yn derbyn cefnogaeth mentora. Roedd y cynllun yma yn ganlyniad uniongyrchol o wrando ar bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn trafod yr anawsterau a ddaw i'w rhan wrth geisio sicrhau cyflogaeth addas. Y bwriad yw parhau gyda'r cynllun yn ystod y flwyddyn o'm blaen.

## Rhaglen Hyfforddi Mandadol

Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi fandadol gyda disgwyliad fod staff perthnasol yn mynychu pob un o'r chwe chwrs. Roeddent yn cynnwys:

- Asesu anghenion
- Dadansoddi gwybodaeth
- Cynllunio ar sail canlyniadau
- Asesu risg
- Defnyddio teclynnau asesu arbenigol
- Asesu mewn achosion trais yn y cartref



Roedd y rhaglen yn llwyddiannus iawn ac er mwyn adeiladu ar y sylfaen penderfynwyd fod modd creu arbenigedd o fewn y gwasanaeth drwy fagu uwch ymarferwyr a chymhellwyr . Bydd hyn yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ddatblygu ein harbenigedd ein hunain ymysg holl staff y gwasanaeth.


Mae rhaglen hyfforddi'r gwasanaeth plant a theuluoedd, hefyd, wedi canolbwyntio ar feysydd perthnasol yn y broses o gynllunio parhaol gan gynnwys asesu siblingiaid (Together or Apart) a gwaith stori bywyd. Y bwriad yw uchafu sgiliau gweithwyr cymdeithasol gyda'r gobaith o gynnal trefniadau cynllunio effeithiol a sicrhau'r canlyniadau gorau i blant.

## 5. Beth fyddwn yn ei wneud nesaf?

### Y Cyd-destun strategol

Mae'r model isod yn cyfleu blaenoriaethau'r Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn cyd-destun blaenoriaethau strategol Cyngor Gwynedd. Yr hyn sy'n amlwg yw'r angen i gyd-gynhyrchu ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau drwy gydweithio ar lefel gyfartal gydag unigolion, teuluoedd, cymunedau a phobl broffesiynol perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys cydgynllunio, cyd-ddatblygu a chyd-werthuso gwasanaethau. Fy mwriad fel Cyfarwyddwr yw llunio strategaeth cyd-gynhyrchu yn ystod y cyfnod nesaf.

### Model Blaenoriaethau




**Felly gwelwn ein bod yn:**

**1. Sicrhau'r gofal cywir yn y lle cywir am y gost gywir**….drwy

..... ymateb yn well i anghenion pobl fregus a sicrhau gwasanaethau gofal cynaliadwy:

2. **Canolbwyntio ar adfer a chynnal annibyniaeth** ….drwy

…..gynyddu'r gwaith ataliol gofal oedolion a phobl hŷn

3. **Hyrwyddo Gwaith Cymdeithasol a gofal dda ac ymyrraeth ar sail gadarn** … drwy

……sicrhau strwythur addas i'w bwrpas
….ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion
….hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y maes

4. **Datblygu Gwydnwch Teuluoedd a Chymunedau** …..drwy

…..unioni cyfleoedd i grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd
…..hybu cyflenwad addas o dai ar gyfer pobl leol
….. leihau effaith tlodi ac amddifadedd
…. hybu balchder a chyfrifoldeb cymunedol

5. **Hyrwyddo a chynnal lles unigolion, teuluoedd a gofalwyr** …..drwy

…..gynyddu gwaith ataliol a thargedu anghydraddoldebau iechyd

**Mae Rhan 6 yr adroddiad yn dangos yn ymhelaethu ar y prosiectau sydd ynghlwm a'r uchod.**

DRAFT

## 6. Blaenoriaethau a Gweithgareddau 2013-2014

| Maes | Blaenoriaeth | Gweithgareddau |
|---|---|---|
| **Sicrhau'r gofal cywir yn y lle cywir am y gost gywir** | ….drwy ymateb yn well i anghenion plant , pobl ifanc ac oedolion bregus a sicrhau gwasanaethau gofal cynaliadwy: | Oedolion<br>• Cynnal adolygiad "Dechrau i'r Diwedd" o'r Gwasanaeth Oedolion yn ei gyfanrwydd<br><br>Gofal Preswyl<br>• Ystyried argymhellion asesiad llety a gofal Porthmadog<br>• Adnabod y ffordd ymlaen i'r ddarpariaeth yn nalgylch Porthmadog<br>• Gweithredu rhaglen ymgysylltu ynglŷn â'r ffordd ymlaen<br>• Cytuno'r ffordd ymlaen gyda chartrefi preswyl Cyngor Gwynedd<br>• Agor Uned Ysbaid benodol ar sail peilot a gwerthuso'r peilot<br><br>Gofal Dydd<br>• Cytuno ar gynllun sy'n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon gwaith , gwirfoddoli, cymdeithasu , gofal personol a gofal dwys<br>• Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon<br>• Datblygu rhaglen waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia<br>Teleofal<br>• Cwblhau adolygiad o achos busnes Teleofal a gweithredu ar yr argymhellion<br>• Lledaenu'r defnydd o Teleofal i bob maes perthnasol gan gynnwys plant a theuluoedd.<br><br>Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Anabledd Dysgu<br>• Gweithredu'r rhaglen ymgysylltu gyda rhanddeiliaid cartref Fron Deg Caernarfon<br>• Adnabod modelau llety a gofal dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu<br>• Ystyried gwybodaeth ymgysylltu, penderfynu ar opsiynau a |

| | | |
|---|---|---|
| | | chreu achos fusnes ar gyfer cartref Fron Deg<br>• Y Cabinet i ystyried yr achos fusnes safle Fron Deg<br>• Gweithredu ar argymhellion Arolwg Alder i faes Anabledd Dysgu<br><br>Plant a theuluoedd<br>• Canfod ffurf o gynnig gwell gwerth am arian wrth gynnig gwasanaeth effeithiol drwy Adolygiad "Dechrau i Ddiwedd" y Gwasanaeth Plant.<br>• Gweithredu ar argymhellion adolygiad "Dechrau i'r Diwedd " y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd gyda'r pwyslais ar ymyraethau " ffiniau gofal " ( edge of care )<br>• Cynyddu'r nifer a'r ystod o unedau maeth yng Ngwynedd gan roddi sylw arbennig i anghenion pobl ifanc yn eu harddegau gydag ymddygiad heriol a/ neu ymddygiad rhywiol anaddas<br>• Cynyddu darpariaeth ysbaid / preswyl ar gyfer plant anabl/ sâl |
| **Canolbwyntio ar adfer a chynnal annibyniaeth** | ….drwy gynyddu'r gwaith ataliol gofal oedolion a phobl hŷn | • Cytuno ar y ffordd ymlaen yn fewnol a gydag Iechyd mewn perthynas ag un pwynt cyswllt i wasanaethau oedolion a gweithredu ar yr argymhellion.<br>• Sefydlu system hunangyfeirio ar y we ar gyfer defnyddwyr , teuluoedd a phartneriaid<br>• Cynnal adolygiad o gyfleon ehangu darpariaeth ataliol ym maes gofal oedolion a phobl hŷn<br>• Cael barn defnyddwyr ar y profiad o dderbyn galluogi |
| **Hyrwyddo Gwaith Cymdeithasol a gofal dda ac ymyrraeth ar sail gadarn** | ……drwy sicrhau strwythur addas i'w bwrpas<br><br>….drwy ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion<br><br>….drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y maes | Prosiect Strwythur Arweinyddiaeth<br>• Adolygu a diwygio'r strwythur arweinyddiaeth o fewn y gwasanaeth yn sgil y penderfyniad i leoli rôl Cyfarwyddol Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol<br><br>Diogelu<br>• Mabwysiadu a gweithredu Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd<br>• Penodi Rheolwr Dynodedig ar gyfer pob Gwasanaeth<br>• Sicrhau fod gan bob gwasanaeth Gynllun Diogelu yn unol â'r |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | canllawiau corfforaethol<br>• Cyflwyno rhaglen hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion bregus<br>• Sefydlu natur sefyllfa Amddiffyn Oedolion bregus drwy gynnal adolygiad<br>• Gweithredu ar Mwy na Geiriau ac Adolygiad defnydd iaith mewn sefyllfaoedd gofal yng Ngwynedd<br>• Adolygu rôl ac effeithiolrwydd y timau ardal (localities)<br>• Parhau i adolygu cytundebau gyda chyrff allanol - maes anabledd corfforol / synhwyrol<br>• Parhau gydag adolygu trefn Diogelu rhag Colli Cyllid / Capasiti Meddyliol |
| **Datblygu Gwydnwch Teuluoedd a Chymunedau** | …..drwy unioni cyfleoedd i grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd<br><br>…..drwy hybu cyflenwad addas o dai ar gyfer pobl leol<br><br>….drwy leihau effaith tlodi ac amddifadedd | Plant, pobl ifanc a theuluoedd<br>• Canfod ffurf o gynnig gwell gwerth am arian wrth gynnig gwasanaeth effeithiol drwy Adolygiad “Dechrau i Ddiwedd” y Gwasanaeth Plant.<br>• Gweithredu ar argymhellion Adolygiad “Dechrau i’r Diwedd “ y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd mewn perthynas â’r agenda ataliol<br>• Cydweithio gyda’r Tîm o Amgylch y teulu i sefydlu / datblygu cynlluniau ataliol i deuluoedd gynnwys rhiantu, llythrennedd ariannol, chwarae a chyfleoedd hamdden egniol a gwaith blynyddoedd cynnar<br>• Cynnal adolygiad i ganfod cryfderau cymunedau unigol mewn perthynas â chefnogi plant , pobl ifanc ac oedolion bregus i gyrraedd eu llawn botensial , adnabod y bylchau a chanfod dulliau o gryfhau’r gefnogaeth<br><br>Tai gwag<br>• Dod â 95 o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd gan roddi pwyslais ar unedau llai.<br><br>Cyflenwad tai ar gyfer anghenion penodol<br>• Adnabod modelau amgen o ddefnydd tai gwarchod yn ardal Meirionnydd.<br>• Adnabod opsiynau i leihau’r amser mae’n cymryd i gwblhau addasiadau anabl. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cynyddu'r gwaith adeiladu a chynllunio gofal Tai Gofal Ychwanegol Bangor.<br>• Rhoi Strategaeth Lletya Pobl Hŷn yn ei le.<br><br>Prosiect Atal Digartrefedd<br>• Arbed a chynnal 40 o denantiaethau bregus.<br>• Rhoi cymorth i oddeutu 50 o deuluoedd i atal digartrefedd.<br>• Darparu 7 uned newydd ar gyfer rhai fyddai fel arall yn cael eu lleoli mewn gwely a brecwast, a pharatoi preswylwyr yr unedau yn well ar gyfer llety mwy parhaol.<br>• Targedu, Iesu, gweinyddu a rheoli 70 o unedau sector breifat er mwyn lleihau'r nifer fyddai fel arall yn ddigartref. |
| **Hyrwyddo a chynnal lles unigolion, teuluoedd a gofalwyr** | ….drwy gynyddu gwaith ataliol a thargedu anghydraddoldebau iechyd | • Creu darpariaeth addas ar gyfer y teulu o'r cychwyn trwy ystyried y ffordd y gall y gwasanaeth Iechyd a'r Cyngor gydweithio mewn perthynas â Blynyddoedd Cynnar plant a'u rhieni<br>• Cynnig gwasanaeth gwell i unigolion trwy ystyried cyfleon o gydweithio a darpariaeth ar y cyd ar gyfer triniaethau, gwasanaethau a rhaglenni adfer<br>• Cynnal Asesiad Anghenion Iechyd er mwyn cael darlun cyfredol o anghydraddoldebau Iechyd o fewn y Sir<br>• Cytuno ar y math o ymyraethau penodol a dwys y gellir eu targedu yn yr ardaloedd neu garfannau'r bobl a adnabyddir trwy ddatblygu strategaeth tymor hir<br>• Codi ymwybyddiaeth a chyfraniad gwasanaethau'r Cyngor i Wella Iechyd<br>• Sicrhau perchnogaeth gorfforaethol o'r brand Byw'n Iach gan sefydlu cyfundrefn, safonau a chanllawiau i'w cyrraedd. |
| **Cyd gynhyrchu** | | • Sefydlu strategaeth cyd gynhyrchu fydd yn cynnwys defnyddwyr, darpar ddefnyddwyr, gofalwyr a chymunedau wrth gynllunio, datblygu, gweithredu a gwerthuso ymyraethau<br>• Sefydlu a chryfhau fforymau defnyddwyr<br>• Cryfhau'r broses eiriolaeth gan ddarparu canllawiau clir a theg<br>• Cryfhau llais plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth / mewn gofal |

DRAFT

## 7. Diweddglo

Rwy'n fawr obeithio y gwnewch gytuno fod gwaith sylweddol wedi'i gyflawni o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn ystod 2012-2013. Er hyn rydym yn ymwybodol iawn o'r agenda sylweddol sydd o'n blaenau yn ystod 2013-2014 ac ymhellach. O ganlyniad i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau ffurfiol a phwysau ar gyllidebau sy'n lleihau, ni allwn barhau heb newid. Nid newid darniog a chynyddol sydd o'n blaenau ond trawsnewid sylweddol. Trawsnewid fydd yn golygu fod angen i bob un ohonom feddwl yn wahanol .

Rwy'n gwybod na all gwasanaethau cymdeithasol ymateb i'r agenda yma ar ei ben ei hun. Rwy'n gwybod fod unigolion, teuluoedd a chymunedau'n awyddus i gyfrannu i'r drafodaeth am ddyfodol gofal yng Ngwynedd ac yn awyddus hefyd i fod yn bartneriaid cyfartal yn y broses o gynllunio, datblygu, darparu a gwerthuso gwasanaethau - cyd-gynhyrchu. Dyma fy nymuniad innau hefyd a bydd hyn yn neges barhaus gennyf dros y cyfnod nesaf.

.

DRAFT

**Gwybodaeth Bellach**

Croesawir cysylltiad uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth os am dderbyn mwy o fanylion neu i drafod yr Adroddiad Blynyddol ymhellach. Dylid anfon unrhyw gwestiwn neu sylw i'r Uned Gofal Cwsmer:

Uned Gofal Cwsmer, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl , Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH, e-bost: gcgc@gwynedd.gov.uk: 01286 679 268

# 8. Cyswllt defnyddiol

**Gwefannau perthnasol**

**Cyngor Gwynedd**
www.gwynedd.gov.uk

**Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Tai a Hamdden Cyngor Gwynedd**
http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?doc=19050&Language=2&p=1&c=1

**Tudalen maethu gwefan Cyngor Gwynedd**
www.gwynedd.gov.uk/maethu

**Cyngor Gofal Cymru**
http://www.cgcymru.org.uk

**Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**
http://www.northwalesadoption.gov.uk/welsh/index.cfm

**Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)**
http://www.wao.gov.uk/cymraeg/home.asp

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**
http://wales.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/?lang=cy

**Gweithredu Dros Blant**
http://www.actionforchildren.org.uk/cymraeg

**Plant yng Nghymru**
http://www.plantyngnghymru.org.uk/index.html

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
http://www.bcu.wales.nhs.uk/

**Gwasanaeth Cenedlaethol Cynghori Ieuenctid (NYAS)**
http://www.nyas.net/

**Gwella Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (SSIA)**
http://www.ssiacymru.org.uk/index.cfm?articleid=4127

**Partneriaeth Strategol Plant a Pobl Ifanc**
http://www.gwynedd-ni.org.uk

DRAFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **19 Medi 2013** |
| **PWNC** | **Siarter Datblygu Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r bwriad o ymgeisio am y Siarter Datblygu Aelodau** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Les Day** |
| **SWYDDOG PERTHNASOL** | **Geraint George,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi llunio Breinlen Cynorthwyo Datblygu Cynghorwyr Cymru, y cyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'. Datblygwyd y Siarter ar ei newydd wedd yn 2012/13 gan ymgynghori â chylchoedd gwleidyddol a swyddogion cynorthwyo cynghorwyr pob awdurdod.

2. Mae CLlLC yn cydnabod fod sawl her yn wynebu cynghorwyr y dyddiau hyn, a bod disgwyl iddynt gyflawni amryw ddyletswyddau, megis arwain yn y gymuned ac ysgwyddo cyfrifoldebau penodol ar ran y Cyngor. Datblygwyd y freinlen er mwyn sicrhau y bydd rhaglen gymorth drefnus trwy Gymru gyfan ar gyfer cynorthwyo aelodau etholedig yn eu gwaith.

3. Mae tair lefel i'r broses, sef:
   - Y Freinlen – sef y lefel sylfaenol y gallai'r rhan fwyaf o awdurdodau ei hennill ar ôl cyflawni ychydig fisoedd o waith.
   - Y Freinlen Uwch – sy'n fwy ymestynnol am fod angen paratoi am ryw flwyddyn i'w hennill ar ôl cyrraedd y lefel sylfaenol.
   - Gwobr Rhagoriaeth – sef yr angen i arddangos cymorth cywrain iawn a deilliannau amlwg i'r gwaith

   (Gweler crynodeb o'r hyn y bydd ennill y freinlen yn ei gyflawni i'r Cyngor yn **Atodiad A**)

4. I ymgeisio am y freinlen, bydd angen i'r Awdurdod ddilyn y camau gweithredu a nodir isod:
   - Mynegi ei ymrwymiad corfforaethol i ymgeisio am y Freinlen trwy lofnodi datganiad o'i fwriad yn un o gyfarfodydd y Cyngor llawn.
   - Cynnal hunanasesiad bras yn ôl y meini prawf perthnasol a sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer unrhyw waith datblygu er mwyn ateb gofynion y Freinlen.
   - Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith a chyflwyno'r hunanasesiad i CLlLC.
   - Bydd tim o gymheiriaid yn adolygu'r cais ac yn rhoi adborth cynhyrchiol a chefnogol. Bydd rhai cymheiriaid yn ymweld â'r awdurdod yn anffurfiol fel rhan o'r cais.

5. Mae elfennau o'r freinlen yn cyd-fynd ac yn adeiladu ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011. At hyn, mae ennill y Siarter, ynghyd â'r gwaith

paratoadol tuag at adolygiadau blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu aelodau yn ategu egwyddorion y Cyngor ynghylch cefnogi datblygiad aelodau etholedig i'w galluogi i weithredu eu rolau yn llwyddiannus.

6. Mae'r uchod hefyd yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd gan yr is-grŵp hyfforddiant fel rhan o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y cyfnod hyd at Chwefror 2013.

7. Cyflwynwyd gwybodaeth am y Siarter Datblygu Aelodau gerbron aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 4 Mehefin 2013. Roedd aelodau'r pwyllgor o'r farn fod y Cyngor eisoes yn cwrdd â nifer o ofynion y Siarter, a chroesawyd y syniad fel cyfle i gynyddu statws hyfforddiant a datblygiad yr aelodau etholedig. Ar sail hynny, cytunodd aelodau'r pwyllgor i gynnig argymhelliad i'r Cyngor llawn y dylid datgan diddordeb mewn ymgeisio am y Freinlen (Siarter) yn ystod 2013/14.

**Argymhelliad:**

8. Argymhellir fod y Cyngor llawn yn cytuno i ddatgan diddordeb mewn ymgeisio am y Freinlen (Siarter) yn ystod 2013/14.

9. Argymhellir fod y Cyngor llawn yn cytuno i ddatgan ei ymrwymiad corfforaethol i ymgeisio am y Siarter drwy arwyddo'r datganiad o fwriad yn y cyfarfod hwn o'r Cyngor llawn.

**ATODIAD A**

**Bydd y Freinlen yn:**

• Cynnwys pob agwedd ar gymorth i gynghorwyr, megis trefniadau cyfansoddiadol, fframwaith strategol ac ymarferol ar gyfer datblygu cynghorwyr, gwasanaethau i gynghorwyr a chyfleusterau iddyn nhw.

• Cael ei hennill yn ôl canllawiau y cytunwyd arnyn nhw. Bydd byd llywodraeth leol yn cadw llygad ar y trefniadau ac yn eu hasesu o'i wirfodd trwy gyfrwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a fydd yn rhoi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad am y cynnydd.

• Rhoi datganiad o'i hennill, o ymrwymiad yr awdurdod i gynorthwyo ei gynghorwyr, a bydd modd defnyddio hynny i annog pobl i sefyll mewn etholiadau.

• Cydnabod y bydd gan bob awdurdod ei dull, ei flaenoriaethau a'i strwythur ei hun, ac mae hynny i'w groesawu.

• Hyrwyddo'r syniad o gynorthwyo a datblygu pob cynghorydd, beth bynnag fo'i blaid wleidyddol,a chydnabod cyfraniad pob plaid wleidyddol at ddatblygiad gwleidyddol y cynghorwyr.

• Cydnabod bod pob cynghorydd yn dod â'i fedrau a'i rinweddau ei hun i'r awdurdod. Nid cynhyrchu criw o gynghorwyr unffurf yw diben y Freinlen, na'u gorfodi nhw i ymddwyn mewn modd penodol, ond rhoi'r wybodaeth, y medrau a'r cyfleoedd priodol iddyn nhw i'w galluogi i gyflawni'r swyddogaethau maen nhw wedi'u dewis.

• Annog yr awdurdodau i edrych ar y ffordd maen nhw'n gweithio, i ofalu bod pob cynghorydd yn cael cymryd rhan yn y gwaith hwnnw.

(CLlLC – Breinlen ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **19 Medi 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor a Chyrff Allanol** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSYLLTIOL** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Derbyniwyd rhybudd

1.1.1 Nad yw'r Cynghorydd John Brynmor Hughes bellach yn aelod o Grŵp Llais Gwynedd a'i fod yn dymuno cael ei drin fel aelod unigol

1.1.2 Fod y Cynghorydd Dilwyn Lloyd wedi symud o'r Grŵp Annibynnol i Grŵp Llais Gwynedd

1.2 O ganlyniad mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 37 |
| Annibynnol | 17 |
| Llais Gwynedd | 14 |
| Llafur | 4 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 1 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â

phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

3.1 Mae'r newid yn y cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Archwilio ar draul y Grŵp Llais Gwynedd sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Archwilio.

3.2 Golyga hefyd fod Llais Gwynedd yn ennill sedd ar y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar draul y Grŵp Annibynnol sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

3.3 Golyga hefyd fod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, ar draul y Grŵp Annibynnol sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.
(Gweler **Atodiad A** – lle nodir y newidiadau i'r dyraniad blaenorol ar gefndir llwyd)

## 4. AELODAETH CYNGOR GWYNEDD AR GYRFF ALLANOL

4.1 Mae'r newidiadau i gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor hefyd yn gofyn am roi ystyriaeth i ddyraniad seddau'r Cyngor ar gyrff allanol, ac yn yr achos yma i roi sylw i ddau sefydliad yn benodol: Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, lle y penodwyd cynrychiolwyr ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

4.2 Mae'r newidiadau diweddar mor ymylol o ran niferoedd fel nad oes galw ar y Cyngor i wneud newidiadau i gynrychiolaeth y Cyngor ar y cyrff hyn yn sgil y newidiadau yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

4.3 Fel mae'n digwydd, roedd John Brynmor Hughes yn cynrychioli'r Grŵp Llais Gwynedd ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Dilwyn Lloyd yn cynrychioli'r Grŵp Annibynnol ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

4.4 Fel arfer, penodir aelodau i'r cyrff hyn am oes y Cyngor. Fodd bynnag, barn Grŵp Busnes y Cyngor ar 3 Medi 2013 oedd y dylid glynu wrth yr egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ar gyfer cynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff allanol.

4.4 Golyga hyn y bydd nifer seddi pob Grŵp ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau yr un fath. Fodd bynnag, bydd angen i'r Grŵp Annibynnol enwebu aelod arall i gynrychioli'r Cyngor ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a'r Grŵp Llais Gwynedd enwebu aelod arall i gynrychioli'r Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.
(Gweler **Atodiad B**)

## 5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor llawn:

- drafod a chytuno ar y newid i ddyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 3.1 - 3.3 uchod yn unol â chytundeb y Grŵp Busnes

- gytuno y dylai'r gynrychiolaeth ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru barhau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac y dylid gwahodd y ddau grŵp perthnasol i enwebu aelodau eraill i gynrychioli'r Cyngor ar y cyrff hyn.

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 4 | 1 | | |
| Archwilio | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 4 | 0 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 3 | | | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | 1 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **76** | **37** | **28** | **8** | **4** | **1** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 1 | | 1 | |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 2 | 1 | | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 1 | 1 | 1 | | 1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Seddau** | **96** | **47** | **36** | **10** | **5** | **194** |

ATODIAD B

## CYRFF ALLANOL

| Corff | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 4 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |